

Pennod 4: Arfau'r Beirdd yn eu Cyd-destun

4.1 Cyflwyniad

Mae'r cyffelybiaethau niferus rhwng yr Hengerdd a cherddi Beirdd y Tywysogion wedi'i gwneud yn haws hyd yma i ymdrin â'u cyfeiriadau at arfau fesul arf. Ond troir yn y bennod hon at ystyried y gwahaniaethau rhwng y cyfeiriadau at arfau yn y ddau gorpws.¹ Gwneir hyn yn gyntaf drwy edrych ar eirfa'r beirdd, cyn troi at y darlun ehangach o ran yr arfau a'r dulliau brwydro a ddisgrifir yn y cerddi, mewn perthynas â'r dystiolaeth hanesyddol ac archeolegol a drafodwyd yn yr ail bennod.

Oherwydd y gwahaniaethau sylfaenol rhwng yr Hengerdd a cherddi Beirdd y Tywysogion o ran cyd-destun a swyddogaeth y canu, ymdrinnir â'r ddau gorpws hyn o safbwyntiau gwahanol. Yn achos yr Hengerdd, ystyrir yn bennaf arwyddocâd cyfeiriadau at arfau a dulliau brwydro o ran *genre* a dyddiad y cerddi, gan ganolbwyntio ar 'Y Gododdin' oherwydd pwysigrwydd y gerdd hon (neu'r cerddi hyn) o ran ei hyd, ei dyddiad cymharol gynnar (yn ôl y farn gyffredin), a'r defnydd a wnaethpwyd ohoni yn barod gan ysgolheigion mewn perthynas â dulliau rhyfel yr Oesoedd Tywyll. Yn achos Beirdd y Tywysogion, ar y llaw arall, am fod cyd-destun hanesyddol y cerddi hyn yn llawer mwy sicr, gellir ystyried yn fwy manwl y berthynas rhwng y sefyllfa gyfoes (cyn belled ag y medrir ei dirnad) a darlun y beirdd o arfau a dulliau brwydro. Ystyrir i ba raddau y gellir defnyddio'r cerddi fel tystiolaeth hanesyddol am arferion rhyfel, ac fe drafodir goblygiadau ehangach 'delwedd' y beirdd o'u gwrthrychau tywysogaidd mewn perthynas â dylanwadau a datblygiadau megis sifalri a ffiwdaliaeth.

4.2 Dosbarthiad y cyfeiriadau

Yn Atodiad Ia nodwyd 88 o wahanol eiriau cysefin a ddefnyddid am arfau yn yr Hengerdd (gan gynnwys 24 gair ansicr), o'u cymharu â 63 o wahanol eiriau (gan gynnwys 13 gair ansicr) yn Atodiad Ib ar gyfer Beirdd y Tywysogion. Mae'r gwahaniaeth hyd yn oed yn fwy trawiadol o ystyried bod cyfanswm y farddoniaeth a gyfrifir fel Hengerdd gryn dipyn yn llai na chyfanswm gwaith Beirdd y Tywysogion – yn ôl mynegeiriau'r ddau gorpws, mae'r

¹ Mae 'corpws' yn air camarweiniol mewn perthynas â'r Hengerdd, fel y trafodwyd ym Mhennod 1, ond fe'i defnyddir yma er cyfleustra.

Hengerdd yn cynnwys cyfanswm o 50171 o eiriau,² a'r rhif cyfatebol ar gyfer Beirdd y Tywysogion yw 70888 o eiriau.³

Mae'r sefyllfa yn wahanol o gynnwys tarddeiriau a chyfansoddeiriau yn ogystal â'r ffurfiau cysefin, a hynny'n rhoi cyfanswm o 163 gair (gan gynnwys 48 gair amheus) ar gyfer yr Hengerdd a 195 gair (gan gynnwys 22 gair amheus) ar gyfer Beirdd y Tywysogion. Mae'r ffigurau hyn yn tystio i hoffter arbennig Beirdd y Tywysogion o gyfansoddeiriau, a hynny'n adlewyrchu eu harddull gryno a'u defnydd helaeth o epithedau megis *gwaywrudd* neu *eurgledd*.⁴ Yn wir, yng ngherddi Beirdd y Tywysogion mae nifer o eiriau sy'n fwy cyffredin o fewn cyfansoddeiriau nag y maent yn eu ffurfiau cysefin, sef *aes*, *calch*, *cledd*, *dur*, *gelau*, *pren* a *rhaidd*, ac mae *greiff*, *gwrn*, *gwrysg* a *tryfer* yn digwydd fel elfennau mewn cyfansoddeiriau yn unig. Yn achos yr Hengerdd, yr unig eiriau a geir yn amlach mewn cyfansoddeiriau nag yn eu ffurfiau cysefin yw *gwialen/gweyelin* a *gwrn*, ynghyd â *palach*, o bosibl.

Yn yr adrannau nesaf, ystyrir yn fwy manwl ddsbarthiad geiriau am arfau, gan dynnu sylw'n benodol at eiriau sy'n absennol o'r naill gorpws ond yn bresennol yn y llall, neu sy'n llawer mwy cyffredin yn y naill nag yn y llall.

4.2.1 Geiriau sydd fwyaf cyffredin yn yr Hengerdd

Gellir nodi yn gyntaf eiriau am arfau sy'n ymddangos yn yr Hengerdd ond nas arferid yn yr un modd yng ngherddi Beirdd y Tywysogion (**Tabl 9**). Cyfanswm yr holl eiriau posibl yn y dosbarth hwn yw 48, er bod 19 o blith y rhain yn ffurfiau ansicr – hynny yw, geiriau ansicr eu hystyr oherwydd eu bod yn brin neu'n unigryw (megis *catbwll*, *colwedd* ac *(y)sgeth*), neu oherwydd ansicrwydd ynglŷn â'r ystyron posibl (megis *caen* a *gwanas*); geiriau am bethau eraill a ddefnyddid fel trosiadau o arfau, neu a ddefnyddid o bosibl yn rheolaidd gyda'r ystyr honno adeg cyfansoddi'r cerddi (megis *sychyn*), a geiriau y mae eu ffurf yn amheus am eu bod yn tarddu o ddarlleniadau amrywiol neu ddiwygiadau (megis *gwroden* neu *saxa*).

² Rhoddir y rhif hwn ar ddiwedd mynegair H-cd.

³ Rwy'n ddiolchgar iawn i Dr Ann Parry Owen am roi'r rhif hwn imi.

⁴ Gw. adran 1.4.3.

Diau fod y gwahaniaethau geirfaol rhwng y ddau gorpws, a'r ffaith fod geirfa'r Hengerdd yn fwy amrywiol na geirfa Beirdd y Tywysogion, yn ymwneud i raddau helaeth â'r ffaith fod cerddi'r Hengerdd wedi eu canu dros gyfnod llawer hwy – sef pedair canrif o leiaf, ac efallai chwe chanrif neu fwy, o gymharu â llai na dwy ganrif yn achos Beirdd y Tywysogion.⁵ Ond mae *genres* mwy amrywiol yr Hengerdd yn ffactor pwysig arall, ac felly hefyd y tebygolrwydd fod y beirdd a ganai'r Hengerdd yn fwy amrywiol o ran eu statws nag yr oedd Beirdd y Tywysogion – neu, o leiaf, eu bod yn defnyddio mwy o wahanol leisiau neu bersonâu yn eu canu.⁶ Yn wir, rhaid nodi hefyd y posibilrwydd mai 'beirdd yr Hengerdd' oedd Beirdd y Tywysogion, mewn rhai achosion;⁷ ond y pwynt allweddol yw fod canu mewn *genres* eraill, y tu allan i gonfensiynau arferol y canu mawl, yn rhoi i feirdd y cyfle i ymdrin â deunydd gwahanol, neu i ystyried syniadau cyffredin megis 'y delfryd arwrol' o wahanol safbwyntiau.⁸ Nodwyd yn barod yn y traethawd hwn, er enghraifft, fod tarianau yn medru cael eu defnyddio i ddarlunio llwfrdra neu henaint, yn ogystal â gwrhydri a chadernid di-ildio (gw. adran 3.13.7), ac mae cefndir chwedlonol rhai o gerddi Taliesin yn cynnig delweddaeth sydd yn unigryw o fewn y canu a ystyrir yma, megis y cyfeiriadau at ffyn hudol (*hudlath a brithron*) neu'r disgrifiadau o'r bardd yn rhith arfau ac offer eraill.⁹

Weithiau ymddengys fod *genre* yn ymwneud yn uniongyrchol â geirfa. Mae *baglawg* yn digwydd mewn cerddi gwirebol yn unig, ac mae *ffon* neu *ffonogion* i'w cael mewn cerdd wirebol, ac mewn cerdd arall ('Llym Awel') sy'n dwyn elfennau gwirebol ynghyd ag elfennau o ganu natur a chanu saga.¹⁰ Mae hefyd nifer o eiriau a geir yn y canu saga yn unig, sef *caen* gyda'r ystyr (bosibl) 'gwain cyllell', *eiddio* '?gwaywffon', *genwair* 'gwialen, ffon, gwaywffon', *gwäell/gwaell* '?gwaywffon', *gwanas* gyda'r ystyr bosibl '?bogail tarian, ?tarian' ac *ystle* '?gwaywffon', a hynny hefyd o bosibl yn adlewyrchu cyd-destun gwahanol y cerddi hyn, neu amgylchiadau gwahanol eu cyfansoddi. Llai arwyddocaol yw *?gwroden* '?ffon daro', a hwnnw'n air amheus yn 'Ymddiddan Arthur a'r Eryr' (CC 30.20b), a'r gair

⁵ Gw. adrannau 1.4.1 a 1.4.2.

⁶ Trafodwyd hyn gan Rowland, 'Genres', gan ddod i'r casgliad fod holl *genres* yr Hengerdd 'of bardic origin' ond eu bod wedi eu canu o amrywiol safbwyntiau neu mewn amrywiol bersonâu.

⁷ Gw. Haycock, LPBT tt. 25-36.

⁸ Gw. Rowland, 'Genres', yn enwedig tt. 201-2.

⁹ LPBT 2.9 *wyf dur, wyf dryw, wyf [syw], wyf [saer]*; 4.233-5 *bum kyff, bum raw, / bum bwell yn llaw, / bum ebill yg gefel*; 5.3 *bum cledyf culurith*; 17-18 *Bum cledyf yn aghat, / bum yscwyt yg kat*, a 209-10 *bum ser gan gynbyn. / bum bwystuer [r]yn*.

¹⁰ Am 'Llym Awel', gw. nodiadau I. Williams ar CLIH VII, a Rowland, EWSP tt. 229-40. Mae *ffonogion* yn dynodi'r gwŷr a laddodd Mechydd, yn 'Llym Awel', ac fe geir *baglawg* fel ansoddair yn EWGP II.1a, yn goleddfu *byddin*, ac yn EWGP VIII.3a fel enw sy'n dynodi rhyw filwr nodweddiadol, mae'n debyg, er bod Jackson, ib.n, yn nodi bod dyn a chanddo fagl bugail, neu fagl eglwysig, yn bosibilrwydd arall.

palach ‘pastwn’ sy’n digwydd fel rhan o enw personol, mae’n debyg, mewn cerdd arall sy’n ymwneud ag Arthur (PaŴr 41). Mae’n werth nodi, fodd bynnag, fod yr enw *Pen Palach* yn gydnaws â rhai o’r enwau rhyfedd niferus yn ‘Culhwch ac Olwen’ megis *Drustwrn Hayarn* ‘Drust Dwrn Haearn’, *Osla Gyllelluawr* (enw am y Brenin Offa, fe ddichon), *Run Rudwern* ‘Rhun Gwernen Goch’ a *Bwlch a Chyuwlch a Seuwlch, meibion Kledyf Kyuwllch, vyron Cledyf Diuwllch*.¹¹

Mae’r ffaith fod dau air am ffyn hudol, sef *brithron* a *hudlath*, yn digwydd yn ‘Cad Goddau’ a ‘Daronwy’ – fel offer sy’n perthyn i Wydion a Mathonwy – yn gysylltiedig unwaith eto â *genre*, ond mae nifer o eiriau eraill a geir yng ngherddi Llyfr Taliesin yn unig, sef *?cainc* ‘?gwaywffon’ (PBT (BTF) 3.59), *rhethren* ‘gwaywffon’ (PT XI.3), *serr* ‘bilwg, cryman’ (LPBT 5.209), a *bwyell*, fel ffurf gysefin (LPBT 4.234), er cael *bwylliaidau* ‘ergydion bwyell’ yn ‘Y Gododdin’, o bosibl (CA (LXXXIII) 1012). Mae’n arwyddocaol fod *serr* a *bwyell*, yn ogystal â bod yn eiriau anghyffredin yn y farddoniaeth, hefyd yn dynodi offer anghyffredin. Yn wir, y tebyg yw nad arfau rhyfel a ddisgrifir o gwbl, yn enwedig yn achos *bwyell*, am fod offer pob dydd yn fwy cyffredin nag arfau ymhlith y pethau eraill a nodir mewn rhestrau o drawsnewidiadau Taliesin.¹²

Mae’r rhan fwyaf o’r geiriau a geir yn yr Hengerdd ond nid gan Feirdd y Tywysogion i’w cael yn ‘Y Gododdin’, fel y disgwyliid o ystyried hyd anghyffredin y gerdd hon (neu’r cerddi hyn) a natur hynafol – neu dywyll, o leiaf – ei hiaith yn gyffredinol.¹³ Yma ceir *bancarw* ‘corn carw, gwaywffon’, *cymawn* ‘?pastwn’, *ceingiell* ‘gwaywffon’, *coed* ‘gwaywffyn’, *colwedd* ‘?gwaywffon, blaen arf’, *offer* ‘arfau’, *rhodawr* (amrywiad, o bosibl, ar y ffurf fwy cyffredin *rhodawg*), *saxa* ‘?sacs’, *seri* ‘?rhywbeth blaenfain, ?gwaywffon’, *sychyn* ‘?cethren, ?gwaywffon’ ac *(y)sgeth* ‘?arfau/arfwisg, ?gwaywffon, ?tarian gron

¹¹ CO llau. 191-2, 277, 286 a 333-4, a gw. nodiadau’r llau. hyn.

¹² Cyfeirir at *kyff* ‘block’ a *rhaw*, ac *ebill yg gefel* ‘an auger [held] in tongs’ yn y llau. cyfagos at y cyfeiriad at *bwyell* yn ‘Angar Kyfundawt’. Mae dau gyfeiriad at seirff (*neidyr* a *gwiber*) yn y llinellau cyn y cyfeiriad at *ser gan Gynbyn* yn ‘Kat Godeu’, ac fe gyfeirir at waywffon hela (*bwystuer*) yn y llinell ddilynol. Am *serr* ‘bilwg, cryman’ gw. adran 3.3 uchod.

¹³ Tynnodd I. Williams, CA tt. lxiii, sylw at ‘yr elfennau hynafol yn orgraff, geiriau, a chystrawen y canu’, a gw. hefyd Jackson, GOSP t. 59, sy’n galw iaith ‘Y Gododdin’ yn ‘archaic’ ac yn ‘obscure’, a J.T. Koch, GodA t. xii: ‘The fact that the syntax and lexicon of *Ē Gododīn* are obscure (and often require historical comparison beyond the confines of Welsh for elucidation) also implies a high antiquity for the original’, ond gthg. Greene, ‘Linguistic Considerations in the Dating of Early Welsh Verse’, 11: ‘there is no passage in the *Gododdin*, or in the Taliesin poems accepted by Sir Ifor, where a ninth-century date is excluded by the archaism of the language’. Awgrymodd D.S. Evans, ‘Iaith y *Gododdin*’, t. 83, y gallai rhai ffurfiau sy’n dangos sain ymwithiol megis *laueneu* (CA 851), *lauanaur* (1221) a *gwrymseirch* (373, 568 a 902) fod yn gynharach na’r nawfed neu’r ddegfed ganrif, er nodi, t. 85, mai Cymraeg Canol cynnar yw’r rhan fwyaf o iaith ‘Y Gododdin’, a hynny’n adlewyrchu mewnbyn y sawl a aeth ati i ‘geisio rhoi llun arni ar femrwn’.

fechan'.¹⁴ Mae'r unig enghreifftiau o *cangen* gyda'r ystyr (dybiedig) 'gwaywffon' i'w cael yn 'Y Gododdin', ac felly hefyd yr unig enghraifft o'r ffurf gysefin *plwm*, mewn cysylltiad ag arfau, er bod *plymlwyd*, *plymnwyd* a *plymnaid* yn digwydd mewn cerddi eraill o blith yr Hengerdd, a chan Feirdd y Tywysogion.¹⁵ Mae'n bosibl y dylid hefyd gynnwys *cethr*, gyda'r ystyr '(blaen) gwaywffon' yn hytrach na 'hoelen', gan ei bod yn debygol mai 'hoelion' a 'hoeliad' yw ystyr *cethron* a *cethrat* (diwygiad o *cethrawt*) yn 'Proffwydoliaeth ynghylch Dydd y Farn' (CC cerdd 20), er na fyddai'r ystyr '(blaen) gwaywffon' yn amhosibl yno (gw. adran 3.2.1.1). At hynny, mae cyfeiriadau anghyffredin mewn dwy awdl (neu gerdd) arall o Lyfr Aneirin, sef *camgledd* 'cleddyf cam' a *catbwl* '?peiriant rhyfel, ?bwa croes' yn 'Gwarchan Tudfwlch', a *teddydd* (ffurf ar *teddyf* 'llafn bwyell' yn ôl dehongliad Graham Isaac) yn 'Gwarchan Maeldderw'.¹⁶

Byddai *catbwl*, os cywir y dehongliad a awgrymir yn adran 3.11, yn bwysig iawn fel cyfeiriad prin at fwa croes, neu fel yr unig gyfeiriad at beiriant rhyfel a adnabuwyd hyd yma yng ngherddi beirdd y cyfnodau dan sylw (trafodir hyn ymhellach isod, adran 4.3). Mae *camgledd* yn air diddorol arall, yn enwedig o'i ystyried wrth ochr y cyfeiriadau posibl at sacs (yn ogystal â chyllell) yn 'Y Gododdin', ac felly hefyd *teddydd*, os cywir ei ddehongli fel rhan o fwyell ryfel, am nad oes ond dau gyfeiriad posibl arall at fwyell yn y cerddi, sef *bwylliadau* 'Y Gododdin' a *bwyell* 'Angar Kyfundawt'.¹⁷ Mae'n werth nodi yn y cyd-destun hwn fod 'Gwarchan Tudfwlch' yn canmol yr un Tudfwlch ag a folir yn 'Y Gododdin', fwy na thebyg, ond bod 'Gwarchan Maeldderw' heb ddangos unrhyw gysylltiad amlwg â cherddi eraill Llyfr Aneirin, gan gael ei phriodoli (megis 'Angar Kyfundawt') i Daliesin.¹⁸ Ategir y cysylltiad rhwng 'Gwarchan Maeldderw' a cherddi Llyfr Taliesin gan y cyfeiriad ati yn 'Kat Godeu', LPBT 5.147-8 *a'n maglas blaen Derw / o Warchan Maelderw*, er bod y cyd-destun yn codi cwestiynau ynghylch priodoliad y ddwy

¹⁴ Tynnodd Jarman, BOHP, t. liv, sylw at amrywiaeth yr enwau am ryfel ac arfau yn 'Y Gododdin', gan restru 42 gair am ryfel neu drwr, 20 gair am ryfelwr, a 21 gair am arfau ymosodol. Adnabuwyd hyd at 49 o eiriau am arfau yn 'Y Gododdin' yn y traethawd hwn, gan gynnwys tarianau ac arfau amhenodol (ond heb gynnwys ffurfiau ar *gwrn* neu *seirch*), sef *aes*, *aesawr*, *arf*, *asen* (*ais*), *bancarw*, *bêr*, *?bwyell* (*bwylyadeu*), *cangen*, *calch*, *ceingiell*, *cethr*, *cleddyf*, *coed*, *?colwedd*, *cylchwy*, *cylllell*, *?cymawn*, *dur*, *?erwydd*, *glasawg*, *?goglysur*, *gwayw*, *gweilging*, *?gwern* (*gwernor*), *gwialen* / *gweyelin*, *?gwydd*, *haearn*, *llafn*, *lläin*, *llory* (*llwry*), *mehyr* / *myhyr*, *offer*, *onnen*, *paladr*, *pâr*, *pennawr*, *?plwm*, *pren*, *rhodawg*, *rhodawr*, *saffwy*, *?saxa*, *?seri*, *?sychyn*, *?tarian*, *ysbâr*, *?ysgeth*, *ysgwyd* ac *?ystle*, ac os cynhwysir awdlau neu gerddi eraill Llyfr Aneirin gellir nodi hefyd *cigwain* a *llath* ('Pais Dinogad'), *camgledd* a *catbwl* ('Gwarchan Tudfwlch'), a *gorddwr*, *onwydd* a *teddyf* ('Gwarchan Maeldderw').

¹⁵ Gw. adran 3.2.2, ac yn enwedig n. 117 yn yr adran honno.

¹⁶ Gw. Isaac, 'Gwarchan Maeldderw', 89.

¹⁷ Trafodir arwyddocâd cyfeiriadau'r Hengerdd at gyllyll a bwyell isod, adran 4.3.

¹⁸ CA tt. lviii a lix.

gerdd i Daliesin.¹⁹ Mae'r ffactorau hyn, ynghyd â'r cyfeiriadau eraill yn 'Gwarchan Maeldderw' at arfau nas crybwyllir yn 'Y Gododdin', sef *gorddwr* ac *onwydd*, o blaid ystyried y gerdd ar ei phen ei hun fel cerdd o fawl i'r arwr Maeldderw, a honno o bosibl yn gymharol ddiweddar.²⁰

Mae *glasawg* 'arf glas, cleddyf glas' yn digwydd yn 'Y Gododdin' yn unig, ond ceir *gorlasawg* a *gorlasar* mewn dwy o gerddi 'dilys' Taliesin, sef 'Ar vn blyned' ac 'Yspeil Taliessin' (PT cerddi V a VIII). Digwydd *gorlasar* y drydedd waith mewn cerdd chwedlonol o Lyfr Taliesin (LPBT cerdd 24 'Marwnat Vthyr Pendragon'). Mae *pennawr* '?pennau gwaywffyn', yn ffurf arall a geir yn 'Y Gododdin' (*[p]edryollt bennawr*, CA (XI) 95) ac, o bosibl, yn Llyfr Taliesin (LPBT 8.6 ('Golychaf-i Gulwyd') *yt lethrynt lafnawr ar pennawr disgowen*);²¹ ac mae'r ffaith fod y ddwy ffurf *gochlysur* ('?amddiffyn, arfogaeth, tarian; cawod o waywffyn') a *goglysur* ('?arfogaeth, amddiffyn; campau (ag arfau), medr i drin arfau; cawod o saethau a gwaywffyn') yn digwydd yn 'Y Gododdin' ac mewn cerdd chwedlonol arall o Lyfr Taliesin (LPBT cerdd 9 'Kadeir Teyrnon') hefyd yn werth ei nodi. Ni ellir cymryd, fodd bynnag, fod y cyfryw gyffelybiaethau yng ngeirfa cerddi o Lyfr Aneirin a Llyfr Taliesin yn dystiolaeth o ddyddiadau cyfansoddi tebyg neu gysylltiadau penodol eraill (ar wahân i fenthyl geirfa neu ymadroddion), yn enwedig o ystyried bod y cyffelybiaethau a nodwyd yn anghyffredin o'u cymharu â nifer y geiriau sy'n gyfyngedig i'r naill ffynhonnell neu'r llall.

Mae dosbarthiad rhai geiriau anghyffredin yn annisgwyl. Mae *esgyll*, mewn perthynas â gwaywffyn, yn digwydd ddwy waith yn Llyfr Taliesin (LPBT 14.54 a PT X.6) ac un waith yn Canu Llywarch Hen (CLIH I.46c), ac fe'i ceir gan Feirdd yr Uchelwyr, ond nid oes unrhyw enghreifftiau gan Feirdd y Tywysogion, gan awgrymu naill ai bod y beirdd

¹⁹ Mae Haycock, *ib.n.*, yn tynnu sylw at y ffaith fod y llinellau hyn yn disgrifio 'Gwarchan Maeldderw' 'as having ensnared "us"', er mai i Daliesin y priodolir y ddwy gerdd. Mae'r cyfeiriadau at Ynys Enlli yn 'Gwarchan Maeldderw' ac yn 'Golychaf-i Gulwyd' yn enghraifft arall o debygrwydd rhwng 'Gwarchan Maeldderw' a cherddi Llyfr Taliesin (*gw. isod*, n. 100).

²⁰ Nid oes enghraifft arall o *gorddwr* yn yr Hengerdd, ond ceir *orddawd* ym 'Mor yw Gwael Gweled' (cerdd ddarogan o Lyfr Coch Hergest). O ran *onwydd*, nid yw'r ystyr 'gwaywffyn' yn debygol yn achos yr unig enghraifft bosibl arall yn yr Hengerdd, sef LPBT 23.11 *mal vcheneit gwynt wrth onwyd* (oni bai bod ystyr ddwbl yn ddealedig; *gw. adran 3.2.1.2 uchod* (n. 78)), ond fe'i ceir gan Feilyr Brydydd yn CBT I 3.120 *Gwaed gwyr goferai, gwyr ai onwydd*. Nododd Isaac, 'Gwarchan Maeldderw', 78, nad yw'n ymddangos bod yr arwr Maeldderw yn dwyn cysylltiad uniongyrchol ag arwyr 'Y Gododdin', er ei bod yn bosibl ei fod yn cael ei gymharu ag un ohonynt mewn un llinell; ac fe ddyddiodd y gerdd (n. 46 yn yr un erthygl) i tua'r ddegfed ganrif neu'r unfed ganrif ar ddeg.

²¹ Mae'n debygol mai 'pennau dynion' yw ystyr *pennawr* yn CA (XIV) 128 *en gystud heyrn dur arbennawr*, ac yn GwynNudd 4c *briuint penaur peleidrad*.

diweddarach wedi codi'r gair yn uniongyrchol o'r Hengerdd neu o hen ffynhonnell (goll) arall, neu fod y trosiad wedi'i fathu o'r newydd yn eu cyfnod hwy – a hynny mewn perthynas â chyllyll yn ogystal â gwaywffyn.²² Mae tarddiad annibynnol yn debygol hefyd ar gyfer y cyfeiriadau at waywffyn *efydd* a geir gan Feirdd yr Uchelwyr ac, efallai, yn 'Cyfoesi Myrddin a Gwenddydd',²³ a gellid awgrymu'r un esboniad ar gyfer geiriau anghyffredin eraill a geir mewn cerddi (o fewn yr Hengerdd) nad oes cysylltiad amlwg rhyngddynt, megis *erwydd* '?gwaywffyn' yn yr 'Afallennau' a'r 'Gododdin', *ffranc* ('gwaywffon dafl' yn ôl dehongliad annhebygol Andrew Breeze)²⁴ yn nhri englyn y Juvencus ac yn Canu Heledd, a phresenoldeb (*g*)*ordd* fel elfen mewn gwahanol eiriau yn 'Gwarchan Maeldderw' (*gorddwr* 'morthwyliwr', CA (GwM) 1435) ac mewn cerdd ddarogan o Lyfr Coch Hergest, sef 'Mor yw Gwael Gweled' (*orddawd* 'ergyd (*g*)*ordd*', MGG 5). Mae'r ffurfiau hyn yn dal i fod o ddiddordeb o ran eu presenoldeb yn yr Hengerdd (a'u habsenoldeb o gerddi Beirdd y Tywysogion), er hynny, yn enwedig yn achos y gair *cyllell* y mae un enghraifft ohono yn 'Y Gododdin', dwy yn Llyfr Taliesin ac un yn Canu Llywarch Hen.²⁵

Troir nesaf at ystyried geiriau a geir yn llawer mwy aml yn yr Hengerdd nag yng ngwaith Beirdd y Tywysogion. Cynhwysir yn y dosbarth hwn eiriau sydd o leiaf ddwywaith yn fwy cyffredin yn yr Hengerdd, ar ôl cymryd i ystyriaeth y gwahaniaethau rhwng cyfansymiau geiriau'r ddau gorpws (gw. **Tablau 2-8**).²⁶ Defnyddiwyd y ffigur ar gyfer yr holl enghreifftiau posibl, gan gynnwys enghreifftiau amheus, wrth ddsbarthu'r geiriau, er cymryd cyfraniad ffurfiau amheus i ystyriaeth yn y dadansoddiad sy'n dilyn.

Geiriau am waywffyn yw'r mwyafrif o'r geiriau hynny sydd fwyaf cyffredin yn yr Hengerdd, yn ôl y maen prawf a nodwyd. Mae'r gwahaniaeth mwyaf i'w weld yn achos *gwialen* neu *gweyelin*, a geir chwech neu saith o weithiau yn yr Hengerdd mewn perthynas â gwiaail neu waywffyn, gan gynnwys y ffurfiau *gweyelu* a *gwialfan*, ac unwaith yn unig gan

²² Trafodir y cyfeiriadau hyn ar ddiwedd adran 3.2.1.1.

²³ Am gyd-destun gwahanol iawn y cyfeiriadau hyn gw. adran 3.2.2.

²⁴ Breeze, 'Old English *franca*, "spear": Welsh *ffranc*', ond gthg. Rowland, 'Old Welsh *franc*: An Old English Borrowing?' (gw. adran 3.2.1.1 uchod).

²⁵ Trafodir hyn ymbellach yn adrannau 4.3 a 4.4 isod.

²⁶ E.e. yn achos y gair *onnen*, er nad yw'r ffigurau crai, sef 11-12 enghraifft yn yr Hengerdd a saith gan Feirdd y Tywysogion, yn ymddangos fel bod digon o wahaniaeth rhyngddynt i gyrraedd y maen prawf a nodwyd, os mynegir y rhifau fel canran o gyfanswm geiriau y ddau gorpws gellir gweld bod y ffigur ar gyfer yr Hengerdd (0.022%-0.024%) fwy na ddwywaith yn fwy na'r ffigur ar gyfer Beirdd y Tywysogion (0.010%). (Hynny yw, 11 (neu 12) wedi ei rannu â 50171, a 7 wedi ei rannu â 70888 – am darddiad y cyfansymiau hyn gw. adran 4.1 uchod).

Feirdd y Tywysogion. Er na ellir cysylltu'r holl enghreifftiau yn yr Hengerdd â gwaywffyn, mae'r cysylltiad yn bur eglur yn achos y tair enghraifft o *gwialfan*, ac mae'r ffaith fod dwy linell gyfatebol yn CA XLIII yn dangos *[g]waiw* yn fersiwn A a *guiau hen* yn fersiwn B yn awgrymu bod y geiriau hyn yn medru bod yn gyfystyr, os cywir darllen *gwialen* am *guiau hen*.²⁷ Mae'r unig enghraifft gan Feirdd y Tywysogion mewn perthynas â rhyfel, sef CBT IV 6.154 *Hwyl taerdan trywan trwy wial*, yn amwys ei hystyr – yn wir, awgrymir yn CBT fod Cynddelw yn chwarae â gwahanol ystyron *gwaiail* yma – ond mae cyfeiriad eglur at *gwielyn* fel gwaywffyn gan Lewys Glyn Cothi (*fl.* tua 1447-89).²⁸ Nid oes unrhyw enghreifftiau eraill o *gwialfan*, ar y llaw arall, ar wahân i'r tair yn 'Y Gododdin'.²⁹

Mae 11 neu 12 o enghreifftiau o *onnen* yn yr Hengerdd, o'u cymharu â saith gan Feirdd y Tywysogion, a gellid nodi hefyd fod dwy (neu un) enghraifft o *onwydd* yn yr Hengerdd, ac un yn unig gan Feirdd y Tywysogion.³⁰ Ac eto, ni ellir dweud bod hynny'n adlewyrchu dirywiad yn statws gwaywffyn o bren onn, am fod y ffurf *ongyr* yn gyffredin iawn gan Feirdd y Tywysogion (27 enghraifft, o'u cymharu â dwy yn yr Hengerdd),³¹ ac fe geir enghreifftiau o *onnen* ac *ongyr* yn bur aml gan Feirdd yr Uchelwyr.³² Yn yr un modd, er bod tair enghraifft o *saffwy* neu *saffwyawg* yn yr Hengerdd, ac un yn unig gan Feirdd y Tywysogion (mewn cerdd o waith Cynddelw), ni ellir dweud bod hynny'n dangos hen air

²⁷ Awgrymodd I. Williams, CA 463n, mai *gwialen* oedd yn y fersiwn gwreiddiol.

²⁸ GPC d.g. *gwialen*, *gwyalen*, a gw. GLGC 17.4-6 *Ei fraich ef ar fryn, / ei gorff a'i farch gwyn, / a dyr gwielyn wrth dre Galais*, a gw. hefyd, yn yr un gyfrol, 11.97-8 *Hil Llywelyn hyd Gynfelyn / a yrr gelyn i'r gwialir*, a'r nodyn ar yr ail linell yn awgrymu 'y gŵr â gwaywffon hir' fel ystyr *gwialir* (gw. adran 3.2.2 uchod am enghreifftiau eraill o waywffyn hir, a gw. adran 3.4.1 am y ffurf *cleddyfir*).

²⁹ GPC d.g., a gw. adran 4.3 am arwyddocâd y cyfeiriadau hyn.

³⁰ Gw. n. 20 yn y bennod hon.

³¹ Gw. Atodiad Ib, d.g. Cymharol ddiweddar yw'r ddwy enghraifft o *ongyr* yn yr Hengerdd – credir bod 'Ymddiddan Arthur a'r Eryr' (CC cerdd 30) yn dyddio o'r cyfnod cyn c. 1150 (Haycock, CC t. 299, yn cyfeirio at Ifor Williams, *B* 2 (1923), 269-86 (278-9)), a bod 'Eiry Mynydd' (EWGP cerdd III) yn dyddio o tua dechrau'r ddeuddegfed ganrif (Jackson, EWGP t. 7).

³² Mae saith enghraifft o *onnen* neu *onn* yn y mynegair i feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg (GBDd 6.9 *Dilesg onnen, deulid Urien, dylud aeraw*; GGrG At1.25 *Ac onnen fraisg, Einion frau*; GGLI 11.55 *Torres dy onnen gennyd*; GLIBH 5.23 *Syganwyd eu gwisg onnen* (cyfeiriad o bosibl at arfbais, gw. ib.n), a GSRh 6.17 *Aer daradr cadr, delltwr coedydd—onn*), a saith enghraifft o *ongyr* (GPB 1.3 *Aerddrud arth esgud wrth esgyll—ongyr*, a 11.11 *Rhwth eryr, drafn ongyr drych* (o gerdd ddychan, ond yn 'adlais eironig o'r canu mawl' yn ôl ib.n); GGDT 11.72 *Gwyr bleiniad ongyr o Blwyf Dingad*; GLIBH 19.28 *Cywir ungair gwir, ongyr gwerog* (o gerdd ddychan arall); GGMDi 3.189 *Trafn traul ongyr gwyr, trefn gwawr—doethwlad*, a 8.18 *Gweilging ongyr, yt, teg eryr, eto geiriwyd* (dehonglir *ongyr* yma fel 'ymosodiad'), a GSRh 4.9 *Tudyr yn ongyr enyngad—Einglgrwydr*.

yn diflannu o eirfa'r beirdd, am fod enghreifftiau o'r gair yng ngwaith beirdd diweddarach megis Dafydd ap Gwilym a Iolo Goch.³³

Mae *ais* (ffurf luosog *asen*) yn air arall y gall fod mwy o enghreifftiau ohono yn yr Hengerdd na chan Feirdd y Tywysogion,³⁴ er bod nifer o'r cyfeiriadau hyn yn ansicr eu hystyr am y gallai *ais* olygu 'gwaywffyn', 'asennau (dynion)' neu 'darianau'.³⁵ O ganlyniad, ni ellir sicrwydd fod y gair hwn mewn gwirionedd yn sylweddol fwy 'poblogaidd' yn yr Hengerdd nag yng ngwaith Beirdd y Tywysogion, er y gellid awgrymu iddo golli bri ymhlith Beirdd y Tywysogion fel gair am waywffon oherwydd ei amwyster (gall fod yn berthnasol fod y ffurf unigol *aes* 'tarian' yn fwy cyffredin yn eu cerddi hwy nag yn yr Hengerdd).³⁶ Gair amwys arall yng nghyd-destun rhyfel yw *gwern*, a allai ddynodi offer a wneid o bren gwern megis llath, gwaywffon neu darian yn ogystal â choeden wern neu ryfelwr sy'n cael ei gyffelybu i goeden neu waywffon. Oherwydd hynny, ni ellir dweud bod y rhan fwyaf o'r chwe enghraifft a nodwyd ar gyfer yr Hengerdd (gan gynnwys dau gyfansoddair) yn dynodi arfau, ac yn wir nid yw hyn yn sicr yn achos yr unig enghraifft gan Feirdd y Tywysogion ychwaith (gw. adran 3.2.4.4). Mae'r ffurf *gwernor* (CA (CII) 1244) o ddiddordeb, er hynny, fel cyfeiriad posibl at wrthglawdd amddiffynnol neu drefniant amddiffynnol o waywffyn neu darianau, ac felly hefyd *petrygwern* (PBT (LITARA) 9.16), a all ddynodi gwaywffon a chanddi ben pedeirochrog, tarian sgwâr neu drefniant amddiffynnol o darianau neu waywffyn, o bosibl.³⁷

Gair arall a allai fod wedi ei ddefnyddio yn amlach yn yr Hengerdd na chan Feirdd y Tywysogion yw *llafn*, gyda'r ystyr benodol 'gwaywffon' neu 'lafn gwaywffon' (yn hytrach na'r ystyr 'llafn' neu 'gledddyf'), er na ellir sicrwydd am hyn am fod llawer o'r enghreifftiau eraill o'r gair yn amwys eu hystyr. Y mae'n anodd, hefyd, benderfynu ystyr *llory* neu *llwry* yn aml, fel na ellir bod yn sicr a yw'r ffurfiau hyn yn dwyn yr ystyr 'ffon, pastwn' (yn

³³ DG.net 9.59 *Gwaedgoel saffwy rhwy, rhwym gwlad—a'i gafael*; GIG 5.53 *Gronwy loyw saffwy, lys hoff*, a 7.14 *Gŵr praff wrth baladr saffwy*; GLIG 5.68 *Gronwy loyw saffwy, liaws hoffedd*, GMD 1.54 *Mywn aerfa bu dda i ddwyn saffwy*, a GSRh 4.94 *Eirgras hoffedd, irgrau saffwy*.

³⁴ Sef 3-7 yn yr Hengerdd o'u cymharu â 2-4 gan Feirdd y Tywysogion.

³⁵ Gw. Atodiad Ia d.gg. *aes* ac *asen*, a'r troednodiadau yno.

³⁶ Nid oes yr un enghraifft o *ais* gyda'r ystyr 'gwaywffyn' gan feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg, a hwythau'n defnyddio *ais* gan amlaf i ddisgrifio rhannau o'r corff ('bron', 'mynwes' neu 'galon'), neu gyda'r ystyr 'gwialenni' (sef muriau'r 'Deildy', DG.net 37.28), 'gweddillion' (DG.net 151.6) neu 'ddellt' (GGDT 13.46), er ei fod yn dynodi tarianau (trosiadol) yn DG.net 161.63 ('Y Sêr') *Heulwen i ni hoelion ais*. Ceir y ffurf unigol *aes* 'tarian' unwaith yn unig gan feirdd y cyfnod hwn (heb gynnwys cyfansoddeiriau), sef GGDT 11.13 (Trahaearn Brydydd Mawr) *Llinon ysgyrion llew aes gwyniaith*, o'i gymharu â 20 enghraifft o'r ffurf *aesawr*.

³⁷ Gw. adrannau 3.2.1.2, 3.13.2 a 3.13.4.

hytrach na ‘phaladr (gwaywffon)’ yn fwy aml yn yr Hengerdd nag yng ngherddi Beirdd y Tywysogion, er bod hynny’n bosibilrwydd (gw. adran 3.7). Mae *llath Voessen* (CC 10.31) yn sicr yn golygu ‘ffon’, ond nid arf rhyfel yw hwn, a’r tebyg yw fod y ddwy enghraifft arall o *llath* neu *llathennu* yn yr Hengerdd yn ymwneud â gwaywffyn.³⁸ Yn yr un modd, nid yw nifer cymharol uchel cyfeiriadau’r Hengerdd at *pren* gyda’r ystyr ‘ffon’ (yn hytrach na ‘gwaywffon’) yn arwyddocaol o ran arfau rhyfel, am fod y cyfanswm yn cynnwys cyfeiriadau at bethau megis ffon hen wŷr, ffon bardd, neu goeden hyd yn oed.³⁹ Mae amwyster hefyd ynghylch ystyr y gair *gweilging*, a allai ddynodi ‘ffon’ neu ‘baladr gwaywffon’, neu gael ei ddefnyddio’n ffigurol am arwr neu gynheiliad; ac yn yr achos hwn mae nifer yr enghreifftiau mor fach (dwy yn yr Hengerdd, o’u cymharu ag un gan Feirdd y Tywysogion) fel na ellir dweud bod rhyw lawer o arwyddocâd i ddisbarthiad y gair ar draws y ddau gorpws.

Yn olaf, ystyrir y ddau air am harnais, arfwisg neu arfogaeth sydd fwyaf cyffredin yn yr Hengerdd, sef *gwrn* a *seirch*, ynghyd â’r ffurfiau *gwrmdde*, *gwrngaen*, *gwrmseirch*, *?cadseirch* a *?seirchiawg*.⁴⁰ O blith y ffurfiau hyn, *seirch* a *gwrmseirch* yn unig a gynrychiolir yng ngherddi Beirdd y Tywysogion, er eu bod hwythau wedi defnyddio dau darddair nas ceir yn yr Hengerdd, sef *diseirch* a *goseirch*. Awgryma’r ffurfiau hyn fod *seirch* yn parhau’n air ‘byw’ a chynhyrchiol ymhlith Beirdd y Tywysogion, ac felly hefyd y ffaith ei fod wedi ei ddefnyddio gan amrediad eang o feirdd dros holl gyfnod eu canu, o Feilyr Brydydd hyd at Lygad Gŵr.

4.2.2 Geirfa Beirdd y Tywysogion

Mae hyd at 19 o eiriau am arfau yng ngherddi Beirdd y Tywysogion nas ceir yn yr Hengerdd, er bod saith o’r rheini yn ansicr (**Tabl 9**).⁴¹ Mae rhai o’r geiriau hyn yn eiriau am bethau eraill a ddefnyddid yn drosiadol am arfau, sef *llif*, *pig*, ac efallai *greiff*; ac mae eraill yn enwau sy’n ymwneud ag addurn neu liw, sef *eurgrwydr*, *eurlliw*, *llasar* ac efallai *minwydr* a *tryliw*. Y tebyg yw fod *brond(d)or* yn air ‘barddol’ arall, ac yn wir mae’n bosibl

³⁸ Mae’r ystyr ‘gwaywffon’ yn debygol hefyd ar gyfer y ddwy enghraifft gan Feirdd y Tywysogion, er bod ‘ffon’ yn bosibl yn achos CBT V 7.11 *Nid bath llath yn llaw ysgeraint* (gw. adran 3.3).

³⁹ Gw. Atodiad Ia, d.g.

⁴⁰ Y cyfansymiau ar gyfer holl ffurfiau *gwrn* yw saith yn yr Hengerdd o’u cymharu ag un (*gwrmseirch*) gan Feirdd y Tywysogion, a’r ffigurau cyfatebol ar gyfer *seirch* yw 19-20 ac 11.

⁴¹ Ni chynhwysir *cleddau* yn y ffigurau hyn, er na cheir y ffurf hon yn yr Hengerdd, am nad yw ond yn ffurf ar *cleddyf*.

na chysylltid y gair hwn erioed â math penodol o offer go-iawn. Er na ddefnyddid y geiriau hyn yn yr un modd yn yr Hengerdd – ceir *eurgrwydr* yno fel ansoddair yn unig – mae'n werth nodi bod enghreifftiau yn y cerddi hynny o droadau ymadrodd tebyg megis *glasawg* am gleddyf neu arf glas a *sychyn* a *bancarw* am waywffyn.

Mae *gelau* 'gwaywffon' yn air diddorol am nad oes unrhyw enghreifftiau ohono y tu allan i gerddi Beirdd y Tywysogion, ar wahân i'w bresenoldeb fel elfen yn yr enw lle Abergele.⁴² Yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru* y mae'n tarddu o'r gwreiddyn **ghel-* 'cerfio, ysgythru, naddu', ac nid oes awgrym mai gair benthg ydyw, felly rhaid tybio ei fod yn air anghyffredin yn y Gymraeg a fabwysiadwyd neu a addaswyd gan y beirdd er mwyn cyfoethogi eu geirfa. Mae'n bosibl mai Cynddelw a wnaeth hyn, yn wir, am mai yn ei gerddi ef (ynghyd â 'Hirlas Owain') y mae'r enghreifftiau cynharaf o *gelau*,⁴³ er na ellir damcaniaethu'n ormodol ar sail hynny o ystyried mai canran gymharol fechan o'r corpws hwn sydd yn gynharach na gwaith Cynddelw, a bod cerddi Cynddelw ei hun mor niferus. Nid rhyfedd, felly, mai yng ngherddi Cynddelw y ceir rhai o'r enghreifftiau cynharaf (o fewn y corpws hwn) o nifer o eiriau sy'n ymwneud ag arfau, sef *brond(d)or* 'arfogaeth i'r fron, ?tarian',⁴⁴ *eurgrwydr*,⁴⁵ *llinon* 'gwaywffon',⁴⁶ *llasar* '(tarian) addurnedig',⁴⁷ a *rhod* 'tarian'.⁴⁸ Gall fod yn berthnasol yn y cyd-destun hwn mai gan Gynddelw y ceir y rhan

⁴² GPC d.g. *gelau*² a *geleurudd*.

⁴³ Yr unig enghraifft arall gan fardd o'r un cyfnod yw defnydd Seisyll Bryffwrch o'r cyfansoddair *geleurudd* yn ei farwnad i Owain Gwynedd (CBT II 22.41), ond cymh. defnydd Cynddelw o'r un gair yn 'Arwyrain Owain Gwynedd' (IV 3.34). Cynddelw yw'r unig fardd a ddefnyddiodd y ffurf gysefin *gelau* (III 21.195 a IV 2.19), ond mae dwy enghraifft o *geleurudd* gan feirdd y drydedd ganrif ar ddeg, sef VI 11.2 (Phylip Brydydd) a VII 35.3 (dienw).

⁴⁴ Mae chwech o'r 11 enghraifft o'r gair yn y corpws hwn mewn cerddi o waith Cynddelw, y gellir eu dyddio i'r cyfnod rhwng tua 1150 a 1195. Ceir enghraifft arall gan Lywelyn Fardd I, mewn cerdd y credir ei bod wedi'i chanu'n fuan ar ôl 1162. Gw. CBT II 3.70, III 13.32, 16.23 a 153, IV 2.53, 6.294 a 9.52, a rhagymadroddion y cerddi hyn.

⁴⁵ Gw. adran 3.13.3, a n. 1033 yn enwedig.

⁴⁶ Mae un enghraifft gan Gynddelw, ac un gan Einion ap Gwgon (CBT IV 1.18 a VI 18.42). Ceir *llinon* (fel ansoddair) yn BR 17.6-7 *Y marchawc yn dyuot a phaladyr llinon bras yn y law*, ac fe'i ceir fel enw ac fel ansoddair gan feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg (GEO 1.53, GMBen 4.12, GGDT 11.13 a GSRh 4.129). Gw. GPC d.g. am enghreifftiau pellach, rhai gyda'r ystyr 'onnen' neu 'o bren onn'. Mae GPC yn awgrymu ?*llin*¹ + *onn* fel tarddiad *llinon* (gw. ymhellach GPC d.g. *llin*¹ 'llinach', 'llinell' ayb.) ac yn nodi bod geiriaduron cynharach wedi cysylltu'r gair â graen y pren. Mae'n eglur bod yr onnen yn goeden 'ffrwythlon' o ran cynhyrchu cyfansoddeiriau yn ymwneud ag arfau – cymh. y defnydd o *onn*, *ongyr* ac *onwydd* gan feirdd y cyfnodau dan sylw yma, a hefyd y gair *onwayw* a ddefnyddiwyd gan Siôn Ceri, bardd o ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg (A. Cynfael Lake (gol.), *Gwaith Siôn Ceri* (Aberystwyth, 1996), 32.18).

⁴⁷ Mae saith enghraifft gan Gynddelw ond nid yw *llasar* yn ymddangos eto yng ngherddi'r beirdd nes cael ei ddefnyddio gan Fledwyn Fardd ym 'Marwnad Dafydd ap Gruffudd ap Llywelyn' (VII 52.15). Nid oes ond dwy enghraifft o *llasar* fel gair am addurn ar offer yn y mynegair i feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg, sef GEO 1.53 *Llinon belydr briw*, *llasar ysgwydliw*, a GSRh 3.20 *Llaeswr gofrwysg frwydr*, *llasar gyfrwy*.

⁴⁸ Defnyddiodd Cynddelw y gair *rhod* ddwywaith yn unig, a'r ddwy enghraifft hyn yn ei gerdd ddadolwch i'r Arglwydd Rhys (CBT IV cerdd 9) a ddyddiwyd i'r cyfnod rhwng 1189 ac 1195. Mae tair neu bedair enghraifft gan Brydydd y Moch, a'r gynharaf yn digwydd mewn cerdd a ddyddiwyd i 1175-1200 (V 10.11). Nid oes

fwyaf o'r enghreifftiau o *rhodawg* gan Feirdd y Tywysogion – hynny yw, fe allai fod wedi defnyddio *rhod* 'tarian' fel amrywiad ar *rhodawg*, er ei bod yn bosibl hefyd fod *rhod* 'olwyn' wedi'i ddefnyddio'n gynharach fel trosiad o darian gron, yn enwedig o ystyried y dystiolaeth fod patrwm olwyn wedi'i ddefnyddio i addurno tarianau yn y cyfnod Rhufeinig Diweddar (gw. adran 4.3).

Mae enghreifftiau eraill o eiriau yng ngherddi Cynddelw a all ddangos perthynas rhwng ei gerddi ef a'r Hengerdd, neu'r 'Gododdin' yn benodol. Gallai'r gair unigryw *saffar* (CBT III 24.105) fod wedi'i fathu ar batrwm *saffwy* 'Y Gododdin',⁴⁹ a hwnnw'n air y mae'r unig enghraifft ohono (gan Feirdd y Tywysogion) mewn cerdd arall o waith Cynddelw (III 16.71). Gall fod yn arwyddocaol hefyd mai gan Gynnddelw y ceir y rhan fwyaf o'r enghreifftiau o *eurgrwydr*, ac mai yn 'Hirlas Owain' y ceir yr unig enghraifft o *eurgrwydr* fel ansoddair yng ngherddi Beirdd y Tywysogion.⁵⁰ Ansoddair yw *eurgrwydr* yn 'Y Gododdin' hefyd – yn disgrifio *ysgwyd*, fel y mae yn 'Hirlas Owain' – ac mae Gruffydd Aled Williams wedi nodi nifer o gyfleoliadau geiriol eraill sy'n gyffredin i'r ddwy gerdd hyn.⁵¹ Hyd yn oed os nad Cynddelw oedd awdur yr 'Hirlas', gellid tybied bod ei ddylanwad yn gryf arni, ac mae'r cysylltiad hwn â'r 'Gododdin' yn gydnaws â cherddi eraill o'i waith. Ni waeth pwy oedd yr awdur, fodd bynnag, ymddengys yn bosibl mai fel benthyciad o'r 'Gododdin' y cyrhaeddodd *eurgrwydr* eirfa Beirdd y Tywysogion, am fod yr unig gyfeiriad arall o tua'r un cyfnod, sef cerdd fawl Gwynfardd Frycheiniog i'r Arglwydd Rhys (CBT II cerdd 25), yn ddiweddarach na'r 'Hirlas'.⁵² Gallai awduron testunau rhyddiaith fod wedi codi'r gair naill ai o gerddi Beirdd y Tywysogion neu o'r 'Gododdin' yn uniongyrchol, ac fe all nad oedd neb yn siŵr iawn o union ystyr y gair (er bod amryw bosibiliadau, fel y trafodir yn adran 3.13.3).

sicrwydd fod elfen gyntaf *rhodriawg* (CBT I 11.38) yn ymwneud â tharian, ond os oes cysylltiad dilys yma, gellid cyfrif Gwalchmai ymhlith y beirdd cyntaf i ddefnyddio *rhod*, am fod y gerdd hon wedi'i dyddio i'r cyfnod rhwng 1175 a 1190 (a dechrau'r cyfnod hwnnw yn fwy tebygol na'r diwedd). (Am y dyddiadau hyn, gw. rhagymadroddion y cerddi unigol yn CBT).

⁴⁹ CA (LXIII B a D) 734 a CA (LXIII D) 752, a gw. hefyd y ffurf *saffwyawg* yn CA (XXXIV) 384 a PT XI.29. Awgrymir cysylltiad posibl rhwng *saffar* a *saffwy* yn CBT III 24.105n.

⁵⁰ Gw. adran 1.4.1 am awgrym Gruffydd Aled Williams y gall mai Cynddelw a gyfansoddodd y cerddi a briodolir i Owain Cyfeiliog.

⁵¹ CBT II tt. 206-9.

⁵² Mae CBT II t. 423 yn nodi y gall fod cyfeiriadau yng ngherdd Gwynfardd Brycheiniog at ddigwyddiadau yn 1165 a 1167, ond credir bod 'Hirlas Owain' wedi ei chanu i ddathlu cyrch yn 1156 (CBT II t. 221). Mae'n ddiddorol nodi bod Cynddelw yntau wedi defnyddio *eurgrwydr* mewn cerdd i'r Arglwydd Rhys, sef ei awdl ddadolwch (CBT IV cerdd 9), er y credir bod honno wedi'i chanu ar ôl 1189 (CBT IV t. 175). Yr unig fardd arall a ddefnyddiodd *eurgrwydr* oedd Llygad Gŵr (CBT VII 25.9 a 79).

Yn ogystal â'r gair *saffar* 'gwaywffon' nad oes unrhyw enghraifft arall ohono y tu allan i eiriaduron, mae cerddi Cynddelw yn cynnwys nifer o enwau eraill am arfau nad oes enghreifftiau eraill ohonynt yn yr Hengerdd na chan Feirdd y Tywysogion, sef y cyfansoddeiriau *eurlliw* '(arfau) gwych',⁵³ *eurwrysg* '?gwiail/gwaywffyn gwych',⁵⁴ a *tryliw* '?tarian liwgar',⁵⁵ yn ogystal ag *enfys* fel gair am ran o waywffon.⁵⁶ Ond nid Cynddelw oedd yr unig un o blith Beirdd y Tywysogion a ddefnyddiodd dermau anghyffredin neu unigryw. Mae'r unig enghraifft o *minwydr* '?tarian ddisglair ei min' mewn cerdd gan Wynfardd Brycheiniog,⁵⁷ a chan Ddaniel ap Llosgwrn Mew y ceir yr unig ddefnydd o *talaith* gyda'r ystyr 'blaen tarian'.⁵⁸ Gall mai Phylip Brydydd a fathodd y cyfansoddair *greiffwrys*,⁵⁹ ac mae'n bosibl mai ef oedd yr unig fardd a ddefnyddiodd *perging* fel gair am waywffon neu lath, er bod beirdd eraill o gyfnod y tywysogion ac o'r bedwaredd ganrif ar ddeg wedi defnyddio'r gair gyda'r ystyr drosiadol 'amddiffynnydd, pennaeth, arglwydd'.⁶⁰ At hynny, defnyddiwyd *lliny* gyda'r ystyr bosibl 'lliny bwa' mewn cerdd o waith Einion ap Gwgon yn unig, o blith Beirdd y Tywysogion, er bod enghreifftiau o'r ystyr hon mewn rhyddiaith a chan feirdd diweddarach.⁶¹ Ac yn olaf, ceir *pig* fel gair am waywffon mewn un o gerddi crefyddol Madog ap Gwallter yn unig, a hynny fwy na thebyg yn gysylltiedig ag awydd yr awdur i wahaniaethau rhwng arf yr Archangel Mihangel a gwaywffyn rhyfelwyr

⁵³ CBT III 27.1 III 27.1-2 *Ednyfed, aerllew a dan eurlliw—clae* / *Â'r darian daer dalfriw*. Ni ddefnyddid *eurlliw* fel enw gan feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg, ond fe'i ceir fel ansoddair mewn perthynas ag offer rhyfel yn GGMDi 6.48 *Eurlliw ei faner o ieirll fonedd*; 7.90 *Aerllew dewr eurlliw darian*; GC 2.36 *Eurlliw helm, aerllew hyladd*, a GIG 20.75-6 *Asur sydd yn dy aesawr, / Iarll Mars, gyda'r eurlliw mawr*; ac fe gyfeirir at yscwyt *eurlliw* yn *Llyfr Blegywryd*, t. 98.

⁵⁴ CBT III 17.32. Ni restrir y gair hwn yn GPC.

⁵⁵ CBT IV 9.100, a chymh. defnydd yr un gair fel ansoddair mewn cerddi eraill o waith Cynddelw (III 16.132 *Ei darian dryliw, droch*; IV 1.38 *Tryliw ei ongyr, angerdd rysgain*; 3.43 *Tryliw eu peleidr pan fo*, a 6.188 *Tryliw ei ysgwyd, ysgydwir—yn nhorment*) ac yn II 14.49 ('Hirlas Owain') *Tryliw eu pelydr gwedi penwan*. Nid oes enghreifftiau eraill o *tryliw* y tu allan i eiriaduron yn ôl GPC d.g.

⁵⁶ CBT IV 6.52-3 *A pharau yn ffyrf hyd enfys / Yn ais meirw, a meirch yn gochwys*. Er nad oes enghraifft arall mewn perthynas â gwaywffon, mae'n debyg fod y cyfeiriad hwn yn un o nifer o enghreifftiau o ystyr fel 'cylchyn' ar gyfer *enfys* (gw. GPC d.g. *enfys* (2)).

⁵⁷ CBT II 25.15. Ni restrir y gair hwn yn GPC.

⁵⁸ CBT II 18.15 ('Marwnad Owain Gwynedd') *Oedd ysgwn, oedd twn talaith—ei darian*. Mae GPC d.g. *talaith* (d) yn nodi enghreifftiau o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen o *talaith* gydag ystyr herodrol 'bend, traean uchaf tarian'. Nid yw'r ystyr hon yn debygol ar gyfer yr enghraifft gan Ddaniel ap Llosgwrn Mew, am nad oes tystiolaeth fod tywysogion Cymreig wedi mabwysiadu herodraeth mor gynnar â 1170, ac mae'r cyfeiriadau gan feirdd eraill at ddirod i *tâl* tarianau o blaid tybied mai 'blaen' yw'r ystyr yma hefyd.

⁵⁹ CBT VI 13.13 *Dan Rys, fab greiffwrys Gruffudd—ysgwydwyrdd*, a gw. adran 3.2.1.1 am drafodaeth ar y gair hwn. Ymddengys yn bur debygol fod *greiffwrys* wedi'i fathu'n unswydd ar gyfer y gerdd hon (cerdd o fawl i Rys Ieuanc, sef Rhys ap Gruffudd), oherwydd ei odl a'i gyseindedd â'r enwau Gruffudd a Rhys.

⁶⁰ CBT VI 12.18-19 *Na'm gwrthod yn ddurffing, / Eryr llewyr, llaw berging*, a gw. GPC d.g. *perging* (b) a'r enghreifftiau yn n.11 ym Mhennod 3.

⁶¹ CBT VI 18.42 *A'r llinyn ar dynn ar du celain*, a gw. GPC d.g. *lliny* (b).

meidrol.⁶² Gwelir yma effaith *genre*, felly, megis yn yr enghreifftiau o'r Hengerdd a drafodir yn adran 4.2.1.

Gwalchmai oedd y cyntaf o blith Beirdd y Tywysogion, hyd y gwyddys, i ddefnyddio'r gair benthg *glaif* (< Hen Ffrangeg *glave*),⁶³ ac yn wir mae'n bosibl fod ei farwnad ef i Fadog ap Maredudd (m. 1160) yn cynnwys yr enghraifft gynharaf o'r gair sydd wedi goroesi (CBT 7.121).⁶⁴ Mae'r elfen *greiff*- yn *greiffwrys* (CBT VI 13.13) yn enghraifft arall o air benthg, o'r Lladin (*graphium*) y tro hwn, ac mae'r ffaith fod y gair *greiffiad* yn ymddangos yng nghofnod y 'Surexit' yn dangos bod yr elfen hon wedi ei benthg yn gynnar,⁶⁵ yn ogystal ag awgrymu cysylltiadau rhwng y beirdd a dosbarthiadau dysgedig eraill.⁶⁶ Mae *llasar* yn air benthg arall, ond mae mwy nag un posibilrwydd o ran ei darddiad, ac mae ei ddefnydd yn y cyfreithiau ac yn y Pedair Cainc yn dangos ei fod yn gyfarwydd mewn amrywiol gyd-destunau y tu allan i gerddi'r beirdd (gw. adran 3.13.3). Yn olaf, mae'r gair benthg *tarian* yn llawer mwy cyffredin yng ngherddi Beirdd y Tywysogion nag y mae yn yr Hengerdd,⁶⁷ er bod yr hen air *ysgwyd* yn parhau i gael ei ddefnyddio hyd ddiwedd y cyfnod dan sylw yma – yn wir, nid tan y bedwaredd ganrif ar ddeg y byddai *tarian* yn mynd yn fwy cyffredin nag *ysgwyd* yng ngherddi'r beirdd.⁶⁸

⁶² CBT VII 34.15-17 *Gwân drwy ei safn a'i sefnig / Dyrnawd, uthr bigawd, â'th big. // Â'th big fawr yn awr yn y rhyfel—taer.*

⁶³ Gw. adran 3.2.4.3 (n. 264 a'r testun cyfagos).

⁶⁴ Yr unig enghraifft arall gan fardda ganai yn y ddeuddegfed ganrif yw cyfeiriad Cynddelw at *gwaedlaif* (IV 13.26), a hwnnw mewn cerdd i Lywelyn ab Iorwerth, felly diogel yw cymryd bod cyfeiriad Gwalchmai yn gynharach. Nid yw'r *glaif* yn CO llau. 63-4 yn berthnasol i'r pwynt hwn am y credir ei fod yn glòs ar y gair *enillec* 'bwyell', na ellir ei ddyddio'n fanwl (CO llau. 63-4n a T. Jones, 'Gleif penntirec'). Digwydd *glaif* hefyd yn 'Gwyrtheyu y Wynvydedic Veir', sef testun y mae'r copi cynharaf ohono wedi ei ddyddio i ganol y drydedd ganrif ar ddeg (gol. Gwenan Jones, *B* ix (1937-9), 144-8) ac yn *Historia Gruffud vab Kenan* (HGK 11.8 a 15.12), a ddyddiwyd i ran gyntaf y drydedd ganrif ar ddeg (gw. HGK tt. ccciv-cccv am y dyddiad hwn ac am nifer uchel y geiriau benthg o'r Ffrangeg yn yr *Historia*, sef deunaw, o'u cymharu â deg enghraifft a nodwyd ar gyfer Beirdd y Tywysogion hyd ddiwedd y ddeuddegfed ganrif). Gw. hefyd adran 3.2.4.3 uchod.

⁶⁵ Am y gair *greiffwrys* gw. adran 3.2.1.1, ac am *greiffiad* (*grefiat*) cofnod y 'Surexit' gw. Dafydd Jenkins and Morfydd E. Owen, 'The Welsh Marginalia in the Lichfield Gospels', sy'n dyddio'r cofnod (Chad 2) i'r cyfnod rhwng 820 a 850. Nodir hefyd, *ibid.*, fod y ffurfiau Lladin (*graphium*) a Chymraeg (*gref*, *greiff*) fel ei gilydd yn arbennig o gyffredin yng Nghymru rhwng yr wythfed ganrif a'r unfed ganrif ar ddeg, gan ddwyn yr ystyr 'charter, title-deed to land'.

⁶⁶ Nid yw hyn yn annisgwyl, fel y trafodwyd yn adran 1.5.

⁶⁷ Unwaith eto, ymddengys mai Cynddelw, o blith Beirdd y Tywysogion, a ddefnyddiodd y gair hwn gyntaf. Mae chwe enghraifft yn ei gerddi ef, neu saith os ef a ganodd 'Hirlas Owain' (gw. Atodiad Ib, d.g., ac am awduraeth 'Hirlas Owain' gw. adran 1.4.1). Mae'r unig enghraifft arall o tua'r un cyfnod ym marwnad Daniel ap Llogwrn Mew i Owain Gwynedd (m. 1170) (CBT II 18.5), ond mae'n debyg fod hon yn ddiweddarach na'r enghreifftiau yn 'Hirlas Owain' ac yn 'Canu Owain Cyfeiliog' Cynddelw (II 14.44 a III 16.132, a gw. rhagymadroddion y cerddi hyn yn CBT). Gan Gynddelw, hefyd, y ceir yr unig enghreifftiau o'r geiriau *tarianawg* a *tarianogion* yn y corpws hwn (III 20.17 a IV 10.19).

⁶⁸ Rhestrir ym mynegair beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg 28 enghraifft o'r gair *tarian* a 18 enghraifft o *ysgwyd*, o gyfrif y ffurfiau cysefin yn unig, neu 33 enghraifft o *tarian* a 23 o *ysgwyd* os cyfrifir cyfansoddeiriau.

Yn ogystal â *tarian*, nodwyd nifer o eiriau eraill sy'n fwy cyffredin gan Feirdd y Tywysogion nag y maent yn yr Hengerdd. Mae *arf*, *cledd*, *ongyr*, *pâr*, *rhaidd*, *rhodawg*, *rhôn* ac *ysgwr* o leiaf ddwywaith yn fwy cyffredin gan Feirdd y Tywysogion, a gellid hefyd nodi'r geiriau *aes* a *llafn*, sy'n dod yn agos iawn at y maen prawf hwn, a *calch*, *dur* a *haearn* hwythau'n bur agos. At hynny, mae'n debygol iawn fod *haearn* gyda'r ystyr 'gwaywffon dafl' yn fwyaf cyffredin gan Feirdd y Tywysogion, am fod tair o'r pedair enghraifft bosibl yn yr Hengerdd yn ansicr. Y tebyg yw fod y gwahaniaethau yn nosbarthiad y geiriau hyn rhwng y ddau gorpws o gerddi yn ymwneud yn bennaf ag arddull, confensiwn neu gyfleustra o ran y gynghanedd. Nodir yn Atodiad II fod mwy na hanner yr enghreifftiau o *ongyr* gan Feirdd y Tywysogion wedi'u cyfleoli â ffurfiau ar *angerdd*, a bod *hëyrn* yn cael ei gyfleoli'n aml â *hëu*, ac yn achos *rhaidd*, diau fod y cyseinedd â *rhudd* wedi ychwanegu at ei apêl.⁶⁹ Yn yr un modd, gallai *aes*, *arf*, *calch*, *cledd*, *dur*, *llafn* a *pâr* fod wedi'u ffafrio gan Feirdd y Tywysogion oherwydd cyfleustra y geiriau bychain hyn ar gyfer cynghanedd neu ar gyfer creu cyfansoddeiriau.⁷⁰

Mae nifer o eiriau yn ymddangos fel pe baent yn mynd yn fwy cyffredin, neu'n llai cyffredin, yn ystod cyfnod canu Beirdd y Tywysogion. O ran y geiriau sy'n fwy cyffredin yn y cerddi cynharaf nag yn y rhai mwy diweddar, gellid tynnu sylw at *asen* 'gwaywffon' (*ais* neu *asau*), *cylchwy*, *mehyr/myhyr*, *onnen*, *pren* (yn y ffurfiau *amhren*, *prengyl* a *preniel*), *rhaidd*, *rhod*, *rhodawg*, *seirch* a *tâl*. Mae *asau* ac *ais* mewn cerddi o waith Meilyr Brydydd a Gwalchmai (mab i Feilyr) yn unig (CBT I 3.111 a 7.103), heblaw dwy enghraifft ansicr yng ngherddi Cynddelw (*eisgur* ac *eistor*).⁷¹ Awgrymwyd yn adran 4.2.1 y gallai *ais* fod wedi colli ei fri ymhlith y beirdd fel gair am waywffon oherwydd ei amwyster, ac fe allai'r ystyriaeth hon fod wedi cael effaith hefyd yn achos y defnydd o *cylchwy* a *rhod* ar gyfer tarianau crwn.⁷² Mae'n drawiadol, er hynny, fod y gair *rhodawg* hefyd yn llai cyffredin ar ôl amser Cynddelw, a bod yr enghraifft ddiweddaraf (o fewn y corpws hwn)

⁶⁹ Ceir tair enghraifft o *rheiddrudd* neu *rhuddraidd* gan Feirdd y Tywysogion, ac mae eu hunig enghraifft o'r ffurf gysefin (*rheiddiau*) wedi'i chyfosod â *rhuddion* (gw. Atodiad Ib, d.g.).

⁷⁰ Mae *aes*, *calch*, *cledd* a *dur* yn fwyaf cyffredin fel elfennau mewn cyfansoddeiriau (gw. Atodiad Ib, d.gg.).

⁷¹ CBT IV 2.5 a 5.65. Gallai'r elfen gyntaf yma gyfeirio naill ai at waywffyn neu at asennau gelyn (gw. Atodiad Ib d.gg.).

⁷² Perthyn i'r ddeuddegfed ganrif y mae'r holl enghreifftiau o *cylchwy* yng ngherddi Beirdd y Tywysogion, ac mae'r enghraifft ddiweddaraf o *rhod* yn y corpws hwn y gellir ei chysylltu'n hyderus â tharian mewn cerdd a ddyddiwyd i'r cyfnod rhwng 1215 a 1220 (a'r flwyddyn 1220 ei hun yn fwyaf tebygol), sef V 26.123 (Prydydd y Moch, 'Mawl Rhys Grug o Ddeheubarth') *Dy gleddyf rhyglywsam ar rod* (am yr holl ddyddiadau hyn, gw. rhagymadroddion y cerddi yn CBT). Defnyddid *rhod* gan feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg gyda'r ystyr 'tarian gron' weithiau (gw. n. 244 isod), ond nid oes enghreifftiau ganddynt o *cylchwy* yn y cyd-destun hwn. Mae ystyron eraill *cylchwy* yn cynnwys '?cengl, gwregys, gwisg' a 'chylch, cwmpas', 'ardal' neu 'ymyl', a *rhod* yn medru dynodi 'olwyn', 'sffêr neu gylch' neu 'gwrs, cylchdaith' (GPC d.gg.).

mewn cerdd y gellir ei dyddio'n hyderus i 1236, sef marwnad a ganodd Einion Wan i Fadog ap Gruffudd.⁷³ Nid oes ymhlith cerddi Beirdd y Tywysogion unrhyw gyfeiriad ar ôl y dyddiad hwn y gellir dweud ei fod yn disgrifio tarian gron yn benodol, er bod beirdd diweddarach yn crybwyll yr offer hyn weithiau gan ddefnyddio'r geiriau benthyg *bwyled* a *targed/darged* yn ogystal â *rhod* a *rhodog* (trafodir hyn ymhellach isod, adran 4.6).

Trafodir yn adran 4.6, hefyd, arwyddocâd y prinder hwn o gyfeiriadau at darianau crwn gan feirdd y drydedd ganrif ar ddeg, gan awgrymu y gall adlewyrchu newidiadau gwirioneddol yn yr offer a ddefnyddid – hynny yw, bod y beirdd wedi teimlo bod tarian gron yn rhy henffasiwn i gael ei defnyddio wrth ganmol noddwyr cyfoes. Nid yw hynny mor debygol yn achos y geiriau eraill a nodwyd uchod, fodd bynnag, am nad yw *asen* na *mehyr/myhyr* yn cyfeirio at unrhyw fath penodol o waywffon, hyd y gwyddys;⁷⁴ ac ni ellir dweud bod diflaniad *onnen* ar ôl cyfnod Prydydd y Moch yn adlewyrchu diflaniad gwaywffyn onn fel arfau, am fod y gair *ongyr* yn cael ei ddefnyddio drwy gyfnod Beirdd y Tywysogion, ac yn wir fe geir *onnen*, *ongyr*, *llinon* ac *onwydd*, a hefyd *onwayw*, gan feirdd diweddarach.⁷⁵ Yn achos yr elfen *pren*, mae'r gair *preial* yn cynrychioli'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau gan Feirdd y Tywysogion, a hwnnw'n ymddangos fel hen air a oedd yn graddol ddiffannu, ond unwaith eto, ni ellir ei gysylltu'n benodol â math arbennig o arf.⁷⁶

⁷³ CBT VI 4.25, ond gw. hefyd GC 2.57 (Casnodyn) *Rhodog Fadog, fodur lleng*. Yn ôl GPC d.g. *rhodog* nid oes enghreifftiau diweddarach o'r gair, y tu allan i eiriaduron.

⁷⁴ Roedd *ais* yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaywffyn tafl ac ar gyfer gwaywffyn llonydd marchogion (gw. adrannau 3.2.4.2 a 3.2.4.3). Nid oes ond tair enghraifft o *mehyr* neu *myhyr* gan Feirdd y Tywysogion, a'r rheini mewn cerddi o waith Gwalchmai a Chynddelw (CBT I 9.80, III 17.22 a IV 4.236). Ni ddefnyddid y gair hwn gan feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg, hyd y gwyddys, ac nid oes enghreifftiau diweddarach mewn testunau eraill, yn ôl GPC. Nid oes enghreifftiau o *ais* 'gwaywffyn' gan feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg, ychwaith, er eu bod yn defnyddio'r gair gydag ystyron eraill (gw. n. 36 uchod).

⁷⁵ Mae'r saith enghraifft o *onnen* gan Feirdd y Tywysogion i gyd mewn cerddi o waith Cynddelw neu Brydydd y Moch (gw. Atodiad Ib, d.g.). Gw. n. 32 uchod am gyfeiriadau beirdd diweddarach at *onnen* ac *ongyr*, ac am enghreifftiau ganddynt o *llinon*, *onwydd* ac *onwayw* gw., e.e., GEO 1.53 *Llinon belydr briw, llasar ysgwydliw*; GMBen 4.12 *Perllan cerdd pâr llinon coch*; GDC 17.9 *Ni bu digonrhydd, greddf onwydd grym*, a Lake (gol.), *Gwaith Sion Ceri*, 5.37 *Llwyth Gruffudd, llin onwydd Llŷr*; 23.9 *Syr Gruffudd, ddart onwydd tân*, a 32.18 *Gwenwynwyn dug onwayw'n dân*.

⁷⁶ Ceir *amhren* (CBT III 24.98), *prengyl* (IV 9.60) a *preial* (III 21.68 a IV 6.153) mewn cerddi o waith Cynddelw, ac mae enghreifftiau o *preial* hefyd gan Feilyr Brydydd (I 3.133), Llywarch Llaety (II 16.12) a Seisyll Bryffwrch (II 24.38). Mae'n debyg fod yr enghraifft ddiweddaraf naill ai ym marwnad Cynddelw (CBT III cerdd 29) i Gadwallon ap Madog ab Idnerth o Faelienydd (m. 1179), neu yng ngherdd Seisyll Bryffwrch i'r Arglwydd Rhys, y credir iddi gael ei chanu ar ôl 1171 (CBT II t. 395). Defnyddiwyd *preial* gan Ddafydd ap Gwilym wrth ddisgrifio *pren hobi hors* (DG.net 25.29-34), ac fe'i ceir gyda'r ystyr 'arch' mewn cerdd ddychan ddiennw o Lyfr Coch Hergest (GPB 8.19), ond nid oes enghreifftiau diweddarach, heblaw mewn geiriaduron, yn ôl GPC d.g.

Mae'r enghreifftiau o *tâl* 'blaen tarian, ?tarian' gan Feirdd y Tywysogion i gyd yn perthyn i'r ddeuddegfed ganrif,⁷⁷ ac fe nodwyd yn barod fod y defnydd o *talaith* am flaen tarian yn gyfyngedig i un cyfeiriad gan fardd o'r un cyfnod, sef Daniel ap Llogwm Mew.⁷⁸ Mae *rhaidd* yn air arall a ffebrid yn arbennig gan feirdd y ddeuddegfed ganrif neu ddechrau'r ganrif ddilynol, er bod un enghraifft ym marwnad Dafydd Benfras i Lywelyn ab Iorwerth, Gruffudd ap Llywelyn a Dafydd ap Llywelyn, y credir iddi gael ei chanu yn 1248 (CBT VI 31.54), a nifer o enghreifftiau gan feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg.⁷⁹ Mae'n ymddangos mai Gwalchmai a'i defnyddiodd gyntaf, ac yn wir mae pedair o'r saith enghraifft o'r gair (gan gynnwys cyfansoddeiriau) mewn cerddi o'i waith ef.⁸⁰ Englyn y Llyfr Du o'r Waun sy'n cynnwys yr unig enghraifft o blith yr Hengerdd, a'r englyn hwn wedi'i gyflwyno yng nghyd-destun stori ('Breintiau Arfon') sy'n ei briodoli i Daliesin.⁸¹ Wrth drafod swyddogaeth y stori hon fel darn o 'royal propaganda', nododd Morfydd E. Owen fod Rhun – a hwnnw'n un o gyndeidiau enwocaf tywysogion Gwynedd – yn cael lle pwysig nid yn unig yn y stori hon ond hefyd yng ngherddi beirdd Gwynedd yn ystod ail hanner y ddeuddegfed ganrif a dechrau'r ganrif ddilynol.⁸² Mae'r cyfeiriadau yn y stori at y cyfreithiwr pwysig Iorwerth ap Madog, yr oedd ei deulu'n dal tiroedd ym Môn ac yn Arfon, yn awgrymu bod y testun yn ei ffurf bresennol wedi'i greu ar ôl 1240,⁸³ er nad amhosibl fod y chwedl – a'r englyn, yn enwedig – yn cylchredeg mewn rhyw ffurf yn ystod y ganrif flaenorol.⁸⁴ Diddorol, felly, yw cymharu'r enghraifft hon o *rhaidd* â defnydd Gwalchmai o'r

⁷⁷ Yr enghraifft ddiweddaraf gan Feirdd y Tywysogion y mae'n bur debygol ei bod yn ymwneud â tharian yw CBT II 24.41 (Seisyll Bryffwrch, 'Canu i'r Arglwydd Rhys') *Teulu talfriw, aesawr fflamlw rhw rhuddfoawg* – credir bod hon wedi'i chanu ar ôl 1171 (CBT II t. 395). Nid ymddengys fod enghreifftiau diweddarach o *tâl* mewn perthynas â tharianau yn GPC d.g., er bod llinell o gerdd ddychan gan fardd dienw, GPB 7.19 I *Gronianwr, twyllwr, twll tâl—ei waedog*, yn dangos bod beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg yn gyfarwydd â'r defnydd o'r gair mewn cerddi cynharach megis CA (LXXXVII B) 1080-1 *twll tal y rodawc / cas ohir gwyhauc* ac EchYnys 12 *Twll tal y rodawc ffyrff ffo diawc. ffyrff diachor*.

⁷⁸ CBT II 18.15, a gw. n. 58 uchod am ddefnydd diweddarach *talaith* mewn perthynas â herodraeth.

⁷⁹ Ceir y ffurf gysefin yn GC 2.60 a 123, GEO 1.169, GLIG 4.23, GGMDiii 1.71 a GSRh 4.38 a 76, a gw. hefyd GGDT 6.72 (*rheiddffyrff*), GGDT 6.90 (*rheiddlyw*) a GSRh 12.153 (*rheiddrudd*).

⁸⁰ Digwydd *gwaedraidd* a *rhuddraidd* ym marwnad Gwalchmai i Fadog ap Maredudd (m. 1160), ac fe geir *gwaedraidd* hefyd yn ei Orhoffedd, y tybir iddi gael ei chanu tua'r un adeg neu ychydig yn gynharach (CBT I 7.66 a 121, a 9.43). Ni ellir dyddio 'Arwyrain Owain Gwynedd' mor fanwl, ond mae defnydd Gwalchmai o *rheiddrudd* yn y gerdd hon (I 8.48) yn sicr yn gynharach na defnydd Cynddelw o'r un gair ym 'Mawl Gwenwynwyn' (III 20.44), a ddyddiwyd i tua 1195. Defnyddiodd Prydydd y Moch y gair *digraidd* wrth gannol Llywelyn ab Iorwerth, tua 1205 (V 22.21), ac fe all fod yn berthnasol mai gan Ddafydd Benfras – y tybir ei fod yn fab iddo – y ceir yr enghraifft olaf o *rhaidd* yn y corpws hwn (a honno'r unig enghraifft o'r ffurf gysefin) (VI 31.54).

⁸¹ M.E. Owen, 'Royal Propaganda Stories from the Law-Texts', t. 244.

⁸² 'Royal Propaganda Stories from the Law-Texts', t. 239.

⁸³ M.E. Owen, 'Royal Propaganda Stories from the Law-Texts', tt. 225 a 240.

⁸⁴ Mae M.E. Owen, 'Royal Propaganda Stories from the Law-Texts', t. 245, yn nodi ei bod yn anodd dyddio'r testun hwn, ond bod y tebygrwydd rhwng y chwedl (a'r rhestr o hawliau sy'n ei dilyn) a cherdd Cynddelw, 'Breintiau Gwŷr Powys' (CBT III cerdd 11), yn awgrymu bod traddodiadau o gwyno yn erbyn llywodraethwyr yn mynd yn ôl i'r ddeuddegfed ganrif.

un gair yn ei gerddi, yn enwedig o ystyried cysylltiadau tybiedig ei deulu yntau â'r gyfraith, a'r ffaith eu bod hwythau hefyd yn dal tiroedd ym Môn ac Arfon.⁸⁵

Er bod *glaif* wedi'i ddefnyddio gan Walchmai mor gynnar â 1160, fel y nodwyd uchod, nid oes enghraifft arall gan y beirdd tan ddiwedd y ddeuddegfed ganrif, a Chynddelw wedi defnyddio'r cyfansoddair *gwaedlaif* wrth ganmol Llywelyn ab Iorwerth (IV 13.26).⁸⁶ Perthyn i'r drydedd ganrif ar ddeg y mae'r pum enghraifft arall o *glaif* neu *gleifrudd*, ac yn wir mae tri o'r cyfeiriadau hyn mewn dwy o gerddi diweddaraf oll Beirdd y Tywysogion, sef 'Mawl Llywelyn ap Gruffudd ap Madog' gan Lygad Gŵr (VII 28.17), y credir iddi gael ei chanu rhwng tua 1278 a 1282, a 'Marwnad Hywel ap Goronwy' gan Fleddyn Fardd (VII 47.15 a 21), a ganwyd rywbryd ar ôl 1278.⁸⁷ Ymddengys fod y gair hwn wedi cymryd peth amser i ymsefydlu yng ngeirfa'r beirdd, felly, ond ei fod wedi dechrau ennill ei le erbyn diwedd cyfnod Beirdd y Tywysogion. Byddai'r duedd hon yn parhau ymhlith eu holynwyr – cynhwysir dros ugain o enghreifftiau (heb gynnwys cyfansoddeiriau) yn y mynegair i gerddi beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Mae defnydd Gwalchmai o'r gair *glaif* – a *rhaidd*, o bosibl – yn gydnaws â'r syniad fod ganddo gysylltiadau â dosbarthiadau dysgedig eraill o wŷr yn llysoedd tywysogion Gwynedd. Hynny yw, fe all fod yn arwyddocaol fod *glaif* yn ymddangos hefyd mewn cyfieithiadau o destunau Lladin megis *Historia Gruffud vab Kenan, Brut Dingestow* a 'Gwyrthyeu y Wynvydedic Veir'.⁸⁸ Yn achos Cynddelw, ar y llaw arall, yr hyn sydd fwyaf trawiadol am ei eirfa mewn perthynas ag arfau yw nifer y geiriau newydd a ddefnyddiodd (rhai ohonynt heb ymddangos yn unman arall) a'r cysylltiadau posibl rhwng ei eirfa ef a geirfa 'Y Gododdin'. Rhaid cadw mewn cof, er hynny, nad oes unrhyw sicrwydd mai'r beirdd hyn a fu'r cyntaf o Feirdd y Tywysogion mewn gwirionedd i ddefnyddio'r geiriau a nodwyd, am nad oes rhyw lawer o gerddi wedi'u cadw sy'n gynharach na'u gwaith hwythau.

⁸⁵ Gw. n. 167 ym Mhennod 1, ac am diroedd Gwalchmai a'i feibion gw. Henry Ellis (ed.), *Registrum Vulgariter Nuncupatum the Record of Caernarvon*, Record Commission (London, 1838), tt. 31, 44-7 a 76, ac A.D. Carr, 'The Extent of Anglesey 1352', *Anglesey Antiquarian Society and Field Club: Transactions* (1971- 2), 150-272 (161-3, 165, 171 a 243).

⁸⁶ Ansicr yw dyddiad marwnad y Prydydd Bychan (*fl.* 1222-1268) i Fadog Môn (CBT VII cerdd 16), ond credir bod 'Mawl Gruffudd ap Llywelyn' Einion ap Madog ap Rhahawd wedi ei chanu rhwng 1234 a 1239 (CBT VI cerdd 23, a gw. rhagymadroddion y ddwy gerdd hyn).

⁸⁷ Am y dyddiadau gw. CBT VII tt. 282 a 521.

⁸⁸ Gw. n. 264 ym Mhennod 3.

4.3 Arfau ‘Y Gododdin’ a’r ‘Gwarchanau’

Er dadlau yn adran 4.2.1 fod llawer o’r gwahaniaethau rhwng cyfeiriadau at arfau yn yr Hengerdd a cherddi Beirdd y Tywysogion yn ymwneud â *genre*, mae ‘Y Gododdin’ yn haeddu sylw arbennig oherwydd nifer fawr y gwahaniaethau rhyngddi a’r cerddi eraill, ac oherwydd lluosogrwydd ei chyfeiriadau at arfau a brwydro. Perthnasol hefyd yw’r ffaith ei bod eisoes wedi’i defnyddio’n helaeth gan ysgolheigion fel tystiolaeth am ryfel yn yr Oesoedd Tywyll, ac eisoes wedi’i thrafod mewn perthynas â thystiolaeth archeolegol am wrthrychau megis torchau, llestri yfed a neuaddau, yn ogystal ag arfau (gw. adran 1.6).

Un o’r gwahaniaethau amlycaf rhwng ‘Y Gododdin’ (a Hengerdd eraill) a cherddi Beirdd y Tywysogion yw’r ymdriniaeth â chyllyll, a’r gair *cyllell* ei hun wedi ei gynnwys wrth restru arfogaeth *Heini(f)* (CA (XCVIII) 1204-8):

ny wisguis imil imil luit
heininim i guaiu ae yscuit
nae gledyf nae gyllell
no neim ab nuithon
gur a uei well.

Mae’r darn hwn yn anghyffredin nid yn unig fel cyfeiriad at gyllell, ond hefyd fel disgrifiad cynhwysfawr o arfogaeth un rhyfelwr, a hynny o bosibl yn gwneud presenoldeb y gyllell ei hun yn llai arwyddocaol. Hynny yw, fe allasai fod yn ddealedig fod cyllell yn cael ei chludo gan bob rhyfelwr, ond ni fyddai rheswm dros ei chrybwyll oni bai mai diben y cyfeiriad oedd dweud rhywbeth am arfogaeth gyflawn arwr. Ymddengys cyllell mewn cyd-destun tebyg yn ‘Culhwch ac Olwen’, ac fe all fod yn arwyddocaol fod Arthur, megis bardd ‘Y Gododdin’, yn rhoi’r gyllell (*[C]arnwenhan*) olaf wrth restru ei offer (er ei rhoi o flaen ei wraig *Gwenhvyuar!*).⁸⁹

Nododd Katharine Simms fod disgrifiadau o fyddinoedd yn ymgynnull ac yn ymarfogi yn gyffredin mewn barddoniaeth Wyddeleg ganoloesol – yn fwy cyffredin na disgrifiadau naratif o’r ymladd ei hun, yn wir – a bod delweddau tebyg i’w cael mewn llenyddiaethau eraill gan gynnwys gwaith Homer a Fyrstil.⁹⁰ Yn ‘Y Gododdin’, gellid cymharu’r rhestr o baratodau at frwydr yn estyn o ddydd Mawrth i ddydd Sul, a’r frwydr yn digwydd ddydd

⁸⁹ CO llau. 159-62. Y cyd-destun yw fod Arthur yn eithrio rhai gwrthrychau o’i gynnig i roi unrhyw rodd a fynno i Gulhwch. Daw ei long a’i *llen* ‘mantell’ yn gyntaf yn y rhestr o offer, wedyn ei gleddyf, ei waywffon, ei darian a’i gyllell. Mae Arthur yn lladd gwrach drwy fwrw ei gyllell ati tua diwedd y stori, er na ellir dweud bod hyn yn ddarlun o ryfel arferol (CO ll. 1226-7, a gw. paragraff olaf adran 3.6 am gyfeiriadau eraill at fwrw cyllyll mewn rhyddiaith).

⁹⁰ ‘Images of Warfare’, 614-16.

Llun (CA LXIX A a B), er na chyfeirir at unrhyw arf penodol yno ar wahân i *llavneuu* (*llaueneuu*). Yn achos cerddi Beirdd y Tywysogion mae cerdd Llywarch Llaety i Lywelyn ap Madog yn cynnig disgrifiad manwl arall o arfogaeth un dyn – gan ddefnyddio arddull ‘holi ac ateb’ i ganmol ei arfwisg, ei darian, ei gleddyf, ei waywffon, a’i arfau yn gyffredinol, yn ogystal â’i geffyl – ond ni chrybwyllir cylllell yma nac yn unman arall ymhlith cerddi mawl y beirdd hyn, oni chyfrifir rhai o’u cyfeiriadau at *llafnau* (gw. adran 3.6).

Anos yw dehongli CA (XLV B) 511-12 *un s saxa secisiar / argouduuit adar*. Am na cheir *saxa* yn y ddau fersiwn arall o’r awdl hon, ni ellir bod yn sicr ai ‘sacs’ yw’r ystyr,⁹¹ er ei bod yn ddiddorol cymharu’r cyfeiriad hwn â’r *camgledd* a grybwyllir – yng nghyd-destun y llys, yn hytrach nag wrth ddisgrifio rhyfel – yn ‘Gwarchan Tudfwlch’ (CA (GwT) 1263).⁹² At ei gilydd, hyd yn oed o gymryd i ystyriaeth ddylanwad *genre* yn achos y cyfeiriadau at gyllyll yn Canu Llywarch Hen ac yn Llyfr Taliesin, mae nifer y cyfeiriadau at gyllell neu gleddyfau cam yn yr Hengerdd yn drawiadol o’i chymharu â’r diffyg cyfeiriadau penodol at y cyfryw arfau gan Feirdd y Tywysogion. Serch hynny, y tebyg yw y dylid chwilio am y rheswm am hyn yn agwedd Beirdd y Tywysogion at gyllyll (yng nghyd-destun eu canu mawl),⁹³ yn hytrach na thybied bod y cerddi yn adlewyrchu gwahaniaethau yn nefnydd arfau mewn gwahanol gyfnodau.⁹⁴ Yn wir, er bod y *saxa* (os dilys y dehongliad hwn), yn arbennig, yn dwyn i gof offer a ddarganfuwyd mewn claddfeydd Eingl-Sacsonaidd, nid oes sicrwydd fod yr offer hyn wedi eu defnyddio yn aml fel arfau rhyfel gan yr Eingl-Sacsoniaid hwythau, hyd yn oed.⁹⁵

Yn yr un modd, nid oes tystiolaeth fod bwyell neu forthwylion yn fwy cyffredin fel arfau yn yr Oesoedd Tywyll nag yr oeddynt yng nghyfnod Beirdd y Tywysogion. Ni ellir cymryd

⁹¹ Gw. CA (XLV A) 500-1 *vn axa ae leissyar / ar gatwyt adar*, a (C) 523-4 *am sut seic sic sac / adleo gogyuurd gogymrat*, a chymh. H-cd *un aes [eisor]* . . . Nododd I. Williams, CA 500n, fod y gair Saesneg am gyllell yn un dehongliad posibl ar gyfer *saxa*, gan gyfeirio at *arwyd* y Saeson yn *Brut y Brenhinedd*, *Nymyth awr saxys* (J. Rhys and J.G. Evans (eds.) *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, t. 139). Gw. hefyd gyfieithiad J.T. Koch, GodA t. 5 ‘A [?] Saxon dirk / was made to do benefit to the birds’, ond cymh. darlleniad H-cd *un aes [eisor]* . . .

⁹² Nododd Alcock, *Arthur’s Britain*, t. 329, ac *Economy, Society and Warfare*, t. 295, fod ‘a passing reference in *Y Gododdin*’ yn awgrymu bod y Brythoniaid yn defnyddio cleddyfau unfiniog neu gyllyll milwrol tebyg i’r rhai a ddarganfuwyd mewn claddfeydd Sacsonaidd a chranogau yn Iwerddon, er nad yw’n eglur a oedd yn cyfeirio at y *camgledd* neu ynteu at y *saxa*.

⁹³ Gw. adran 4.4.

⁹⁴ Nid oes tystiolaeth fod Cymry’r Oesoedd Tywyll yn defnyddio cylllyll neu gleddyfau cam yn fwy aml fel arfau rhyfel nag y gwnâi Cymry’r Oesoedd Canol. Cymharol ddiweddar yw’r dystiolaeth am *honsex* fel gair benthyg, a hyd yn oed yn fwy diweddar yw’r darlun o Gymro a chanddo gyllell hir unfiniog yn y *Littere Wallie* a’r cyfeiriad at gleddyf unfiniog yn ‘Breudwyt Ronabwy’ (gw. adrannau 2.5 a 3.5).

⁹⁵ Gw. adran 2.5.

gorddwr ('morthwylwr') a *teddydd* ('?llafn bwyell') 'Gwarchan Maeldderw', na'r cyfeiriad posibl at ergydion bwyell yn CA (LXXXIII) 1012 *rac ruthyr bwylllyadeu a chledyvawr*, fel tystiolaeth am ddyddiad cynnar, felly. Mewn egwyddor, byddai modd cysylltu'r gair *gorddwr* naill ai â'r morthwylion rhyfel (anghyffredin) a welid yn yr Oesoedd Canol, neu o bosibl â'r bwyellforhwylion y mae tystiolaeth amdanynt ymhlith yr Eingl-Sacsoniaid Cynnar a'r Pictiaid, ond y tebyg yw fod y gair yn cyfeirio at ddull y gwrthrych o ymladd yn hytrach nag at ei arfau.⁹⁶

Gallai'r bwyell fod yn fwy arwyddocaol, am nad oes tystiolaeth gref am ddefnydd bwyell rhyfel ym Mhrydain cyn yr ymgyrchoedd Llychlynaidd, o ddiwedd yr wythfed ganrif ymlaen (gw. adran 2.8). Byddai dehongli *teddydd* yr arwr Maeldderw fel arwydd o ddylanwad Llychlynaidd neu Wyddelig-Sgandinafaidd yn gydnaws â'r dyddiad a awgrymodd Graham Isaac ar gyfer 'Gwarchan Maeldderw', sef tua'r ddegfed ganrif neu'r unfed ganrif ar ddeg.⁹⁷ Yn wir, gellid awgrymu bod y cyfeiriad hwn yn ychwanegu at y dystiolaeth am bwysigrwydd bwyell rhyfel adeg Gruffudd ap Cynan,⁹⁸ er bod rhaid nodi nad oes cyfeiriadau at yr arfau hyn ym marwnad Meilyr Brydydd i Ruffudd (gw. adran 4.4 isod).⁹⁹ Un tebygrwydd diddorol rhwng 'Gwarchan Maeldderw' a cherdd arall o waith

⁹⁶ Gw. adrannau 2.9 a 3.9. Byddai'r gymhariaeth hon wedi dod yn hawdd i bobl ganoloesol a oedd wedi arfer â gweld gofaint wrth eu gwaith, er na ellir cau allan y posibilrwydd o ddylanwad llenyddol, neu o oroesiad cysylltiadau semantig tebyg o adeg yr Ordovices, hyd yn oed. Awgrymodd Dark, *Britain and the End of the Roman Empire*, t. 178, fod ffurf ar yr enw *Ordovices* wedi parhau hyd y bumed ganrif ac efallai'n ddiweddarach, er bod yr enw newydd *Venedotia* (Gwynedd) wedi'i fathu erbyn diwedd y chweched ganrif (nododd fod yr enw *Ordous* yn ymddangos fel 'political affiliation' gŵr o'r enw Corbalengus ar garreg yn Mhenbryn, Ceredigion, gan dynnu sylw hefyd at yr enw *Cantref Orddwy*).

⁹⁷ Gw. n. 46 yn Isaac, 'Gwarchan Maeldderw'.

⁹⁸ Er bod arwyddocâd y cyfeiriad yn *Historia Gruffud vab Kenan* at y tywysog ei hun yn ymladd â bwyell yn Aberlleiniog yn aneglur, am mai'r Normaniaid sydd piau'r arfau hyn yn y fersiwn Lladin, mae'r ddau fersiwn yn cytuno bod ei filwyr Danaidd yn cludo'r arfau hyn ym mrwydr Mynydd Carn, ac mae buchedd Gwynllyw Sant yn crybwyll yr un arfau yn nwylo ei fôr-filwyr o Ynysoedd Orch (gw. adran 2.8).

⁹⁹ Trafodir arwyddocâd y gerdd hon mewn perthynas â'r *Historia* ac â cherddi Beirdd y Tywysogion ymhellach isod, adran 4.4.

Meilyr, fodd bynnag, yw'r arwyddocâd a roddir i Enlli fel gorffwysfa derfynol,¹⁰⁰ yn enwedig o ystyried bod cysylltiadau rhwng Gruffudd ap Cynan yntau ac Enlli.¹⁰¹

Mae *teddydd* 'Gwarchan Maeldderw' yn un o nifer o eiriau anghyffredin mewn cerdd gymharol fer,¹⁰² ond mae *bwylllyadeu* 'Y Gododdin' (CA (LXXXIII) 1012) yn hynod fel yr unig gyfeiriad (posibl) at fwyneill rhyfel a adnabuwyd mewn cerdd neu gerddi hir iawn, a honno'n llawn o gyfeiriadau eraill at arfau.¹⁰³ Fe ddichon fod yr arwr a ganmolir yn cael ei ddarlunio'n defnyddio arfau gwahanol i'r arfer am ei fod yn dod o diriogaeth arall, neu fod gan yr awdl ei hun darddiad gwahanol i rai awdlau eraill, neu wedi denu ati ychwanegiadau diweddarach. Mae'n ddiddorol fod yr un awdl, yn ôl dehongliad John Koch, yn cynnwys un o'r ddwy enghraifft o (*y*)*sgeth* 'Scottic shield',¹⁰⁴ er bod rhaid nodi bod y *bwylllyadeu*, ynghyd â'r [*c*]*ledyvawr*, yn cael eu darlunio fel rhan o ruthr gyffredinol yn hytrach na'u bod yn ymwneud ag un gŵr. Yn wir, nid yw'n amhosibl mai rhuthr gan elynion a ddisgrifir yma, hyd yn oed, er bod disgrifiad o gyd-filwyr neu osgordd y gŵr a ganmolir yn ymddangos yn fwy tebygol a barnu wrth y cyd-destun.¹⁰⁵

Ni chysylltir bwyneill rhyfel yn arbennig â rhyfelwyr Sgotig na Phictaidd yr Oesoedd Tywyll,¹⁰⁶ nac â'r Gwyddyl cyn dyfodiad y Llychlynwyr (gw. adran 2.8). Gwyddys bod bwyneill rhyfel wedi eu defnyddio gan y Rhufeiniaid, ar y llaw arall, ac felly hefyd, o bosibl,

¹⁰⁰ CA (GwM) 1452 *kychwenychwy enlli weles*. Awgryma I. Williams, ib.n, fod [*g*]*weles* yn fai am [*g*]*wales* 'resting place', gan gymharu'r llinell hon â CBT I 4.37-8 ('Marwysgafn Meilyr') *Creawdr a'm crewys a'm cynnwys i / Ymhlith plwyf gwirin gwerin Enlli*, a'r un dehongliad a geir yng nghyfieithiad Isaac, "'Gwarchan Maeldderw'", ll. 38: 'May he desire a resting place on Bardsey Island'. Ceir cyfeiriadau at Ynys Enlli hefyd yn CBT I 27.67-8 (Einion ap Gwalchmai, 'Awdl i Dduw') *Boed efe ein diben bod yn niblau / Heli yn Enlli hyd ein henllau*; II 1.138 (Llywelyn Fardd I, 'Canu Cadfan') *Yn cadw rhag cyhoedd anlloedd Enlli*, a VII 54.4 (Bleddyn Fardd, 'Marwnad Tri Mab Gruffudd ap Llywelyn') *Neud uchel gwendon gwyndir Enlli*, ac fe'i crybwyllir mewn cerdd o Lyfr Taliesin, LPBT 8.17 ('Golychaf-i Gulwyd') *Ac am tired Enlli dybi dylles* 'And misfortune will come around the lands of Bardsey'. Am bwysigrwydd Ynys Enlli fel safle mynachlog ac fel cyrchfan i bererion gw. CBT I 4.38n, LBPT 8.17n, HGK 32.1n a'r cyfeiriadau a nodir yno.

¹⁰¹ Crybwyllir Enlli yn HGK 32.1 a VGC §34/6 mewn rhestr o'r eglwysi y rhoddodd Gruffudd arian iddynt (gw. hefyd HGK 32.1n.), ac fe nodir yn 'Buchedd Dyfrig' fod Gruffudd yn bresennol pan symudwyd corff Dyfrig o Enlli i Landaf yn 1120, a'i fod wedi rhoi caniatâd i symud dannedd Elgar y meudwy (D.S. Evans, HGK t. cxxix, a gw. J.G. Evans and J. Rhys (eds.), *Book of Llan Dâv*, tt. 5 a 84-5).

¹⁰² Tynnodd Isaac, 'Gwarchan Maeldderw', 81, sylw at *krymdy*, *krymdwyn*, *miran* a *tafgwr* fel enghreifftiau o eiriau anghyffredin yn y gerdd hon.

¹⁰³ Mae Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, t. 155, yn nodi bod y cyfeiriad at *bwylllyadeu* 'greatly outnumbered by references to other weapons'.

¹⁰⁴ GodA t. 231, a gw. hefyd n. 891 ym Mhennod 3 uchod, sy'n nodi deongliadau eraill o (*y*)*sgeth*.

¹⁰⁵ CA (LXXXIII) 1012-13 *rac ruthyr bwylllyadeu a chledyvawr / lliveit handit gwelir llavar lleir*, a gw. cyfieithiadau Jackson, GOSP t. 149 'Before the charge of axe-blows and sharpened swords / There is a clamorous feast . . .' a J.T. Koch, GodA t. 121 'Because of the onslaught of axe-blows and whetted / swords, many have come to speak afterwards'.

¹⁰⁶ Gw. Aitchison, *The Picts and the Scots at War*, tt. 64-5, sy'n cysylltu'r diffyg tystiolaeth am fwyneill rhyfel â'r diffyg tystiolaeth am ddefnydd arfwisg gref.

gan yr Eingl-Sacsoniaid Cynnar, fel y nodwyd yn adran 2.8, ac mae prinder y dystiolaeth am arfau Brythoniaid a Chymry'r Oesoedd Tywyll yn golygu ei bod yn hollol bosibl eu bod hwythau wedi defnyddio'r arfau hyn, o leiaf weithiau. Erys ansicrwydd am arwyddocâd y *teddydd* a'r *bwylllyadeu* fel ei gilydd, felly, a hynny'n enwedig am na ellir bod yn hollol sicr sut i ddehongli'r geiriau hyn.¹⁰⁷

Mae pastynau hwythau yn arfau a allai fod wedi eu crybwyll fwy yn 'Y Gododdin' a 'Pais Dinogad' nag yng ngherddi Beirdd y Tywysogion,¹⁰⁸ ond unwaith eto, ni ellir dweud bod hyn yn arwyddocaol o ran dyddiad am na ellir dweud bod yr arfau hyn yn fwy cyffredin yn y naill gyfnod neu'r llall, o ran y darlun a geir o dystiolaeth archeolegol a hanesyddol (gw. adran 2.7). Mae'r cyfeiriad at *llory* yn 'Pais Dinogad' o ddiddordeb, er hynny – ynghyd â'r *llath* a'r *cigwain* yn yr un gerdd – fel disgrifiad o offer hela. Gellid cymharu'r *bwystuer* yn LPBT 5.209-10 *bum ser gan gynbyn. / bum bwystuer [r]yn*, a hefyd, o bosibl, y cyfeiriad yn 'Y Gododdin' at ddal 'mwng' blaidd (mewn cyd-destun diarhebol neu drosiadol).¹⁰⁹ Fel y sylwodd Nerys Ann Jones, ni fyddai Beirdd y Tywysogion yn arfer cyfeirio at hela anifeiliaid yn eu cerddi hwythau – prin y gellir cyfrif cyfeiriad trosiadol Einion ap Gwgon at drywanu pysgod¹¹⁰ – ond ni ellir dweud bod hyn yn adlewyrchu diffyg diddordeb mewn hela yn eu hoes hwy, am y gwyddys fod hela yn bwysig ym mywyd llysoedd Cymreig ac fel 'difyrrwch' i'r tywysogion.¹¹¹

Nodwyd yn adran 4.2.1 mai geiriau am waywffyn sy'n cynrychioli'r gyfran fwyaf o'r termau am arfau a geir yn yr Hengerdd ond nid gan Feirdd y Tywysogion. Ac eto, ni ellir dweud bod hynny'n adlewyrchu unrhyw wahaniaethau gwirioneddol yn ffurf yr offer hyn, am na ellir cysylltu'r geiriau hyn â mathau penodol o waywffon fel arfer. Mae'r *[p]edryollt bennawr* yn CA (XI) 95 yn eithriad pwysig – os pen gwaywffon a ddisgrifir yn hytrach na

¹⁰⁷ Gw. n. 857 ym Mhennod 3 am ddehongliad *bwylllyadeu*, ac Isaac, 'Gwarchan Maeldderw', 89, am ddehongli *teddydd* fel ffurf ar *teddyf*.

¹⁰⁸ Mae'r ffurf *cymawn* (CA (LVII) 666) yn ansicr fel gair am bastwn, ac mae CA (XVIII) 179 *tri llwry nouant* wedi'i ddehongli fel cyfeiriad at waywffyn neu at bastynau, ond mae ysgolheigion yn cytuno mai pastynau sydd yn CA(LXXXVIII) 1105-6 ('Pais Dinogad') *pan elei dy dat ty e helya; / llath ar y ysgwyd llory eny law*. Ansicr yw dehongliad cyfeiriadau Beirdd y Tywysogion at *llwry*, *llwrw*, neu'r ffurf luosog *llyry* mewn perthynas ag arfau (gw. adran 3.7).

¹⁰⁹ CA (XLIV A) 482-3 *a dalwy mwng bleid heb prenn. ene law; / gnawt gwychnawt eny lenn*, a (B) 493-4 *a chynyho mwng bleid heb prenn eny lav / gnawt gwychlout ene lenn*.

¹¹⁰ CBT 18.117-18 *Ei ddylif cynnif cynhebycer / I ddylan am lan, am leisiad fêr*.

¹¹¹ Gw. D. Jenkins, 'Hawk and Hound'. Crybwyllid hela yn aml gan y beirdd diweddarach, gan adlewyrchu'r pwyslais mwy cryf yn eu cerddi hwythau ar hamdden a moeth, fel y dangosodd Alaw Mai Jones, 'Disgrifio dros ben llestri: delweddaeth bwyd a diod ym marddoniaeth yr Oesoedd Canol', darlith a draddodwyd yng Nghynhadledd Ryngwladol Edward Lhuyd, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 30 Mehefin - 3 Gorffennaf 2009.

phen saeth neu follten bwa croes – ac fe all fod cyfeiriad arall at waywffyn pedeirochrog yn CA (GwT) 1299 *a llavyn eg wallt eis obedror*.¹¹² Gellir cysylltu'r ffurfiau hyn â phennau gwaywffyn cethrog o'r cyfnod Eingl-Sacsonaidd Cynnar, neu â rhai o'r Alban o tua'r un cyfnod, er defnyddio pennau gwaywffyn sgwâr eu croestoriad yn yr Oesoedd Canol hefyd, megis y rhai o Ddryslwyn ac o gestyll eraill yng Nghymru a Lloegr a ddyddiwyd i'r drydedd ganrif ar ddeg (gw. adran 2.2.1). Ni ddefnyddid y ffurfiau hyn yn ddi-dor, er hynny – yn hytrach, mae'n debyg iddynt ddiflannu tua diwedd y seithfed ganrif ac ailymddangos yn yr unfed ganrif ar ddeg.¹¹³ Os felly, byddai 'gwaywffyn sgwâr' Llyfr Aneirin yn gydnaws â'r chweched ganrif neu â dechrau'r seithfed ganrif, ond byddent wedi bod yn anacronistig mewn unrhyw gyfnod wedyn hyd at yr unfed ganrif ar ddeg neu'r ddeuddegfed ganrif.

Posibilrwydd arall, fel y trafodir yn adran 3.11, yw fod [*p*]edryollt *bennawr* yn dynodi bolltau bwa croes. Mae darganfyddiadau archeolegol megis y nyten o grannog Buiston, wrth ochr y darluniadau ar gerrig Pictaidd, yn awgrymu bod bwâu croes wedi parhau'n adnabyddus ym Mhrydain hyd y nawfed ganrif, o leiaf, ar ôl cael eu cyflwyno gan y Rhufeiniaid (gw. adran 2.11). Fe gawsant eu hailgyflwyno wedyn gan y Normaniaid, ond ymddengys na chawsant eu mabwysiadu i raddau sylweddol gan y tywysogion Cymreig, ac nid oes cyfeiriadau pendant atynt gan Feirdd y Tywysogion. Byddai cyfeiriad at fwa croes fel arf rhyfel yn 'Y Gododdin' yn gydnaws felly â chyd-destun Oesoedd Tywyll neu ôl-Rufeinig i'r gerdd – yn wir, tynnodd Leslie Alcock sylw at fwa croes fel arf pwysig o gyd-destun archeolegol yr 'Hen Ogledd' nas crybwyllir yn 'Y Gododdin'.¹¹⁴ Yn anffodus, fodd bynnag, nid oes digon o gyd-destun yn y gerdd i gysylltu'r [*p*]edryollt *bennawr* yn bendant â bolltau bwa croes (nac ag unrhyw fath arall o arf).¹¹⁵ Erys y cyfeiriad(au) at ryw fath o 'bennau' pedeirochrog yn arwyddocaol, er hynny, am nad oes cyfeiriadau tebyg gan Feirdd y Tywysogion. Gellid dweud, felly, naill ai bod y cyfryw arfau heb eu defnyddio yn eu cyfnod hwy, neu eu bod yn cael eu hystyried fel arfau anaddas i gerddi mawl erbyn y cyfnod hwnnw. Neu, o safbwynt arall, gellid awgrymu bod y cyfeiriadau hyn – yn wahanol i gyfeiriadau astrus eraill megis tarianau *eurgrwydr* – heb eu mabwysiadu gan y beirdd

¹¹² Gw. adran 3.2.1.2 am ddeongliadau posibl eraill o'r llinellau hyn, ac am gyfeiriad posibl arall at waywffon 'sgwâr' yn PBT (LITARA) 9.16 *Dullator petrygwern llugyrn ymdeith*.

¹¹³ Awgrymodd Swanton, *Spearheads*, t. 38, fod y ffurfiau hyn wedi peidio â chael eu defnyddio oherwydd diffyg arfwisg gref, a phrinder cymharol marchogfilwyr, yn y cyfnod hwn.

¹¹⁴ 'Gwŷr y Gogledd', 12.

¹¹⁵ Posibilrwydd arall eto yw'r math o ben saeth pedwarllabedog a ddefnyddid gan y Rhufeiniaid hyd y drydedd ganrif O.C. (gw. adran 3.10)

diweddarach, naill ai am nad oeddynt yn eu hoffi am ryw reswm neu am nad oeddynt yn eu deall yn iawn.

Mae'r [c]atbwll yn 'Gwarchan Tudfwlch' yn gyfeiriad posibl arall at fwa croes neu at beiriant rhyfel, os cywir ei ddehongli fel benthyciad o'r Lladin *catapulta* (gw. adran 3.11). Mwy amheus yw cysylltu *billt* 'Kychwedyl a'm dodyw' (cerdd o Lyfr Taliesin) â'r offer hyn. Ac yn wir, hyd yn oed os yw'r dehongliad hwn yn ddilys, gall fod yn arwyddocaol fod *boltt* a *byllt* wedi eu defnyddio gan feirdd diweddarach megis Dafydd ap Gwilym wrth ddisgrifio offer saethu. Hynny yw, gallai'r cyfeiriad yn 'Kychwedyl a'm dodyw' gynrychioli dechrau newydd, o ran ymdriniaeth y beirdd â bwâu croes, yn hytrach na dwyn cysylltiad uniongyrchol â [p]edryollt *bennawr* neu *catbwll* Llyfr Aneirin.

Nid oes amheuaeth, fodd bynnag, nad gwaywffyn yw'r arfau tafl amlycaf yn 'Y Gododdin'. Er bod taflu gwaywffyn yn cael cryn sylw gan Feirdd y Tywysogion hwythau, mae'r cyfeiriadau at y dull hwn yn 'Y Gododdin' yn llawer mwy amrywiol. Disgrifir *ais*, *gwaywawr*, *gwaywawr celyn*, *llafnau*, ac *onn* yn cael eu gwasgaru (sef eu *hëu*, fel arfer, er bod fersiwn B un awdl yn defnyddio'r ferf *ysgeinio*),¹¹⁶ ac mae'n debygol mai taflu gwaywffyn a ddisgrifir yn 'Gwarchan Cynfelyn', CA (GwC) 1398-9 *Pan vrywyt arveu / tros benn cat vleidyeu*. Mae'n bwysig nodi hefyd mai 'Y Gododdin' sy'n cynnwys y cyfeiriadau mwyaf eglur at daflu gwaywffyn oddi ar gefn ceffylau.¹¹⁷ O safbwynt dyddio, yr anhawster yw fod y marchogion Normanaidd ym mrwydr Hastings yn taflu gwaywffyn, a'i bod yn bosibl fod Cymry'r ddeuddegfed ganrif wedi ymladd fel hyn (gw. adran 2.2.3.3); ac eto, mae'r ddelwedd o un marchogfilwr yn 'hau' gwaywffyn niferus yn cynrychioli dull brwydro penodol nad oes cymaint o dystiolaeth amdano yn yr Oesoedd Canol.¹¹⁸ Nid yw'n eglur, fodd bynnag, a yw'r ddelwedd hon yn 'Y Gododdin' yn awgrymu dyddiad cynnar

¹¹⁶ CA (XXIII A) 262-3 *heessit eis / yg kynnor [tr]eis yg cat uereu*; (XXVI A) 302 *heessit waywawr y glyw, 306-7 heessyt onn o bedryollt / y law; y ar veinnell vygedorth*, a (B) 316 *ur rwy ysgeinnyei y onn o bedryoll / llav y ar vein erch mygedorth*; (XXXIX A) 425 *heyessyt y lavnawr rwg dwy vydin*, a (XCIII) 1151 *gwryavr hein gwaewaur kelin creudei*. Ni cheir y gair *hëyrn* 'gwaywffon dafl (haearn)' yn 'Y Gododdin' er bod *hëyrn / hëu* yn un o hoff gyfleoliadau Beirdd y Tywysogion (gw. adran 3.2.4.2, a'r drafodaeth isod, adran 4.4).

¹¹⁷ Gw. Rowland, 'Warfare', 19-20: 'The fullest descriptions of the use of a weapon in fighting on horseback are the references to throwing spears in the *Gododdin* . . .'

¹¹⁸ Un eithriad posibl yw'r darlun yn Sallwyr Utrecht o farchog yn cario dwy waywffon 'sbâr' y tu ôl i'w darian, a'r llawysgrif honno wedi ei llunio yn Wessex, mae'n debyg, yn gynnar yn yr unfed ganrif ar ddeg (Nicolle, *Arms and Armour*, rhif 871), er y gallai rhai elfennau o ddarluniau'r testun hwn ddangos dylanwad lluniau mewn cysail hŷn (gw. Nicolle, *Arms and Armour*, t. 345, a n. 16 ym Mhennod 2 uchod).

neu'n hytrach gonfensiwn barddol a welir hefyd yng ngherddi Beirdd y Tywysogion.¹¹⁹ (Rhaid cydnabod na fynegwyd y ddelwedd hon mor eglur yn eu cerddi hwythau, ac eto, mae eu disgrifiadau o frwydro ac o arfau fel y cyfryw yn tueddu i fod yn fwy cryno ac ystrydebol nag a welir yn 'Y Gododdin').

Ni ellir cysylltu'r holl gyfeiriadau at waywffyn yn 'Y Gododdin' â brwydro oddi ar gefn ceffyl, er hynny. Mae'r gair *gwialfan* – nad oes unrhyw enghreifftiau ohono heblaw'r ddwy yn 'Y Gododdin' ac un yn 'Gwarchan Tudfwlch' – yn awgrymu bod gwaywffyn wedi eu lleoli mewn man penodol, ac mae'r darlun o ŵr yn amddiffyn 'man y gwaywffyn', megis yn CA (XXIX) 338 *mal gwr catwei wyaluan*, yn ymddangos yn fwy cydnaws â throedfilwr nag â marchogfilwr.¹²⁰ Mae Kenneth Jackson wedi trafod cyfeiriadau niferus eraill sy'n awgrymu bod troedfilwyr yn rhan o'r brwydro a ddarlunnir yn 'Y Gododdin', megis y cyfeiriadau at drefniannau amddiffynnol o darianau neu waywffyn, a hefyd y defnydd o'r gair *pedyt* yn 'Gwarchan Tudfwlch'.¹²¹ Byddai tybied bod troedfilwyr yn ymladd wrth ochr y marchogfilwyr yn gydnaws hefyd â'r syniad fod bwâu croes neu beiriannau rhyfel yn rhan o arfogaeth y fyddin, ond yn ogystal â'r darlun o garfanau o droedfilwyr yn ymladd wrth ochr marchogfilwyr, mae'n bosibl fod prif arwyr 'Y Gododdin' hwythau'n cael eu darlunio'n ymladd ar eu sefyll weithiau.¹²² Nid yw'r agweddau hyn yn arwyddocaol o ran

¹¹⁹ Gw. Alcock, *Kings and Warriors*, tt. 174-5, am y ddadl y byddai 'hau' gwaywffyn yn anymarferol ar gyfer rhyfelwyr yr Hen Ogledd mewn amgylchiadau brwydro go-iawn, a bod y cyfryw gyfeiriadau yn ymddangos fel confensiwn barddol.

¹²⁰ Cymh. y defnydd o *cadw* yn CA (XCIII) 1154 *dyuit en cadw ryt kein as myccei* ac yn yr ymadrodd *cadw rhiw* a geir ddwywaith ym 'Marwnad Gosgordd Owain Gwynedd' (CBT IV 5.105 a 113). (Am y tebygrwydd rhwng 'Y Gododdin' a'r gerdd hon gan Gynddelw, a all fod 'yn efelychiad bwriadol ohoni', gw. CBT IV t. 87 a'r cyfeiriadau a nodir yno). Cymh. hefyd awgrym I. Williams, yn ei nodyn ar CA (XXVI A) 305 *dywal y gledyual emborth*, y gall mai *gorth* 'lle, gorsaf mewn brwydr' yw ail elfen y gair olaf, er bod cyfeiriadau eraill yn yr un awdl yn disgrifio'r arwr yn taflu gwaywffyn oddi ar gefn ei geffyl (gw. n. 742 ym Mhennod 3 am ddeongliadau eraill).

¹²¹ GOSP tt. 30-1, a gw. CA (GwT) 1294-6 *Ef gwrthodes / ar llwrw peues: ar lles pedyt / petwar lliwet*, a chyfieithiad Jackson, GOSP t. 154 'To the profit of the infantry, he drove back four hosts for the sake of the country'. Nododd Alcock, *Kings and Warriors*, tt. 150-1, fod cyfeiriad arall at *pedyt* yn PT V.19 *dygwynyc ychyngar wrth y pedyt*, wrth ddisgrifio gweiddi llawen troedfilwyr Urien Rheged.

¹²² Arwr sy'n cael ei enwi, sef *Keredic*, yw gwrthrych CA (XXIX) 338 *mal gwr catwei wyaluan*, a byddai tybied bod milwr neu farchogfilwr yn ymladd ar ei ddeudroed yn ddehongliad addas hefyd ar gyfer y darn mewn awdl arall sy'n cyffelybu arwr i garreg fawr nad oes modd ei symud (CA (XXXIV) 386-7 *noc ac esgyc carrec vwr vawr y chyhadvan. / ny mwy gysgogit wit uab peithan*). Cymh. hefyd CA (LXIII C) 741-3 *angor deor dain / anysgocvaen / em blaen bedin* (Jackson, GOSP t. 104 'the anchor, the scatterer of the men of Deira, the immovable rock in the forefront of the army'); (LXIII E) 767 *stadal vleidiat bleid ciman* (Jackson, GOSP t. 111 'like a wolf at his post, the wolf of the army'); (LXXV B) 937 *ni cilius taro trin let un ero* (Jackson, GOSP t. 111 'the bull of battle did not retreat the width of a single acre'), a (LXXXII) 1003 *gwyr gorsaf gwryaf gwrdd y calet* (Jackson, GOSP t. 148 'men of most valiant station, strong in strife'). Nid yw'r ddelwedd o filwyr yn aros yn llonydd wrth frwydro yn gydnaws â thactegau marchogluoedd ysgafn, er ei bod yn bosibl fod beirdd wedi anwybyddu hynny oherwydd eu hawydd i bwysleisio dewrder di-ildio gwrthrychau eu cerddi (cymh. y cyfeiriadau at darianau toredig a drafordir yn adran 3.13.5). Gw. hefyd Rowland, 'Warfare', 21 'it is unlikely that being mounted precluded dismounting to fight on foot if the circumstances demanded,

dyddio ‘Y Gododdin’, fodd bynnag, o ystyried bod marchogion canoloesol yn disgyn oddi ar eu ceffylau i ymladd dan rai amgylchiadau, a bod trefniannau amddiffynnol yn gydnaws â byddinoedd ôl-Rufeinig, Pictaidd, Eingl-Sacsonaidd neu ganoloesol.¹²³

Mae ffurf tarianau yn bwynt arall sy’n bwysig yng nghyd-destun trefniannau amddiffynnol. Y math gorau o darian ar gyfer creu mur yw tarian hirsgwar, fel eiddo’r Rhufeiniaid, er bod modd creu trefniant tebyg gan ddefnyddio tarianau crwn mawr fel eiddo’r Eingl-Sacsoniaid, neu darianau barcud y Normaniaid (gw. adran 2.13.1). Byddai’n fwy anodd creu mur â tharianau crwn bychain megis y rhai a ddarlunnir ar gerrig Pictaidd ac ar Garreg Eglwysilan a Chroes Conbelin (gw. adran 2.13.2), fel y dadleuodd Leslie Alcock mewn perthynas â’r cyfeiriadau yn ‘Y Gododdin’.¹²⁴ Ond nid yw hynny’n golygu bod y cyfeiriadau hynny yn afrealistig, o reidrwydd. Awgrymodd I.P. Stephenson y gallai’r term Hen Saesneg *bordweall* fod wedi dynodi llinell o wŷr, a hwythau’n cludo tarianau – hynny yw, bod y mur yn drosiad o’r dynion, ac nid o’r tarianau – gan nodi bod Vegetius wedi dweud bod troedfilwyr wedi sefyll ‘so to speak like a wall of iron’.¹²⁵ Os cywir y ddamcaniaeth hon yn achos cerddi’r beirdd, ni ellir dwyn unrhyw gasgliadau o gwbl am ffurf tarianau ar sail cyfeiriadau at drefniadau amddiffynnol.

Ni ddylid cymryd yn ganiataol fod y tarianau a ddisgrifir yn ‘Y Gododdin’ yn grwn bob amser, serch hynny. Cymharol anghyffredin yw’r geiriau *rhodawg*, *rhodawr* a *cylchwy* yn ‘Y Gododdin’, ac yng ngherddi’r beirdd fel y cyfryw, ac mae’n bosibl iawn y gallai geiriau eraill am darianau megis *aes*, *aesawr* neu *ysgwyd* fod wedi dynodi tarianau o ffurf arall, neu

even for warriors who by choice fought primarily on horseback’, a chymh. y cyfeiriad yn J.T. Koch, ‘*De sancto Iudicaelo*’, tt. 257-8, at wayw-wyr a aeth i’r gad fel troedfilwyr yn dychwelyd fel marchogfilwyr ar ôl i Iudic Hael rannu’r ysbail.

¹²³ Gw. adran 2.2.3.3, ac adrannau 2.2.3.1 a 2.13.1. Cymh. hefyd n. 741 ym Mhennod 3, sy’n nodi dau gyfeiriad gan Gynddelw a all awgrymu bod y gwrthrych yn ymladd (â *llafn* a *lläin*) ar ei ddeudroed; a gw. adrannau 3.2.5 a 3.13.4 am gyfeiriadau’r beirdd at drefniannau amddiffynnol mewn perthynas â gwaywffyn a tharianau. Mae’n werth nodi mewn perthynas â lle cerbydau rhyfel yn ‘Y Gododdin’ (gw. isod yn yr adran hon) fod Iŵl Cesar wedi disgrifio’r Brythoniaid yn taflu gwaywffyn oddi ar eu cerbydau yn yr ymosodiad cyntaf ac wedyn yn disgyn i ymladd ar eu sefyll, a bod awgrym yn ei adroddiad eu bod yn fwy hyblyg yn y cyd-destun hwn nag yr oedd marchogfilwyr y Rhufeiniaid (*De Bello Gallico*, 4.33 a 5.16; cyfieithwyd gan Freeman yn CHA §20 (tt. 23 a 25)).

¹²⁴ Gw. Alcock, *Kings and Warriors*, t. 151: ‘it is impossible to create a shield-wall with round targes no more than 0.6m (2ft) in diameter’.

¹²⁵ I.P. Stephenson, *The Late Anglo-Saxon Army*, t. 32, yn cyfeirio at Vegetius, *Epitoma Rei Militaris*, II.17, ac yn nodi bod Charles Oman, *A History of the Art of War in the Middle Ages*, vol. I (London, 1924), t. 71, n. 1, wedi gwneud pwynt tebyg.

darianau o amryw ffurfiau.¹²⁶ Os ‘four-sided (?) shields’ yw *eis obedror* ‘Gwarchan Tudfwlch’ (CA (GwT) 1299), fel yr awgrymodd Kenneth Jackson,¹²⁷ ni fyddai hynny’n anaddas fel disgrifiad o darianau hirsgwar, a gellid awgrymu’r un dehongliad ar gyfer *pedrygwern* (PBT (LITARA) 9.16), oni bai mai gwaywffyn a ddisgrifir yn y ddau gyfeiriad (gw. y drafodaeth uchod, yn yr adran hon). Gallai’r tarianau hyn fod wedi efelychu offer Rhufeinig – yn wir, awgrymwyd y gallai’r tarianau sgwâr neu hirsgwar a ddangosir ar rai cerfluniau Pictaidd fod wedi’u haddasu o *scutum* hirsgwar Rhufeinig.¹²⁸ Ymddengys fod y tarianau Pictaidd hyn wedi peidio â chael eu defnyddio (neu eu darlunio, o leiaf) erbyn yr wythfed ganrif,¹²⁹ ond – unwaith eto – nid yw cyfeiriadau’r cerddi Cymraeg yn ddigon sicr eu dehongliad i ganiatáu casgliadau pendant ynghylch yr offer a ddisgrifir yno.¹³⁰

Nid oes cyfeiriadau eglur yn ‘Y Gododdin’ at y tarianau barcud a gyflwynwyd gan y Normaniaid, na’r tarianau ‘haearn smwddio’ diweddarach, er na ellir dweud bod hynny’n arwyddocaol o ran dyddiad am nad oes cyfeiriadau eglur at yr offer hyn gan Feirdd y Tywysogion ychwaith. At hynny, nid yw cyfeiriadau ‘Y Gododdin’ at darianau crwn yn tystio i ddyddiad cynnar o angenrheidrwydd am fod offer tebyg yn cael eu crybwyll yn bur aml gan Feirdd y Tywysogion hwythau hyd at ail draean y drydedd ganrif ar ddeg, ac yn wir roedd tarianau crwn yn parhau i gael eu defnyddio i ryw raddau drwy’r Oesoedd Canol, gan gael eu crybwyll yn aml yng ngherddi Beirdd yr Uchelwyr (gw. adrannau 2.13.3 a 4.6).

O ran addurn ar darianau, am y gellir dehongli *calch* yn bur gyffredinol fel disgrifiad o darian baentiedig, ni ellir dweud bod hyn yn nodwedd sy’n perthyn yn fwy i’r Oesoedd Tywyll nag i’r Oesoedd Canol (gw. adrannau 2.13.3 a 3.13.3). Mae *eurgrwydr* yn

¹²⁶ Gw. nodyn I. Williams ar CA (I) 5 *ysgwyt ysgauyn lledan*: ‘Nid oes dim i brofi beth oedd ffurf yr ysgwyd; hirsgwar oedd *scutum* y Rhufeiniaid, a chrwn fel rheol oedd eu *clipeus*’, ac am drafodaeth o’r geiriau *tarian* ac *ysgwyd*, mewn perthynas â ffurf y darian, gw. adran 3.13.1 uchod.

¹²⁷ GOSP t. 154.

¹²⁸ Lloyd Laing and Jennifer Laing, ‘Archaeological Notes on some Scottish Early Christian Sculptures’, *PSAS* 114 (1984), 277-87, yn cyfeirio at J.N.G. Ritchie, ‘Shields in North Britain in the Iron Age’, *Scottish Archaeological Forum*, 1 (1969), 31-40. Er ei bod yn ymddangos mai tarianau hirgrwn neu grwn oedd fwyaf cyffredin gan y Rhufeiniaid Diweddar, byddent yn parhau i ddefnyddio’r ffurfiau hirsgwar hefyd (Southern and Dixon, *The Late Roman Army*, tt. 99-103).

¹²⁹ Aitchison, *The Picts and the Scots at War*, t. 58.

¹³⁰ Yn ogystal â’r amwyster o ran dehongli *ais* a *-gwern*, gallai’r elfen *pedry-* olygu ‘cyflawn’ neu ‘berffaith’ yn hytrach na disgrifio rhywbeth pederochrog, yn benodol (gw. GPC d.g., ac adran 3.2.1.2 uchod). Cymh. hefyd CBT III 16.141-2 *Coch rhodawg pedrydawg pedror / I ar orwydd pedrongl pedreinddor*, a ddehonglir yn CBT fel ‘Coch yw tarian arwr perffaith y pedwar ban’. Nid yw’n debygol mai ‘sgwâr’ yw’r ystyr yma os yw *rhodawg* yn dynodi tarian (gron), ond gthg. J.T. Koch, GodA t. 157, sy’n awgrymu mai ‘olwynog’ oedd ystyr wreiddiol *rhodawg*, a bod y gair wedi ei ddefnyddio’n wreiddiol ar gyfer cerbyd rhyfel (ond gw. hefyd n. 133 isod).

ymddangos fel y dylai ddynodi math mwy penodol o addurn, gan darddu o bosibl o addurn rhwyllwaith Oes Haearn neu'r patrymau dotiog a ddefnyddid ar fetelwaith yn yr Oes Haearn a chan y Pictiaid yn ddiweddarach. Ac eto, fel y trafodwyd yn adran 3.13.3, gallai'r gair hefyd fod wedi tarddu o ymadrodd am ddifrod i darian, ac yn wir byddai'r dehongliad hwn yn gydnaws â chyd-destun yr enghraifft yn 'Y Gododdin', a'r llinell ganlynol yn disgrifio gwaywffyn toredig.¹³¹ Os cywir y ddamcaniaeth hon, rhaid tybied bod y gair wedi'i aildehongli'n ddiweddarach fel gair am addurn, oherwydd addurn yw'r ystyr yn bendant yn 'Culhwch ac Olwen', 'Breudwyd Maxen' a 'Peredur'. Fel y trafodir yn adran 3.13.3, mae'n bosibl iawn fod y gair wedi golygu gwahanol bethau i wahanol bobl mewn gwahanol gyfnodau – ac yn wir mae'r cyfeiriad yn stori 'Peredur' yn ymddangos fel disgrifiad o darian herodrol, hyd yn oed.

Rhywbeth arall sy'n berthnasol i darianau yw awgrym John Koch fod *rhodawr* a *rhodawg* wedi cyfeirio'n wreiddiol at gerbydau rhyfel, neu at olwynion yn llythrennol (gan olygu 'olwyn' ac 'olwynog').¹³² Mae defnydd y gair *cylchwy* yn 'Y Gododdin' yn dal i awgrymu bod tarianau crynion yn cael eu darlunio, fodd bynnag, ac erys yn bosibl fod *rhodawr* a *rhodawg* hefyd yn dynodi'r offer hyn yn 'Y Gododdin', hyd yn oed os oeddynt yn dynodi cerbyd rhyfel mewn cyfnod cynharach.¹³³ Yn wir, fe all fod yn arwyddocaol fod patrwm tebyg iawn i olwyn yn cael ei ddangos ar nifer o'r tarianau crwn a ddarlunnir yn y *Notitia Dignitatum*, gan gynnwys un ar gyfer y *Secunda Britannica*.¹³⁴ Er na ellir sicrhwydd fod y patrymau hyn yn adlewyrchu'n gywir y symbolau a ddefnyddid gan filwyr Rhufeinig Diweddar,¹³⁵ maent yn dangos, o leiaf, mor hawdd oedd cysylltu tarian gron ag olwyn, ac nid amhosibl fod patrymau tebyg wedi ysbrydoli'r enwau *rhodawg* a *rhodawr*, ac efallai *rhod* 'tarian gron', hyd yn oed (er nad oes enghreifftiau o'r gair hwn yn yr Hengerdd).

Nid *rhodawg* neu *rhodawr* yw'r unig dystiolaeth bosibl am gerbydau yn yr Hengerdd, fodd bynnag. Mae John Koch wedi tynnu sylw at y cyfeiriadau at *assed* mewn un o awdlau

¹³¹ CA (XXIX) 335-6 ysgwyd *eur crwydyr cadlan; / gwaewawr uswyd agkyuan*.

¹³² J.T. Koch, GodA tt. 157 a 178.

¹³³ Nododd J.T. Koch, GodA t. 157, y gallai *rhodawg* fod wedi'i aildehongli fel gair am darian gron erbyn adeg Beirdd y Tywysogion, ac y gallai ei ystyr wreiddiol fod wedi'i hanghofio mor gynnar â'r cyfnod is-Rufeinig.

¹³⁴ Gw. Grigg, 'Inconsistency and Lassitude', a gwefan Luke Ueda-Sarson, 'Late Roman Shield Patterns taken from the Notitia Dignitatum', www.ne.jp/asahi/luke/ueda-sarson/NotitiaPatterns.html (cyrchwyd 25 Mehefin 2009). Rwyf yn ddiolchgar i Dr Ken Dark am yr awgrym y dylid chwilio yn y *Notitia Dignitatum* am batrymau a allai gael eu hadlewyrchu yng ngherddi'r beirdd.

¹³⁵ Grigg, 'Inconsistency and Lassitude'.

‘Y Gododdin’ ac yn ‘Gwarchan Cynfelyn’,¹³⁶ gan darddu *assed* o’r Galeg Belgaidd *asseda* a geir gyda’r glòs Lladin *sella quadriiugia*.¹³⁷ Dadleuodd Koch fod y cyfeiriadau at gerbydau, megis cyfeiriadau’r beirdd at dorchau aur, yn adlewyrchu parhad ymadroddion disgrifiadol o’r Oes Haearn gyn-Rufeinig.¹³⁸ Gellid cymharu parhad y ddelwedd o ryfelwyr yn brwydro mewn cerbydau mewn chwedlau Gwyddeleg,¹³⁹ ac yn wir fe gyfeiriodd Gildas yntau at Cuneglasus, ac yntau’n gefnder i Faelgwn Gwynedd yn ôl yr achau Cymreig, fel *multorum sessor aurigaque currus receptaculi ursi* (‘rider of many and driver of the chariot of the Bear’s Stronghold’).¹⁴⁰ Yn achos cyfeiriad Gildas, fodd bynnag, mae’n debygol mai rhyw fath o gerbyd go-iawn a ddisgrifir,¹⁴¹ a hwnnw o bosibl yn gerbyd a ddefnyddid ar gyfer teithio o le i le, ar gyfer gorymdeithio neu ar gyfer teithio i frwydr, fel yr awgrymodd David Greene wrth drafod *carpat* y chwedlau Gwyddeleg,¹⁴² neu’n gerbyd rasio hyd yn

¹³⁶ Mae J.T. Koch, ‘*llawr en asseð*’, yn dehongli CA (LXXV A) 932 *goglyssur heyrn lliveit llawr en asseð* fel ‘feats of whetted iron implements of the laurel-bedecked champion in the war-chariot’, a (GwC) 1360-1 *a galar dwvyn dyvyd; / i wynnassed velyn* fel ‘<and> profound affliction befalls / the fair war-chariot of Belyn’, gan awgrymu bod yr ail gyfeiriad yn defnyddio’r cerbyd rhyfel fel trosiad am farwolaeth Cynfelyn (ond gthg. dehongliad [g]wynnassed velyn fel enw personol neu enw gwlad gan I. Williams, CA 1360n, ac fel enw lle yn H-cd). Gw. hefyd J.T. Koch, ‘*llawr en asseð*’, 262 ac n. 26, sy’n dehongli llinell o ‘Marwnad Cynddylan’ (MarCyn 3 a *Rhygywarch lary lyw eirassedd*) fel cyfeiriad arall at gerbyd, gan awgrymu bod y cerbyd wedi mynd yn un o fformiwlâu traddodiadol y beirdd – megis *eurdorchawg* – erbyn amser Cynddylan (sef y seithfed ganrif), ond gthg. aralleiriad R. Geraint Gruffydd (MarCyn 3): ‘A Rhigyfarch, yr arglwydd haelfrydig [yn dwyn] fflaglau’.

¹³⁷ J.T. Koch, ‘*llawr en asseð*’, 259, a gw. OLD d.gg. *sella* (‘A seat for one person’ neu ‘A form of conveyance consisting of a chair . . . carried by slaves by means of poles’) a *quadriiugus* (‘(of a chariot) Drawn by four horses yoked abreast’). Nid oedd gan I. Williams, CA 932n, awgrym pendant ynghylch ystyr *assed* – yn wir, fe awgrymodd y gellid darllen *arswyt*, er mwyn yr odl – er nodi’r ffurf *diased* a chymharu honno, CA 2n, ag *asseda* ‘*sella quadriiugis*’ yn ogystal â’r Llydaweg *diaz* ‘llawr, gwaelod’. Ni chynigiwyd unrhyw gyfieithiad o *assed* gan Jackson, GOSP tt. 145-6, ond ‘conflict’ oedd cyfieithiad Jarman, BOHP ll. 720. Cynhwysir *asedd* ‘?Cerbyd rhyfel’ yn GPC² gan nodi ei darddiad o Indo-Ewropeg **sed* ‘eistedd’ a’i gymharu â’r Lladin *essedum*, *essedda*, yr Hen Lydaweg *assedam*, a’r Gwyddeleg Canol *arae* (genidol *arad*) ‘gyrrwr cerbyd rhyfel’ (gw. ymhellach J.T. Koch, ‘*llawr en asseð*’), a chan roi CA 932 fel yr unig enghraifft. Gw. hefyd J.T. Koch, ‘*llawr en asseð*’, 259, a J.T. Koch, *Tartessian*, t. 73, am AΘΘEDOMAROS ‘great in chariots’ fel enw brenin Brythonaidd yn y ganrif gyntaf C.C.

¹³⁸ GodA t. 157.

¹³⁹ Gw. David Greene, ‘The Chariot as Described in Irish Literature’, yn Charles Thomas (ed.), *The Iron Age in the Irish Sea Province* (London, 1992), tt. 59-73.

¹⁴⁰ *Gildas*, 32.1 ac ib.n.

¹⁴¹ Gellid dadlau bod y cyfeiriad hwn yn adlewyrchu ymwybyddiaeth o’r math o offer statws-uchel a weddai i arweinwyr neu ryfelwyr grymus, ni waeth beth oedd y realiti cyfoes – cymh. *Gildas*, 41.3, sy’n cyfeirio at y proffwyd Elias fel *currus et auriga Israhel* ‘chariot and charioteer of Israel’, gan adlewyrchu ymadroddion o’r Beibl fwy na thebyg (gw., e.e., I Brenhinoedd 10:26 *Casglodd Solomon gerbydau a meirch; ac yr oedd ganddo fil a phedwar cant o gerbydau a deuddeng mil o feirch*, a II Brenhinoedd 2:11 *Ac fel yr oeddynt yn mynd, dan siarad, dyma gerbyd tanllyd a meirch tanllyd yn eu gwahanu ill dau, ac Elias yn esgyn mewn corwynt i’r nef*, a hefyd Winterbottom, *Gildas*, t. 7, yn tynnu sylw at ‘the all-pervading Biblical language’ yng ngwaith Gildas). Ac eto, nid yw cyd-destun negyddol y disgrifiad o Cuneglasus o blaid tybied bod Gildas yn awyddus i’w gymharu’n ffaithiol â ffigur o’r Beibl, fel y gall fod yn fwy perthnasol cymharu’r darn hwn â Salmau 20:7 *Ymffrostia rhai mewn cerbydau ac eraill mewn meirch, ond fe ymffrostiwn ni yn enw’r Arglwydd ein Duw*, a thybied mai beirniadaeth ar offer go-iawn Cuneglasus a fynegir.

¹⁴² Greene, ‘The Chariot as Described in Irish Literature’. Mae Peter Harbison, ‘The Old Irish ‘Chariot’, *Antiquity*, 45 (1971), 171-7, yn disgrifio’r darluniadau o gerbydau ar Groesau Uchel Gwyddelig, a gw. hefyd Lloyd Laing and Jennifer Laing, ‘Archaeological Notes on some Scottish Early Christian sculptures’, sy’n

oed, fel yr awgrymodd Dr Ken Dark wrthyf.¹⁴³ Rhaid nodi, fodd bynnag, y byddai ymladd mewn cerbyd, fel a awgrymir gan ddehongliad John Koch o CA (LXXV A) 932 *goglyssur heyrn lliveit llawr en asseð* ('feats of whetted iron implements of the laurel-bedecked champion in the war-chariot') yn anacronistig ar gyfer yr Oesoedd Tywyll a'r Oesoedd Canol fel ei gilydd.¹⁴⁴

Cyfeiriad anacronistig arall yn 'Y Gododdin', o bosibl, yw'r defnydd o'r gair *plwm* yn CA (XVIII) 190-1 *tri en drin en drwm. / llew lledynt blwm*. Awgrymwyd yn adran 3.2.2 y gallai'r cysylltiad rhwng *plwm* a rhyfel fod wedi tarddu yn y pen draw o ddefnydd y Rhufeiniaid o'r metel hwn fel pwysau mewn gwaywffyn tafl neu fel bwledi slingiau, ac fe all fod yn arwyddocaol mai 'Y Gododdin' yw'r unig gerdd lle ceir y ffurf gysefin *plwm* yng nghyd-destun rhyfel, er iddo ddigwydd fel elfen mewn cyfansoddeiriau mewn cerddi eraill gan gynnwys cerddi Beirdd y Tywysogion. Ni ellir dweud, fodd bynnag, fod y defnydd hwn o *plwm* yn 'Y Gododdin' yn golygu bod y beirdd yn ymwybodol o arfau Rhufeinig neu is-Rufeinig, am y byddai'n hawdd iawn i arwyddocâd gwreiddiol y gair, mewn perthynas â rhyfel, gael ei golli dros y canrifoedd. Gellid awgrymu, yn wir, fod yr ystyr wedi newid yn raddol gyda threigl amser, a'r ystyr bosibl 'gwaywffyn tafl *plwm*'¹⁴⁵ wedi troi'n 'arfau trymion' ac wedyn yn 'rhyfel caled'. Os felly, gallai'r 'Gododdin' gynrychioli cam canol yn

awgrymu y gallai'r darlun o gerbyd ar garreg Bictaidd goll, Meigle 10, gynrychioli rhywbeth tebyg i'r cerbydau gorchuddiedig Rhufeinig a defnyddid at ddibenion seremonïol, ymysg pethau eraill. Gw. ymhellach Dark, *Civitas to Kingdom*, t. 192, a'r cyfeiriadau a roddir yno, a chymh. hefyd *car* Cynog Sant yn 'Canu i Ddewi' Gwynfardd Brycheiniog, a hwnnw wedi'i dynnu gan ychen (CBT II 26.51-2 *Dau ychen Dewi, dau odidawg, / Dodsant-hwy eu gwar dan gar Cynawg*, a gw. ib.n am y ddau ych chwedlonol hyn).

¹⁴³ Rwyf yn ddiolchgar iawn i Dr Dark am yr awgrym hwn ac am drafod dehongliad cyfeiriad Gildas â mi yn fwy cyffredinol. Mae'r ffaith fod *circus* Rhufeinig wedi'i ddarganfod yn 2004-5 yn Colchester, a hwnnw wedi'i ddyddio i tua'r ail ganrif O.C., yn dangos y gallai cerbydau fod wedi parhau'n adnabyddus ym Mhrydain yng nghyd-destun rasio am beth amser ar ôl iddynt beidio â chael eu defnyddio fel offer rhyfel (gw. P. Crummy, 'The Circus at Colchester (*Colonia Victricensis*)', *Journal of Roman Archaeology*, 18 (2005), 267-77), a gw. hefyd John H. Humphrys, *Roman Circuses* (London, 1986), tt. 431-7, am drafodaeth ehangach ar y dystiolaeth am rasio cerbydau ym Mhrydain). Ni ddefnyddiai'r Rhufeiniaid eu cerbydau ar gyfer ymladd, ond fe ddisgrifiodd Iwł Cesar ddulliau'r Brythoniaid o ymladd fel hyn yn *De Bello Gallico*, 4.33 (cyfieithwyd gan Philip Freeman yn CHA §20 (t. 23)), ac fe gyfeiriodd Tacitus at gerbydau'r Brythoniaid ym mrwydr Mons Graupius (Ogilvie and Richmond (eds.), *De Vita Agricola*, §§35-36, a gw. hefyd Mattingly and Handford (trans.), *Agricola/Germania*, §§ 35-36). Gw. hefyd J.T. Koch, *Atlas for Celtic Studies*, tt. 112 a 116, am y claddfeydd gyda cherbydau sydd wedi'u darganfod ym Mhrydain, yn enwedig mewn perthynas â 'Diwylliant Arras' yn nwyrain Swydd Efrog, a'r rhai diweddaraf yn dyddio o'r Oes Haearn ddiweddar.

¹⁴⁴ J.T. Koch, '*llawr en asseð*', a gw. Greene, 'The Chariot as Described in Irish Literature', 71, sy'n dadlau bod arwyr y chwedlau Gwyddeleg yn defnyddio eu cerbydau yn bennaf ar gyfer teithio i'r gad ac arddangos eu doniau, yn hytrach nag ar gyfer ymladd.

¹⁴⁵ Gw. adran 2.2.3.2 am *plumbata* y Rhufeiniaid.

ystod y broses hon, a'r ystyr 'arf(au)' yn fwy addas na 'gwaywffon dafl', neu 'ryfel', ar gyfer gwrthrych sy'n cael ei 'ladd' gan ryfelwyr.¹⁴⁶

Nid peth newydd yw cysylltu'r 'Gododdin' ag arfau neu dulliau brwydro Rhufeinig. Dadleuodd Ifor Williams mai casglu cwmni o farchogfilwyr tebyg i farchoglu Arthur oedd 'Arfaeth Mynyddawg', a'r marchoglu hwnnw'n disgyn o farchoglu trwm Rhufeinig diweddar,¹⁴⁷ ac fe ddangosodd Jenny Rowland y tebygrwydd rhwng dulliau brwydro'r 'Gododdin' a dulliau marchoglu ysgafn y Rhufeiniad a'r Celtiaid, gan awgrymu y gallai dulliau marchoglu'r Cymry cynnar a Brythoniaid y gogledd naill ai fod wedi eu hetifeddu gan y Rhufeiniaid neu gynrychioli parhad traddodiadau brodorol.¹⁴⁸ Yn yr un modd, gallai traddodiadau neu gonfensiynau diweddarach am dorchau aur ddangos dylanwad Rhufeinig, yn ogystal ag adlewyrchu pwysigrwydd y gwrthrychau hyn ymhlith Celtiaid yr Oes Haearn, am fod y Rhufeiniaid hwythau'n gwerthfawrogi torchau fel symbolau o ddewrder.¹⁴⁹ Yn wir, mae Craig Cessford wedi awgrymu y gallai'r torchau a grybwyllir yn 'Y Gododdin' adlewyrchu cysylltiadau ag uned o farchogfilwyr Rhufeinig a leolid yn Stanwix, a hwythau wedi eu gwobrwyo ddwywaith â thorchau.¹⁵⁰ Ac eto, fe all mai dylanwad Rhufeinig (neu Oes Haearn) llai uniongyrchol a ddangosir yn nefnydd y beirdd o epithedau fel *torchawg* a *caeawg*. Dadleuodd Susan Youngs y gallai'r ddau air hyn fod wedi cyfeirio at froetsys bylchgrwn mawr y cyfnod ôl-Rufeinig, a'r rheini o bosibl wedi'u mabwysiadu gan uchelwyr Prydeinig am eu bod yn adlewyrchu ffurf y torchau cynharach.¹⁵¹

¹⁴⁶ Byddai'r ffurf *plymlwyt* ym 'Marwnad Cunedda' yn enghraifft bosibl arall o'r 'cam canolig' hwn, yn ôl dehongliad J.T. Koch o LPBT 23.24 *dychludent wyr Bryneich ym plymlwyt*, sef 'cynullwyd gwŷr Brynaich (Bernicia) a'u dwyn i flaen plwm llwyd [y gad]', ond gthg. cyfieithiad Haycock, LPBT 23.24 'they'd bear off the men of Bernicia in battle'. Am y ffurf *plymlwyd* gw. ymhellach n. 117 yn adran 3.2.2 uchod. Mae dyddiad 'Marwnad Cunedda' yn destun dadlau (gw. adran 1.4.2).

¹⁴⁷ CA tt. xlvi-xlvii, yn cyfeirio at R.G. Collingwood a J.N.L. Myres, *Roman Britain and the English Settlements* (Oxford, 1936), tt. 320-4.

¹⁴⁸ Rowland, 'Warfare', 22, a gw. hefyd Dark, *Civitas to Kingdom*, tt. 197-200, am drafodaeth ehangach ar barhad tactegau a threfniannau is-Rufeinig; ond gthg. Alcock, *Economy, Society and Warfare*, t. 300, sy'n cysylltu'r defnydd o waywffyn tafl a chleddyfau gan farchogfilwyr â dulliau Celtiaid Prydain a Gâl yn y cyfnod cyn-Rufeinig, yn hytrach nag â dylanwad y Rhufeiniaid.

¹⁴⁹ Maxfield, *The Military Decorations of the Roman Army*, tt. 86-9.

¹⁵⁰ Gw. Cessford, 'Jewellery and the Gododdin Poem', 58, sy'n trafod y cerrig beddau Rhufeinig o Abaty Hexham a Hen Eglwys y Plwyf, Stanwix, Cymbria, a oedd yn perthyn i aelodau o'r *Ala Augusta Gallorum Petriana bis torquata militaria civium Romanorum*. Awgrymodd Cessford ymhellach y gallai torchau gleiniog a ddarganfuwyd yn Rickerby Park, Stanwix, ac English Street, Caerliwelydd, fod yn gysylltiedig â'r uned hon, gan dynnu sylw at dorchau o ffurf debyg a ddarganfuwyd o fewn tiriogaeth Votadinaidd (hynny yw, tiriogaeth a gysylltir â 'gwŷr Gododdin') yn New Mains ac mewn cronfa ar Lamberton Moor (gw. 'Jewellery and the Gododdin Poem', tt. 58-9; C. Cessford, 'Tories in Early Historic Scotland', *Oxford Journal of Archaeology*, 14 (1995), 229-42 (233-5) a Morna MacGregor, *Early Celtic Art in North Britain*, 2 vols (Leicester, 1976), vol. I, tt. 97-9 a vol. II, rhifau 197-209).

¹⁵¹ Gw. Susan Youngs, 'Britain, Wales and Ireland: Holding Things Together', yn Jankulak and Wooding (eds.), *Ireland and Wales in the Middle Ages*, tt. 80-101 (tt. 86-7), sy'n nodi bod y Rhufeiniaid weithiau'n

Mae'r cyfeiriadau posibl at fwâu croes neu beiriannau rhyfel, yn enwedig o ran y ffurf *catbwll*, yn gydnaws â dylanwadau Rhufeinig, ac felly hefyd yr ymadrodd [*p*]*edryollt bennawr*, os yw'n dynodi naill ai saeth bedwarllabedog neu follten bwa croes. Yn ogystal â *catbwll* (os cywir ei darddu o *catapulta*), mae *llurig* yn enghraifft arall o air benthg o'r Lladin a all adlewyrchu benthg yr offer ei hun, er y gallai fod wedi ei ddefnyddio ar gyfer mathau brodorol o arfwisg yn ogystal.¹⁵² At hynny, byddai cysylltiad â tharian hirsgwar Rufeinig yn bosibl ar gyfer y cyfeiriadau (ansicr) at darianau sgwâr, er bod tystiolaeth fod tarianau pedeirochrog a bwâu croes fel ei gilydd yn gyfarwydd yn yr Oesoedd Tywyll hefyd, o leiaf ymhlith y Pictiaid (yn wir, mae'n ddi-ddorol nodi yn y cyd-destun hwn fod tarianau hirsgwar mawr wedi'u defnyddio gan groesfwawyr yr Oesoedd Canol Diweddar).¹⁵³ Mae'r cyfeiriadau at daflu gwaywffyn niferus oddi ar gefn ceffylau hefyd yn gydnaws â dulliau Rhufeinig, neu â rhai Celtaidd cyfoes; ac er nad ymladdai'r Rhufeiniaid mewn cerbydau, gallai eu hoffter o'r offer hyn ar gyfer rasio a gorymdeithio fod wedi cynorthwyo'r hen ddelweddaeth am arwyr mewn cerbydau i oroesi'n ddigon hir i adael olion yng ngherddi'r beirdd.

Mae'r awgrymiadau am drefniannau amddiffynnol hefyd yn gydnaws â'r syniad fod offer a dulliau milwrol wedi parhau o'r cyfnod Rhufeinig, yn enwedig o gael eu hystyried wrth ochr y cyfeiriadau at drefn y fyddin, megis y defnydd o'r gair *dull* a ffurfiau tebyg a'r geiriau am safleoedd penodol o fewn y fyddin.¹⁵⁴ Tynnodd Ken Dark sylw at gyfeiriad

gwisgo torchau bach ar eu dwyfronegau, a gw. hefyd John Hines, 'Welsh and English: Mutual Origins in Post-Roman Britain?', *Studia Celtica*, 34 (2000), 81-104 (101), sy'n nodi mor debyg yw broetsys bylchgrwn i dorchau bach. Awgrymwyd cysylltiad hefyd rhwng torchau aur 'Y Gododdin' a chadwyni arian 'Pictaidd' (gw. Alcock, 'Gwŷr y Gogledd', 13-14; M.E. Owen, *Golwg Bardd Cymreig yr Oesoedd Canol ar Gymdeithas*; Craig Cessford, 'Early Historic Chains of Power', *Pictish Arts Society Journal*, 6 (1994), 19-26; Cessford, 'Torcs in Early Historic Scotland'; Cessford, 'Jewellery and the Gododdin Poem', ac Andrew Breeze, 'Pictish Chains and Welsh Forgeries', *PSAS* 128 (1998), 481-4). Awgrymodd Barry Lewis, GMBen tt. 261-2, y gallai'r gair *torch* fod wedi'i ailddehongli, erbyn cyfnod y cywyddwyr, i ddynodi'r 'coleri lifrai' a roddid i gydnabod teyrngarwch swyddogion pwysig, megis coleri 'SS' y Lancastriaid.

¹⁵² Nododd Alcock, 'Gwŷr y Gogledd', 11-12, y gallai *lorica* gyfeirio at arfwisg ledr, oni bai bod testun yn cyfeirio'n benodol at *lorica squamata* 'scale armour' neu *lorica hamata* 'ring-mail', gan awgrymu y gallai hynafiaid rhyfelwr 'Y Gododdin' fod wedi cael arfwisgoedd o'r mathau hyn wrth ysbeilio gelynyon Rhufeinig.

¹⁵³ Gw. adran 3.13.3. Gellid awgrymu y gallai'r ffurf hon o darian fod wedi datblygu'n annibynnol at ddiben gyffelyb yn yr Oesoedd Canol, er na wyddys a ddefnyddiai'r Pictiaid eu bwâu croes ar gyfer ymladd – fe allasant fod yn offer hela yn unig. Ond gw. uchod, n. 128, am yr awgrym y gallai'r tarianau sgwâr neu hirsgwar a ddangosir ar rai cerfluniau Pictaidd fod wedi'u haddasu o offer Rhufeinig.

¹⁵⁴ Gw. Jackson, GOSP tt. 30-1, a hefyd I. Williams, CA t. lxii. Nodwyd uchod, ar ddiwedd adran 3.14, rai enghreifftiau o'r geiriau *dull* a *cywair*, a gw. hefyd, e.e., CA (VI) 57-8 *Gwyr a aeth ododin chwerthin ognaw. / chwerw en trin a llain en emdullyaw* (Jackson, GOSP t. 118 'The men went to Gododdin, inciting [one another] to laughter, bitter with spears in battle, drawing themselves up in ranks'); (LXXVII A) 952-3 *ef dodes e dilis yg kynhor. / ef dodes rac trin tewdor* (Jackson, GOSP t. 147 'he stationed his true men in the van, he set up a stronghold in the face of battle'); (LXXV A) 930-1 *an gelwir mor a chynnwr. ymplymnywt / yntryvrwyt peleidy. peleidy gogymwy* (Jackson, GOSP tt. 145-6 'We are called the wing (?) and the van (?) in contest,

Gildas at lawlyfrau am dactegau milwrol a adawyd ar ôl gan y Rhufeiniaid, ac at ddisgrifiad Procopius, ac yntau hefyd yn ysgrifennu yn y chweched ganrif, o garfanau o filwyr yn ne-orllewin Gâl a oedd yn parhau i ddilyn arferion Rhufeinig o ran eu gwisg a'u hystondardau.¹⁵⁵ Er ei bod yn wir mai campau a rhinweddau unigolion sy'n cael y rhan fwyaf o sylw bardd neu feirdd 'Y Gododdin', gall mai ystyriaethau llenyddol sy'n bennaf gyfrifol am hyn – hyd yn oed os nad oedd rhaid iddynt ganolbwyntio ar ganmol unigolion fel rhan o'u swyddogaeth, fel yn achos cerddi mawl a marwnad Beirdd y Tywysogion, mae canmol unigolion, yn erbyn cefndir y fyddin ehangach, yn ychwanegu at rym dramatig 'Y Gododdin' ac yn rhan bwysig o'i hadeiladwaith. Yn wir, diau fod campau unigolion ar faes y gad yn tynnu sylw a chreu edmygedd mewn brwydrau go-iawn hefyd, a hynny fel rhan o dactegau trefnus.¹⁵⁶

Awgrymodd D. Simon Evans y gallai'r 'Gododdin' fod wedi dechrau fel cerdd ar lafar yn y chweched neu'r seithfed ganrif, a rhywun yn y nawfed neu'r ddegfed ganrif wedi rhoi ffurf arni, cyn iddi gael ei rhoi ar femrwn, gyda mwy o waith addasu neu olygu, yn y ddeuddegfed ganrif.¹⁵⁷ Os cywir y ddamcaniaeth hon – ac fe gydnabyddir yn gyffredinol fod 'Y Gododdin' yn cynnwys deunydd sy'n hen iawn, ni waeth pryd y cyrhaeddodd ei ffurf bresennol¹⁵⁸ – y mae'n cynnig tri chyfnod 'cyfoes' posibl ar gyfer yr arfau a'r dulliau a grybwyllir. Byddai'r tarianau sgwâr a'r arfau plwm (os cywir y deongliadau petrus hyn) yn perthyn i'r cyfnod cynharaf, neu'n cynrychioli traddodiadau a oroesodd hyd y cyfnod hwnnw, fel yn achos torchau aur a cherbydau rhyfel. Mae'n bosibl fod y ddelwedd o un marchogfilwr yn 'hau' gwaywffyn niferus yn fwyaf cydnaws â'r cyfnod cynnar, hefyd,

in the break-through of spears; spears of equal length'), a (LXIII C) 749-50 *kemre tot tarth / rac garth merin* (Jackson, GOSP t. 104 '... in front of the battle-square of Merin').

¹⁵⁵ Dark, *Civitas to Kingdom*, t. 198, a gw. *Gildas*, 18.2 *fortia formidoloso populo monita tradunt, exemplaria instituendorum armorum reliquunt* 'They gave the frightened people stirring advice, and left them manuals on weapons training', a 6.2 (yn dangos ymwybyddiaeth Gildas o ffurfiannau tactegol) *nec quadratum agmen neque dextrum cornu aliive belli apparatus* 'no orderly square, no right wing or other apparatus of war'; hefyd H.B. Dewing (trans.), *Procopius: History of the Wars*, vol. III (London, 1919), tt. 121-3; ac E. James, *The Franks*, tt. 83-4. Dadleuodd Dark, *Civitas to Kingdom*, tt. 199-200, y gallai'r Brythoniaid fod wedi efelychu trefn filwrol is-Rufeinig, yn ogystal â thactegau is-Rufeinig, ac y gall mai dirywiad y drefn a'r tactegau hyn, erbyn tua diwedd y chweched ganrif, a fu'n gyfrifol am lwyddiant yr ymgyrchoedd Eingl-Sacsonaidd o'r adeg honno ymlaen.

¹⁵⁶ Gw. Rowland, 'Warfare', 28, sy'n cyfeirio hefyd at ddehongliad gwahanol Alcock, *Economy, Society and Warfare*, t. 300: 'The thrown spear, together with the sword wielded from horseback, would have suited the spirit of heroic warfare, with its emphasis on individual feats of arms rather than on disciplined common action'. Gw. hefyd y drafodaeth yn adran 1.2 uchod ar duedd Beirdd y Tywysogion hwythau i ganolbwyntio ar wrthrychau eu canu mawl yn hytrach na darlunio'r byddinoedd o'u cwmpas, a chymh., e.e., ddisgrifiad 'arwrol' Wace, *Roman de Rou*, rhan III, passim, o weithgareddau Gwilym Goncwerwr yn Hastings, neu ddisgrifiad *Huntingdon*, x.18, o'r Brenin Stephen ym mrwydr Lincoln (dyfynnwyd yn adran 2.8 uchod).

¹⁵⁷ D.S. Evans, 'Iaith y Gododdin', tt. 82-5.

¹⁵⁸ Gw. Pennod 1, adran 1.4.2.

neu'n adlewyrchu parhad hen draddodiadau, er bod y defnydd o'r un ddelwedd gan feirdd diweddarach yn awgrymu bod rhyw fath o amrywiad ar yr un dull – naill ai marchogfilwyr yn taflu gwaywffyn mwy 'amlbwrpas', neu droedfilwyr yn taflu gwaywffyn – yn parhau'n ddigon cyfarwydd fel y gallai'r cyfeiriadau hyn gael eu deall gan y gynulleidfa. Yn yr un modd, gallai torchau fod wedi ymsefydlu ym meddyliau pobl ganoloesol fel amrywiad hynafol ar dlysau gwerthfawr cyfoes megis broetsys a choronau.¹⁵⁹ Ac yn wir mae disgrifiad Gerallt Gymro o *torque* Cynog Sant yn awgrymu bod rhai Cymry cyfoes wedi gweld beth oedd torch â'u llygaid eu hunain, hyd yn oed os nad oedd y pethau hynny i'w gweld bellach am yddfau'r tywysogion.¹⁶⁰

Mewn egwyddor, gallai'r gwaywffyn 'sgwâr' a'r bwâu croes berthyn i'r cyfnod diweddaraf, ond mae'r diffyg cyfeiriadau at y pethau hyn gan Feirdd y Tywysogion yn awgrymu eu bod yn fwyaf cydnaws â'r cyfnod cyntaf neu'r ail gyfnod, yn achos bwâu croes, neu â'r cyfnod cyntaf yn unig yn achos y gwaywffyn 'sgwâr' (o gofio bod yr arfau hyn wedi diflannu, hyd y gwyddys, tua diwedd y seithfed ganrif, cyn ailymddangos yn yr unfed ganrif ar ddeg). Byddai bwyell, ar y llaw arall, efallai'n fwyaf tebygol ar gyfer yr ail gyfnod neu'r cyfnod diweddaraf, er na fyddai'r cyfnod cynharaf yn amhosibl.

Petrus yw'r casgliadau hyn, oherwydd y cwestiynau sydd heb eu datrys ynghylch cyd-destun hanesyddol a chymdeithasol 'Y Gododdin'. O ran y cyfeiriadau at arfau a dulliau brwydro, yn benodol, er bod rhai'n gydnaws â dyddiad yn y chweched neu'r seithfed ganrif, ac eraill yn awgrymu parhad traddodiadau hyn, erys y posibilrwydd fod yr holl gyfeiriadau 'cynnar' yn adlewyrchu parhad traddodiadau neu gonfensiynau barddol, neu'n cynrychioli hen elfennau a 'fenthyciwyd' gan feirdd oddi wrth ryw gynsail gynharach. Wedi'r cwbl, o dderbyn bod Beirdd y Tywysogion yn crybwyll gwrthrychau anacronistig megis torchau aur wrth ganmol noddwyr cyfoes, nid oes rheswm pam na allai'r 'Cynfeirdd' fod wedi gwneud

¹⁵⁹ Am y pethau hyn gw. A.M. Jones, 'Gwisgoedd ac Ategolion', tt. 101-3, ac am goronau gw. hefyd n. 172 isod.

¹⁶⁰ *Itinerarium Kambriæ*, I.2 (*Opera VI*, t. 25-6, a *Gerallt Gymro*, t. 24). Crybwyllir torch mewn un fersiwn o *Brut y Tywysogion* (ByT (Pen. 20), t. 19 . . . drwy gannorthwy a phennaduryaeth gruffudd vab llywelyn vrenhin y brytannyeid, a gw. n. 6, *ibid.*, am ychwanegiad yr epithed *avr dorchoc* yn llsgr. D (Peniarth 213), a'r epithed hwn yn tarddu o gerddi'r beirdd o bosibl). Gw. hefyd y cyfeiriad yn BM ll. 63 at y *gur gwynllwyf* yn gwisgo *gorthorch eur am eu uwnwgyl*, a chymh. Afall^{LIDC} 45 *Ac igueith arywderit. oet eur. wy gorthorch*. Crybwyllir torch mewn cyd-destun gwahanol yn HGK 3.4-7, wrth ddisgrifio'r digwyddiad gwyrthiol pan oedd Alyn, brawd (neu ewythr) y Brenin Harald Harfagri o Norwy (c. 870-945) yn ceisio ysbeilio corff *Thur tywyssauc* ar ôl ei ladd mewn brwydr: *A thra ytoed hvnnv en e yspeillyav ac en tynnv torch vaur o eur y am y uwnvgyl, mal y gnotaei y brenhined a'r bonhedigyon y arwein gynt, y glynws y dwylav urth y dorch a'e glinyeu urth y groth*.

yr un peth wrth ganmol gwrthrychau eu cerddi hwythau.¹⁶¹ At hynny – ac yn enwedig os nad oedd arwyr y cerddi hynny'n gyfoes â'r awduron – ni ddylid anwybyddu'r posibilrwydd fod yr awduron weithiau'n fwriadol dywyll, neu'n fwriadol 'wahanol', neu'n fwriadol 'hynafol' hyd yn oed. Hynny yw, gallai awdur geisio ychwanegu urddas at ei waith drwy ei bellhau oddi wrth ei amser ei hun, gan ei osod mewn rhyw 'Oes Aur' ddelfrydol. Dadleuodd Mallory fod hyn wedi digwydd yn achos chwedlau Cylch Wlster,¹⁶² ac mae'n nodwedd hefyd ar sagâu Gwlad yr Iâ,¹⁶³ ac ar lenyddiaeth Fysantaidd.¹⁶⁴ Awgrymodd Jerry Hunter fod y diwylliant a fynegir yn y Pedair Cainc, hefyd, yn adlewyrchu rhyw 'Welsh Dreamtime' delfrydol yn hytrach nag unrhyw realiti y byddai'r gynulleidfa wedi medru ei adnabod,¹⁶⁵ ond yn achos 'Y Gododdin' rydym yn wynebu, unwaith eto, y broblem o (ddiffyg) cyd-destun.

Gellid dadlau y byddai'n anodd i fardd ddyfeisio pethau sydd yn ymddangos i ninnau fel 'adleisiau' dilys o gyfnod ymhell cyn ei amser ef, oni bai ei fod yn gwybod am y pethau hynny drwy draddodiadau llafar neu ffynonellau ysgrifenedig.¹⁶⁶ Ond hyd yn oed os oedd cyfeiriadau at bethau fel cerbydau, bwâu croes, tarianau hirsgwar neu'r defnydd o blwm mewn arfau wedi goroesi mewn gwirionedd o'r cyfnod cyn-Rufeinig, Rhufeinig neu is-Rufeinig, ni ellir cymryd eu bod yn cael eu defnyddio'n 'gywir' gan y bardd neu'r beirdd diweddarach wrth ddisgrifio arfogaeth gwyr 'Y Gododdin'.¹⁶⁷ Mae goroesiad y termau hyn

¹⁶¹ Am y syniad y gall mai cyfeiriadau confensiynol oedd torchau aur hyd yn oed yn 'Y Gododdin' gw. trafodaeth A.M. Jones, 'Gwisgoedd ac Ategolion', t. 72.

¹⁶² Mallory, 'The World of Cú Chulainn', t. 153.

¹⁶³ Gw. Joseph Harris, 'Saga as Historical Novel', yn Jónas Kristjánsson (trans. Peter Foote), *Eddas and Sagas: Iceland's Medieval Literature* (Reykjavík, 1988), tt. 187-219 (t. 206), a Smiley and Kellog *et al.*, *The Sagas of the Icelanders* (New York, 2000), t. xxvii, sy'n nodi bod awduron sagâu yn aml yn tynnu sylw at y ffaith fod y stori'n digwydd mewn cyfnod cynharach (e.e. 'Egil's Saga', yn Smiley and Kellog *et al.*, *The Sagas of the Icelanders*, t. 127: 'The laws of duelling in those days . . .').

¹⁶⁴ Mango, *Byzantine Literature as a Distorting Mirror*, t. 16: 'Byzantine literary works tend to be divorced from the realities of their own time while remaining anchored in an ideal past'.

¹⁶⁵ 'What Kind(s) of Window(s) on Which Ages? The Four Branches of the Mabinogi and the Material Culture of Medieval Wales', darlith a draddodwyd yng Nghynhadledd Dathlu Chwarter Canrif yr Early Medieval Wales Archaeology Research Group, 'The Archaeology of Early Medieval Wales in Context', 25-6 Ebrill 2009.

¹⁶⁶ Cymh. trafodaethau Mallory, 'The World of Cú Chulainn', t. 153, mewn perthynas â *Táin Bó Cúailnge*, sy'n awgrymu bod y *literati* Gwyddelig wedi ceisio ail-greu byd y gorffennol, 'built perhaps out of some genuine recollections of what constituted antiquity, popular folk interpretations of the Irish landscape, literary sources that depicted how an epic warrior should be kitted out, and the parade dress of not only the Irish aristocracy of c. 600-800 but also the Dark Age courts of Britain and the continent'. Gwahanol oedd cyd-destun cyfansoddi'r 'Gododdin', wrth gwrs (ac mae'r ffaith mai barddoniaeth ydyw yn hytrach na rhyddiaith naratif yn ffactor bwysig arall), ond nid oes modd gwybod pa mor wahanol, yn niffyg gwybodaeth bendant am ddyddiad neu ddiben y canu hwn.

¹⁶⁷ Awgrymodd Cramp, 'Beowulf and Archaeology', 5, er enghraifft, fod y disgrifiad yn y gerdd Hen Saesneg *Elene* o ddefnydd arwydd baedd ar arfwisg milwyr Rhufeinig, ac ar helm neu ystondard Cystennin, yn dangos

o ddi-ddordeb ynddo ei hun, serch hynny, ac felly hefyd y ffaith fod bardd neu feirdd ‘Y Gododdin’ wedi dewis eu defnyddio, a bod y gynulleidfa – os oeddynt yn eu deall! – wedi eu derbyn fel rhannau priodol o arfogaeth cyfoedion Aneirin.¹⁶⁸

Byddai’r ystyriaethau hyn yn berthnasol bob amser i ymdrechion i brofi dyddiad cynnar ar gyfer barddoniaeth drwy astudio diwylliant materol neu arferion cysylltiedig. Gallai beirdd gymysgu gwrthrychau o wahanol gyfnodau naill ai wrth ganmol milwyr eu cyfnod eu hunain drwy ddefnyddio epithedau a disgrifiadau traddodiadol (fel y gwnâi Beirdd y Tywysogion hwythau) neu drwy geisio ‘ail-greu’ offer milwyr y gorffennol. Nid oes sicrwydd pa un o’r ddau beth hyn oedd yn digwydd yn achos ‘Y Gododdin’ – neu, yn wir, fe allai’r ddwy broses fod wedi digwydd yn ystod ei hanes hir, naill ai ar wahanol adegau neu ar yr un pryd, hyd yn oed.

Yr unig gyfraniad at y dadleuon am ddyddiad ‘Y Gododdin’ y gellid ei gynnig ar sail yr astudiaeth hon, felly, fyddai dweud ei bod yn fwy diweddar (yn ei ffurf bresennol) na rhyw ddyddiad penodol. Hynny yw, os gellid adnabod beth yw’r gwrthrych mwyaf diweddar a grybwyllir, byddai’n rhaid tybied mai i’r cyfnod hwnnw, neu i gyfnod diweddarach, y perthyn y gerdd – neu, o leiaf, y darn(au) o’r gerdd sy’n cynnwys y gwrthrych hwnnw.¹⁶⁹ Ond yn achos ‘Y Gododdin’ mae’r tebygolrwydd fod y gerdd wedi datblygu dros gyfnod hir yn golygu na fyddai rhyw lawer o arwyddocâd i’r cyfryw gyfeiriadau, os cawsant eu hychwanegu at awdlau a gyfansoddwyd yn gynharach.¹⁷⁰ Ac yn wir, nid adnabuwyd yma unrhyw wrthrychau sy’n caniatáu gosod dyddiad *post quem* hyd yn oed ar gyfer cyfeiriadau unigol, a hynny oherwydd diffyg manylder disgrifiadau’r beirdd a phrinder y dystiolaeth am arfau a dulliau brwydro’r Cymru neu’r Brythoniaid yn yr Oesoedd Tywyll. Problem arall yw’r tebygolrwydd nad oedd yr arfau a’r dulliau brwydro hyn yn newid rhyw lawer rhwng yr Oesoedd Tywyll a dechrau cyfnod Beirdd y Tywysogion, o leiaf o ran y math o newidiadau y gellid disgwyl iddynt gael eu hadlewyrchu yng ngherddi’r beirdd. Y tebyg yw fod tarianau crwn yn parhau’n gyffredin a gwaywffyn yn cael eu taflu o hyd pan ganodd

bod y bardd wedi trosglwyddo i’r Rhufeiniaid wisg gonfensiynol milwyr paganaidd fel a ddisgrifid mewn barddoniaeth Hen Saesneg hŷn, heb boeni am y gwahaniaethau rhwng y diwyllianau hyn.

¹⁶⁸ Cymh. Harris, ‘Saga as Historical Novel’, t. 206, sy’n dadlau bod elfennau hanesyddol naill ai’n cael eu mynegi’n gywir yn y sagâu neu, o leiaf, yn gweithredu fel ‘a control over the imagination’.

¹⁶⁹ Cymh. Cramp, ‘*Beowulf* and Archaeology’, 77: ‘If enough of such [archaeological] evidence is ever forthcoming to prove that the poet muddled together objects and conditions of widely different dates, then the latest of these might give a clue to the poet’s own time’.

¹⁷⁰ Gw., e.e., y drafodaeth am ‘filigree’ yn Alcock, ‘Gwŷr y Gogledd’, 13 (ond gthg. uchod, adran 3.13.3, am ddeongliadau eraill o darianau *eurgrwydr*).

Meilyr Brydydd i Ruffudd ap Cynan. Ond erbyn amser Llywelyn ap Gruffudd, yn arbennig, fe wyddys bod newidiadau sylweddol wedi digwydd yn nhrefniannau milwrol y Cymry, ac fe drafodir yn yr adrannau nesaf i ba raddau y dewisodd y beirdd adlewyrchu, neu anwybyddu, y newidiadau hynny.

4.4 Arfau Beirdd y Tywysogion

Fel y nodwyd yn adran 4.1, oherwydd cyd-destun a swyddogaethau eglur canu Beirdd y Tywysogion, a'r dystiolaeth fwy helaeth am offer rhyfel y ddeuddegfed ganrif, ac yn enwedig am offer y drydedd ganrif ar ddeg, mae cymhariaeth rhwng y cerddi a'r 'realiti' cyfoes yn llawer mwy ystyrlon yn achos y corpws hwn nag y mae yn achos yr Hengerdd. Wrth ystyried cyfeiriadau'r beirdd fesul arf, gellir nodi i ddechrau y pethau y mae darlun y beirdd ohonynt yn hollol gydnaws â'r dystiolaeth o ffynonellau eraill.

Mae cleddyfau'n syrthio i'r dosbarth hwn, fel y disgwyliid efallai o ystyried eu bod yn arfau uchelwrol nad oeddynt wedi newid ryw llawer – o leiaf o ran y math o newidiadau y gellid disgwyl eu dirnad o gyfeiriadau mewn barddoniaeth – rhwng yr Oesoedd Tywyll a diwedd cyfnod Beirdd y Tywysogion. Gall fod yn berthnasol, hefyd, nad oeddynt yn dangos rhyw lawer o amrywioldeb, o ran ffurf a dulliau brwydro, yn enwedig o'u cymharu â gwaywffyn a tharianau. Trafodir y ddau fath olaf hyn o offer yn fwy manwl yn adrannau 4.5 a 4.6, er y gellid nodi yma fod darlun y beirdd ohonynt yn sicr yn adlewyrchu'r ffaith mai cleddyf, gwaywffon a tharian oedd arfau pwysicaf y tywysogion Cymreig a milwyr breintiedig eraill.

Yn achos rhai gwrthrychau eraill, mae prinder neu absenoldeb cyfeiriadau'r beirdd atynt hefyd yn cytuno â'r dystiolaeth a drafodwyd yn yr ail bennod. Mae diffyg cyfeiriadau'r beirdd at forthwylion rhyfel yn ategu'r syniad nad oedd yr arfau hyn yn cael eu defnyddio'n gyffredin gan y Cymry (os o gwbl) yng nghyfnod y tywysogion (gw. adrannau 2.9 a 3.9), ac mae absenoldeb (tebygol) pastynau o'u cerddi hefyd yn gydnaws â thystiolaeth arall am arfau'r cyfnod hwn.¹⁷¹ Mae absenoldeb brysgyllau o'r cerddi yn fwy o syndod, o ystyried yr enghraifft a ddarganfuwyd yng nghastell Dryslwyn, a'r cyfeiriadau at yr offer hyn fel arwyddion awdurdod yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill (gw. adran 2.7), ond mae'n

¹⁷¹ Gw. adran 2.7, ac adran 3.7, sy'n nodi'r ansicrwydd ynghylch dehongliad *llwrw*, *llwry* a'r ffurf luosog *llyry*.

werth nodi na chyfeiriai'r beirdd at offer seremonïol eraill megis (teyrn)wialenni, ychwaith, er bod *talaith* (sef coron neu goronig) tywysogion wedi'i chrybwyll gan Gynddelw, Llygad Gŵr a Gruffudd ab yr Ynad Coch.¹⁷²

Câi cyllyll, hefyd, eu hanwybyddu gan Feirdd y Tywysogion, o leiaf o ran cyfeiriadau penodol,¹⁷³ er nad oes amheuaeth nad oedd yr offer hyn wedi'u defnyddio mewn brwydrau. Fel y trafodir yn adran 4.3, nid oes ond ychydig enghreifftiau yn yr Hengerdd, ac yn wir nid oes ond un y gellir dweud iddi ddisgrifio cylllell fel rhan arferol o arfogaeth arwr at ryfel, a honno yn 'Y Gododdin'. Mae gwahaniaethau *genre* yn ei gwneud yn anodd dweud bod unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn 'nelwedd' cyllyll yn nhyb Beirdd y Tywysogion o'u cymharu â 'beirdd yr Hengerdd', fodd bynnag – gall mai confensiynau canu mawl sydd fwyaf cyfrifol am absenoldeb yr offer hyn o'r corpws dan sylw yma, gan gyfyngu ar yr amrediad o arfau a grybwyllid mewn perthynas â thywysogion a rhyfelwyr bonheddig eraill.¹⁷⁴

Mae ystyriaethau delwedd a chonfensiwn yn bwysig hefyd wrth geisio esbonio diffyg cyfeiriadau Beirdd y Tywysogion at fwyeill. Fel y trafodwyd uchod, ymddengys fod cyfeiriad at ergydion bwyeill rhyfel yn 'Y Gododdin' (CA (LXXXIII) 1012), ac mae'n debyg fod bwyell yn cael ei disgrifio fel rhan o arfogaeth yr arwr Maeldderw yn 'Gwarchan

¹⁷² CBT III 7.38 (Cynddelw, 'Marwnad Madog ap Maredudd') *Oedd dyrn yn hëyrn, haearn dalaith* a 13.30 ('Arwyrain Owain ap Madog') *Dyrn hëyrn, haearn ei dalaith* (trafodwyd y cyfeiriadau hyn yn adran 3.14 uchod, yn enwedig n. 1384), a VII 36.4 (Gruffudd ab yr Ynad Coch, 'Marwnad Llywelyn ap Gruffudd') *Aur dalaith oedd deilwng iddaw*. Mae'r *tair talaith* yn cynrychioli Gwynedd, Powys a Deheubarth yn VII 24.120 (Llygad Gŵr, 'Mawl Llywelyn ap Gruffudd') *Gan eurwawr aerbair y tair talaith*; gw. ib.n., a chymh. 107 *Taleithawg deifhawg dyfniaith—Aberffraw*, 111 *Taleithawg arfawg aerbaith—Dinefwr*, a 115 *Taleithawg Mathrafal, maith—yw dy derfyn*. Mae'r nodyn ar CBT VII 36.4 yn tynnu sylw at y pen carreg coronog a ddarganfuwyd ar safle castell Degannwy, yr awgrymwyd iddo bortreadu Llywelyn ab Iorwerth, o bosibl (gw. L. Alcock, 'Excavations at Degannwy Castle, Caernarvonshire, 1961-6', *The Archaeological Journal*, 124 (1967), 190-21 (196-7)). Gw. ymhellach J.B. Smith, *Llywelyn ap Gruffudd*, tt. 332-3, am arwyddocâd y gair *talaith* ac am y goronig neu *garlandeche* o eiddo Llywelyn ap Gruffudd a roddwyd i gysegr Sant Edward, Abaty Westminster, ar ôl ei farwolaeth, a Crouch, *The Image of Aristocracy*, t. 204, am yr awgrym mai Llywelyn ab Iorwerth oedd 'the originator of the coronet of the House of Gwynedd'. Ni ddefnyddiai'r beirdd y gair *coron* mor aml, mewn perthynas â'r tywysogion. Fe'i ceir gan Ddafydd Benfras fel symbol o rym brenhinoedd Lloegr, neu o sofraniaeth Prydain, o bosibl (CBT VI 30.67-8 *I Goron Llundain, er garwedd—hëyrn, / Ni roddes tēyrn tŷ o Wynedd!*, a 31.37 *Wedi treisynth gynt ar y goron*), ond mae'r enghreifftiau eraill yn y corpws hwn mewn cerddi crefyddol o waith Gruffudd ab yr Ynad Coch (VII 39.3 *Nawdd y Iesu caru, coron—tangnefedd*; 40.98 *Er Ei goron ddrain a'i wir ddoniau*, a 43.19 *A'i goron yn ddrain ac Yntau'n gelain*).

¹⁷³ Fel y nodwyd yn adran 3.6, gallai rhai o gyfeiriadau'r beirdd at lafnau fod wedi dynodi cyllyll.

¹⁷⁴ Cymh. y draffodaeth yn adran 4.3 am le cyllyll mewn rhestrau o arfogaeth arwyr yn yr Hengerdd ac yn 'Culhwch ac Olwen', a gw. adran 2.6 am ddelwedd negyddol cyllyll fel arfau.

Maeldderw' (CA (GwM) 1435).¹⁷⁵ Awgrymwyd uchod (adran 4.3) y gall 'Gwarchan Maeldderw' adlewyrchu ymwybyddiaeth o fwyell rhyfel Llychlynaidd neu Wyddelig-Sgandinafaidd adeg Gruffudd ap Cynan, ond hyd yn oed os dilys y dehongliad hwn, mae'n eglur na lwyddodd bwyell rhyfel i ennill lle anrhydeddus ym mhrif ffrwd canu mawl Beirdd y Tywysogion.

Fel y trafodwyd yn adran 2.8, gellir adnabod amryw agweddau ar ddelwedd y fwyell. Fe'i cysylltid ag ergydion cryf ac â gwrthsefyll yn arwrol, ond fe'i hystyrid hefyd yn arf arbennig o dreisgar a gysylltid yn aml â phobl 'gyffredin' neu estron. Mae'n anodd credu y byddai'r beirdd hwythau wedi tybied bod bwyell yn 'rhy dreisgar', o gofio delweddaeth graffig a gwaedlyd rhai o'u cerddi – yn wir, mae eu disgrifiadau o ryfelwyr yn 'medi' gelynyon yn awgrymu canmoliaeth i ergydion trychu pwerus cyffelyb i'r rhai a gyflawnid â bwyell ryfel fawr. Ond y tebyg yw mai cleddyf, nid bwyell, a oedd ym meddwl y beirdd wrth iddynt gyfeirio at 'fedi' mewn rhyfel, a bod y gwahaniaethau rhwng y ddau arf hyn yn rhoi ateb mwy arwyddocaol i'r cwestiynau am agwedd y beirdd tuag atynt. Yn gyntaf, er y gellid trychu neu 'fedi' â chleddyf, byddai cleddyfwr da yn medru defnyddio dulliau eraill o frwydro â'r arf hwn, hefyd, ac yn medru pario arf gelyn. Hynny yw, roedd cleddyf yn arf mwy addas na bwyell ryfel ar gyfer dangos (a chanmol) medr rhyfelwr, yn ogystal â'i gryfder corfforol. Ac yn ail, roedd cleddyf yn arf arbennig o gostus a gysylltid yn gryf â'r dosbarth uchelwrol, ond roedd bwyell – er y gall fod yn arf i dywysogion a brenhinoedd – yn perthyn yn agos i offeryn a ddefnyddid gan daeogion i dorri coed. Gallai cysylltiadau estron bwyell hefyd fod wedi'u gwneud yn anneniadol i'r beirdd, efallai am nad oeddynt yn awyddus i bwysleisio cysylltiadau Gwyddelig-Sgandinafaidd tywysogion y ddeuddegfed ganrif, neu efallai fod ceidwadaeth ronc yn eu rhwystro rhag cyflwyno i'w cerddi arf nad oedd eisoes yn rhan o ddelweddaeth arferol y canu mawl.¹⁷⁶ Rhaid hefyd ystyried, fodd bynnag, y gallai absenoldeb bwyell o'r cerddi fod yn adlewyrchiad gweddol gywir o'r sefyllfa gyfoes, a bod yr arfau hyn heb eu mabwysiadu i unrhyw raddau sylweddol gan filwyr Cymreig ar ôl adeg Gruffudd ap Cynan.

¹⁷⁵ Mae'n debyg nad arf yw'r *bwyell* yn 'Angar Kyfundawt' (LPBT 4.234). Gw. adrannau 4.2.1 a 4.3 am y tri chyfeiriad hyn.

¹⁷⁶ Cymh. y diffyg cyfeiriadau at fwyell yn 'The Battle of Maldon', sy'n disgrifio cleddyfau a gwaywffyn yn bennaf er ei bod yn debygol iawn y byddai bwyell rhyfel wedi cael rhan bwysig yn y frwydr, yn enwedig yn nwylo'r gelynyon Llychlynaidd (gw. Brooks, 'Weapons and Armour', t. 208).

Gwahanol yw'r sefyllfa yn achos bwâu saethu, am y gwyddys bod yr arfau hyn wedi eu defnyddio yn aml, o leiaf gan Gymry'r De. Gallent fod wedi eu tangynrychioli yn y cerddi oherwydd delwedd anarwrol yr arf – a honno'n ymwneud â'r syniad o 'ladd o bell' neu 'ladd yn hawdd' yn yr achos hwn – neu oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio gan filwyr 'cyffredin' yn hytrach na chan uchelwyr.¹⁷⁷ Yn sicr, nid oes unrhyw awgrym gan y beirdd eu bod yn arfau a ddefnyddid gan y tywysogion eu hunain. O blith yr ychydig enghreifftiau o'r gair *saeth*, yr unig un sy'n dod yn agos at ddisgrifiad o'r offer hyn mewn rhyfel yw cyfeiriad y Prydydd Bychan at saeth a laddodd wêr o'r enw Blegywryd.¹⁷⁸ Ac fe allai'r cyfeiriad posibl at llyn bwa yn CBT VI 18.40-3 (Einion ap Gwgon, 'Mawl Llywelyn ab Iorwerth') *A'r llinyn ar dynn ar du celain* hefyd ddisgrifio arf(au) gelyn(ion) y gwrthrych, fe ddichon, er ei bod yn fwy tebygol mai disgrifiad ydyw o arfau milwyr o blaid Llywelyn. Os felly, gall mai arfau cynghreiriad o dde Cymru a ddisgrifir, o ystyried prinder y dystiolaeth am wêr Gwynedd yn defnyddio bwâu mewn rhyfel (gw. adrannau 2.10 a 3.10).

Cymharol brin yw cyfeiriadau'r beirdd at filwyr 'cyffredin' fel y cyfryw (gw. adran 1.2), ond fe allai saethwyr fod wedi eu hanwybyddu'n fwy na gwayw-wyr oherwydd delwedd ddrwg eu harfau, neu oherwydd nad oedd bwâu (syml) wedi'u cynrychioli'n gryf, os o gwbl, yng ngwaddol y beirdd o eiriau ac ymadroddion ar gyfer canu mawl.¹⁷⁹ At hynny, gallai saethwyr y De fod wedi eu hesgeuluso oherwydd y pwyslais cyffredinol ar Wynedd yng nghanu Beirdd y Tywysogion. Tywysogion Gwynedd a enillodd y gyfran fwyaf o foliant y beirdd, a barnu wrth y cerddi sydd wedi goroesi,¹⁸⁰ ac fe fyddai'n naturiol i'r beirdd a ganai iddynt beidio â chrybwyll bwâu, os nad oedd yr offer hyn yn cael eu defnyddio gan eu milwyr. Yn wir, gallai dylanwad arferion Gwynedd fod wedi treiddio'n fwy helaeth drwy Gymru, os oedd y beirdd a arferai ganu yng Ngwynedd yn defnyddio'r un dulliau o ganmol wrth ganu mewn parthau eraill, heb gymryd sylw o wahaniaethau mewn arferion lleol; neu os oedd beirdd o'r De yn efelychu cerddi beirdd eraill a ganai i dywysogion Gwynedd.

¹⁷⁷ Gwnaethpwyd y pwynt hwn gan N.A. Jones, 'Horses in Medieval Welsh Court Poetry', t. 85, a chymh. hefyd Brooks, 'Weapons and Armour', t. 209, sy'n awgrymu bod cyfeiriadau at saethwyr yn 'The Battle of Maldon' yn brin oherwydd 'the bow was a weapon of the unfree or semi-free, not of the noble or well-armed warrior'. Gw. adrannau 2.10 a 2.11 uchod am ddelwedd y bwa saethu a'r bwa croes, a chymh. hefyd y drafodaeth am wahanol ddelweddau gwaywffyn tafl yn adran 4.5 isod.

¹⁷⁸ CBT VII 20.13. Ni wyddys pwy oedd Blegywryd, ac er bod y gerdd yn canmol ei filwriaeth, nid yw'n eglur a laddwyd ef mewn brwydr neu dan amgylchiadau eraill.

¹⁷⁹ Gwahanol oedd y sefyllfa yn achos bwâu croes, o bosibl (gw. y paragraff nesaf).

¹⁸⁰ M.E. Owen, 'Noddwyr a Beirdd', tt. 79-83.

Nid yw'r ystyriaethau daearyddol-wleidyddol hyn mor berthnasol yn achos bwâu croes, am y gwyddys bod y pethau hyn wedi'u defnyddio i ryw raddau gan filwyr Llywelyn ab Iorwerth (gw. adran 2.11). Yn wir, nid amhosibl mai llinyn bwa croes a ddisgrifir yn llinell Einion ap Gwgon, a ddyfynnwyd uchod. Ni ddylai ceidwadaeth fod wedi rhwystro'r beirdd rhag cyfeirio at yr offer hyn, ychwaith, os cywir yw'r dybiaeth fod bwâu croes neu foltau bwâu croes wedi'u crybwyll yn 'Y Gododdin' ac yn 'Gwarchan Tudfwlch' (gw. adrannau 3.11 a 4.3). Ond mae'n bosibl nad oedd Beirdd y Tywysogion yn cysylltu'r cyfeiriadau hyn â'r bwâu croes a ddefnyddid yn eu cyfnod hwy, naill ai am fod eu hystyr yn wahanol neu'n hollol dywyll iddynt hwythau, neu am eu bod yn eu hystyried yn anaddas ar gyfer cerdd fawl i noddwr cyfoes.¹⁸¹

Gall mai'r cysylltiad rhwng bwâu croes a throedfilwyr, a hurfilwyr estron yn arbennig, oedd un o'r prif ffactorau a'u rhwystrodd rhag ennill lle yng ngherddi mawl y beirdd, ynghyd â'u delwedd ddrwg yn gyffredinol fel arf 'hawdd' nad oedd angen cryfder corfforol na rhyw lawer o fedr i'w saethu (gw. adran 2.11). Ond fe all fod yn berthnasol hefyd fod croesfwawyr yn gysylltiedig yn aml â rhyfel gwarchae. Er bod y beirdd yn cyfeirio'n bur aml at gipio cestyll, nid ymddengys fod offer gwarchae arbenigol o unrhyw ddiddordeb iddynt – ni cheir disgrifiadau o daflu neu ollwng cerrig, neu o offer arbennig megis ysgolion neu beiriannau rhyfel, er bod *Brut y Tywysogion* yn rhoi sylw mawr i'r pethau hyn.¹⁸² Weithiau byddai awduron Ffrangeg hwythau'n dangos agwedd nid annhebyg – nododd Catherine Hanley nad yw'r *Histoire de Guillaume le Maréchal* yn rhoi rhyw lawer o fanylion am ryfel gwarchae, serch ei gyfeiriadau niferus at y math hwn o frwydro, gan awgrymu bod hyn yn adlewyrchu cysylltiad peiriannau rhyfel â milwyr 'cyffredin' ac awydd yr awdur i ganolbwyntio ar weithredoedd arwr ei stori.¹⁸³ Yn yr un modd, gallai'r beirdd fod wedi anwybyddu peiriannau rhyfel am nad oedd y tywysogion yn ymwneud â'r offer hyn yn uniongyrchol (ac fe all fod yn berthnasol hefyd fod eu dull gweithredu, fel yn achos bwâu croes, heb ddwyn cysylltiad uniongyrchol â chryfder a medr y sawl a'u defnyddiai). Mae'n syndod, er hynny, na ddewisodd y beirdd gyfeirio at berchnogaeth y

¹⁸¹ Llai perthnasol yw'r gair *billt* yn 'Kychwedyl a'm dodyw' (gw. adran 3.11), nid yn unig am na ellir ei gysylltu'n bendant â *byllt* 'boltau bwa croes' ond hefyd am ei fod yn digwydd mewn cerdd ddarogan yn hytrach na cherdd fawl.

¹⁸² Gw. paragraff olaf adran 2.12.

¹⁸³ *War and Combat*, tt. 58-9. Mae'r disgrifiad gwatwarus yn *William Marshal*, llau. 16629-42, o wŷr Marshal yn lladd *perreior* gorau y gwarchaewyr ym mrwydr Lincoln drwy dorri ei ben yn dangos yn eglur ddiffyg parch y marchogion a'r uchelwyr tuag at y sawl a weithredai beiriannau rhyfel, serch eu medrau arbenigol gwerthfawr.

tywysogion ar yr offer hyn fel symbol o'u grym a'u statws, a rhaid tybio naill ai mai ceidwadaeth oedd y rheswm, neu fod y beirdd yn anfodlon tynnu sylw at offer roedd y tywysogion wedi eu 'benthg' gan yr Eingl-Normaniaid.¹⁸⁴

Yn achos arfau polyn, ar y llaw arall, fe ddichon fod y farddoniaeth yn cynnig ychwanegiad gwerthfawr at y dystiolaeth brin o ffynonellau eraill, os cywir dehongli *bachau bychain* gwŷr Llywelyn ab Iorwerth, mewn cerdd o waith Einion ap Gwgon (CBT VI 18.48), fel math o filwg rhyfel (gw. adrannau 2.3 a 3.3). Fel yr awgrymodd R. Geraint Gruffydd, y mae hyd yn oed yn bosibl fod y *bachau* hyn wedi goroesi neu ddatblygu dros y canrifoedd nes cael eu galw'n *Welsh hooks* gan Shakespeare a Marlowe.¹⁸⁵ Mae'r ymadroddion hyn yn sicr yn awgrymu mai math o arf nodweddiadol Gymreig a ddisgrifir, er ei bod yn bosibl fod awduron Saesneg y cyfnod wedi gorbwysleisio'r cysylltiad rhwng y cyfryw arfau a Chymru am fod cysylltiadau amaethyddol bilygau yn cyd-fynd ag ystrydebau cenedlaethol cyfoes. Gallai'r un cysylltiadau fod wedi rhwystro Beirdd y Tywysogion – a'r beirdd diweddarach – rhag cyfeirio'n amlach at yr offer hyn,¹⁸⁶ ond ystyriaeth bwysig arall yw'r ffaith y byddai arfau polyn o amrywiol fathau wedi eu cludo fel arfer gan droedfilwyr 'cyffredin' yn hytrach na chan dywysogion neu uchelwyr. Gan hynny, ni ellid disgwyl y byddai'r arfau hyn wedi eu crybwyll yn aml yng ngherddi'r beirdd hyd yn oed os oeddynt yn bur gyffredin yng Nghymru.

¹⁸⁴ Cymh. sylwadau Simms, 'Images of Warfare', 612, a ddyfynnir yn adran 4.7 isod; ond cymh. hefyd yr awgrym y gall mai peiriant rhyfel oedd *catbwl* 'Gwarchan Tudfwlch' (gw. adrannau 3.11 a 4.3).

¹⁸⁵ CBT VI 18.48n. Yr enghraifft gynharaf o *Welsh hook* yn ôl yr OED yw'r cyfeiriad yn *Edward II* Marlowe, yn 1593, ond gall mai peth tebyg oedd y *Welsh bill* a grybwyllir mewn testunau o 1475 ymlaen (trafodir yr ymadroddion hyn ymhellach yn adran 2.3).

¹⁸⁶ Cyfeirir at filwg mewn cerdd ddychan o waith Trahaearn Brydydd Mawr, ac fe'i ceir yn llysenw bardd arall, sef Ieuan Du'r Bilwg o Forgannwg, ond oherwydd y gallai'r ddau gyfeiriad hyn ymwneud ag ymddangosiad unigolion, a'r bilwg yn 'erfyn â thro yn ei flaen', ni ellir eu cysylltu â bilygau fel arfau rhyfel (GGDT 13.37 *Bilwg yng ngolwg, anghelyw—gwallt fasgl* ac ib.n, a gw. Dafydd Huw Evans, 'Ieuan Du'r Bilwg (*fl. c.* 1471)', *B* 33 (1986), 101-32 (101)). Cyfeiriodd Dafydd ap Gwilym yntau at arfau polyn, sef *gisarm* a *bach haearn gafaalgarn*, mewn cyd-destun trosiadol gwahanol (DG.net 81.11 a 16, a gw. adran 3.3 uchod), ac fe gymharodd Iolo Goch [*gisarm* (yn anffafriol) â'r gyllell a gafodd yn rhodd (GIG 11.31-6). (Mae *gisarm* a *gisarm* yn tarddu o Saesneg Canol, neu efallai'n uniongyrchol o'r Ffrangeg, gan gael eu defnyddio yn y Gymraeg am fath o arf polyn tebyg i halberd, gwayw-fwyell neu fwyell ryfel (T. Parry, GDG tt. 522-3 (100.16n); Johnston, GIG 11.34n; GPC d.g. a Henry Lewis, 'Gisarm, gisarm', *B* 2 (1924), 101-2, a gw. adran 2.3 uchod); digwydd *gisarm* hefyd yn *Y Seint Greal*, 419.11-12 *ac yna wynt agymerassant gisarmeu achledyfeu. ac a vynnassant hwylyaw y baredur.*) At hynny, cyfeiriodd Lewys Glyn Cothi at *polacs* (< S. 'pole-axe') mewn cerdd ofyn am fwcler, ond arf yn nwylo gelyn oedd hwnnw (GLGC 28.29-30 *Hwn a debygwn i bacs / rhag apelwyr, rhag polacs*).

4.5 Gwaywffyn a delweddaeth arwrol

Marchogion oedd prif arwyr amryw *genres* llenyddol canoloesol, megis y *chansons de geste* a *romans* gogledd Ffrainc, a'r arwyr hyn wedi'u nodweddu gan un dull penodol o frwydro â gwaywffon, sef dull y waywffon lonydd neu 'couched'.¹⁸⁷ O fewn y traddodiad Cymraeg, gwelir delweddaeth debyg nid yn unig yn y Tair Rhamant, ond hefyd, efallai, yn yr ornest rhwng Pwyll a Hafgan yn y Pedair Cainc.¹⁸⁸ Gan Feirdd y Tywysogion, ar y llaw arall, nid oes ond ambell awgrym fod gwrthrychau eu cerddi mawl wedi brwydro erioed â gwaywffon lonydd (gw. adran 3.2.4.3). Yn hytrach, fel y sylwodd Nerys Ann Jones, darlunnir y Tywysog Llywelyn ap Gruffudd, hyd yn oed, yn 'hau' gwaywffyn tafl yn null gwŷr 'Y Gododdin'.¹⁸⁹

Mae'n anodd dweud i ba raddau yr oedd delweddaeth y beirdd yn adlewyrchu realiti, oherwydd prinder y dystiolaeth hanesyddol am ddulliau brwydro'r Cymry â'u gwaywffyn. Fel y trafodir yn adran 2.2.3.3, mae'n bur debygol mai gwaywffyn 'amlbwrpas' ar gyfer trywanu a thafu a ddefnyddid gan droedfilwyr a marchogfilwyr fel ei gilydd hyd y ddeuddegfed ganrif – rhaid cofio bod marchogion Eingl-Normanaid hwythau wedi ymladd fel hyn yn Hastings – ac nid yw'n glir i ba raddau yr oedd tywysogion y drydedd ganrif ar ddeg wedi mabwysiadu dull y waywffon lonydd.

Nid yw cerddi'r beirdd yn cynnig rhyw lawer o dystiolaeth i gryfhau'r dadl fod marchogion Cymreig wedi ymladd â gwaywffyn llonydd, ac eto, nid ydynt yn gwrthbrofi hynny ychwaith. Trafodir yn adran 3.2.4.3 nifer o gyfeiriadau posibl at y dull hwn, ac er na ellir bod yn gwbl sicr am ddehongliad unrhyw un ohonynt, efallai na ddylid beio'r beirdd am hyn. Ni ellir disgwyl yr un manylion naratif mewn cerdd fawl ag a geir mewn chwedlau, ac mae angen ychydig yn fwy o fanylion diagnostig i fedru adnabod dull y waywffon lonydd nag sydd eu hangen i adnabod dull y waywffon dafl, er enghraifft. Mae amlygrwydd gwaywffyn tafl yn y cerddi o'u cymharu â gwaywffyn llonydd yn dal yn drawiadol, er hynny, ac felly hefyd y ffaith eu bod yn cael eu crybwyll hyd at ddiwedd cyfnod y tywysogion.¹⁹⁰

¹⁸⁷ Gies, *The Knight in History*, pennod 4; Hanley, *War and Combat*, a D.J.A. Ross, 'L'originalité de «Tuoldus»'.

¹⁸⁸ M.E. Owen, "'Arbennic Milwyr a Blodeu Marchogyon'", a Sioned Davies, 'Horses in the *Mabinogion*'.

¹⁸⁹ 'Horses in Medieval Welsh Court Poetry', t. 89.

¹⁹⁰ Mae cyfeiriadau posibl neu debygol gan Walchmai (CBT I 7.97 *Am adfod arth arfod arf he*), Cynddelw (III 21.23 *Py frys cyflafan yn gwân gwaywddawn?*; 24.57-8 *Parawd o'i adaf, cyn no'i adaw, / Parau post enwair*,

Mae'n ddiddorol cymharu delwedd arwrol gwaywffyn tafl a geir gan y beirdd â delwedd yr arfau hyn mewn diwylliannau eraill. Nodwyd eisoes fod y ddelwedd o arwr yn 'hau' gwaywffyn i'w gweld yn y testun Lladin Llydewig *De sancto Iudicaelo rege historia*,¹⁹¹ ac fe ddarlunnir gwaywffyn tafl fel arfau anrhydeddus nid yn unig mewn hen chwedlau Gwyddeleg ond hefyd mewn barddoniaeth Wyddeleg o'r drydedd ganrif ar ddeg.¹⁹² Crybwyllir yr arfau hyn yn aml yn sagâu Gwlad yr Iâ,¹⁹³ ac fe'u darlunnir yn nhapestri Bayeux, fel y nodwyd o'r blaen (adran 2.2.3.2). Ond yn achos marchogfilwyr, yn benodol, byddai delwedd gwaywffyn tafl yn newid – o leiaf ymhlith rhai o'r bobloedd hyn – wrth i ddull y waywffon lonydd ymsefydlu.

Mae D.J.A. Ross wedi dadlau bod y *Chanson de Roland* yn adlewyrchu neu'n dathlu uchafiaeth dull newydd y waywffon lonydd, a'i bod hefyd yn mynegi delwedd hen-ffasiwn gwaywffyn tafl erbyn diwedd yr unfed ganrif ar ddeg.¹⁹⁴ Nododd Ross mai brwydro â gwaywffon lonydd a ddisgrifir ym mhob un o'r 44 ornest sengl yn y testun hwn, ac mai prin iawn yw'r cyfeiriadau at arfau tafl, gan dynnu sylw arbennig at y disgrifiad o'r Saraseniaid yn ymosod ar Roland a'i gymdeithion â gwaywffyn tafl:¹⁹⁵

Mil Sarrazins i descendent a piet
E a cheval sunt .XL. millers.
Men escientre, nes osent aproismer!
Il lor lances e lances e espiez,
E wigres e darz e museras e agiez e gieser.

pair pedrylaw, a 44 Wedi Rhirid Flaidd, flawdd haearddawn; 26.140 Dinas gawr, garwlym ei waywddawn; IV 3.40 Meu nad gwaywddawn; 4.27 Glas feraw hëyrn heusant, a 6.166 Pan wasgar hëyrn, pan hëir, a 8.18 Peunydd oedd newydd newid rhuddfer), Owain Cyfeiliog (II 14.118 Glud men ydd ânt gloyw hëyrn ar naid), Gwynfardd Brycheiniog (II 25.41 Am dëyrn, am gedyrn hëyrn häu), Prydydd y Moch (V 6.11 Llary ysbar ysbenydd ei naid; 9.7 Mab medel utgyrn hëyrn dyhe; 10.27-8 Hëynt Loegr, liwed enwir, / Hëyrn am dëyrn, am dir, a 16.22 Cyfnewid glas waywawr), Philip Brydydd (VI 12.17 Ar dy fawlfar, pâr pymllyng, — na'm gwartha), Dafydd Benfras (VI 29.9 Mygr Fadawg, waywroddawg rhuddgrau), y Prydydd Bychan (VII 11.11-12 Oedd aml am amlaen deulu / Hëyrn traws dëyrn trosti), Gruffudd ab yr Ynad Coch (VII 36.97 Pen tëyrn, hëyrn hëid o'i law) a Llygad Gŵr (VII 24.126 Cyfnewid newyddllas feraw).

¹⁹¹ J.T. Koch, 'De sancto Iudicaelo', a gw. adran 3.2.4.2 uchod. Mae'r ddelweddau hon yn ddiddorol o'i chymharu â'r dystiolaeth a nododd Rowland, 'Warfare', 27, am ddefnydd gwaywffyn tafl gan farchogfilwyr o Lydaw yn y nawfed ganrif.

¹⁹² Gw. CHA §86 a §93 (tt. 138 a 197-200), ac am y farddoniaeth gw. Simms, 'Images of Warfare', 611.

¹⁹³ E.e. Smiley and Kellog *et al.* (trans.), *The Sagas of the Icelanders*, tt. 79, 100, 105, 115, 117 a 128. Un nodwedd arbennig ar rai o'r disgrifiadau hyn yw fod gornestau sengl yn dechrau drwy daflu gwaywffyn, a'r rhyfelwyr wedyn yn defnyddio eu cleddyfau. Mae taflu gwaywffyn hefyd y cael ei grybwyll, fel peth canmoliaethus, yn y darnau o farddoniaeth a geir yn aml yn y sagâu hyn, fel y nododd M.E. Owen, 'Byd Hywel ab Owain Gwynedd', t. 37.

¹⁹⁴ Ross, 'L'originalité de «Tuoldus»', 130 a 135-6. Dadleuodd Ross, 137, fod yr adroddiad am frwydr Roncevaux yn y *Chanson* yn debygol o fod wedi ei gyfansoddi yn ystod traean olaf yr unfed ganrif ar ddeg, er bod rhai elfennau yn awgrymu ei fod yn seiliedig ar stori hyn. (Nododd, yn benodol, fod y dirwedd fynyddig a choediog a ddisgrifir yn fwy cydnaws â dulliau cudd-ymosod nag ag ymwan â gwaywffon lonydd – hynny yw, fe allai'r stori wreiddiol fod wedi disgrifio dulliau brwydro mwy hyblyg, gan gynnwys taflu gwaywffyn, yn cael eu harfer gan y ddwy ochr).

¹⁹⁵ Ross, 'L'originalité de «Tuoldus»', 135-7.

(A thousand Saracens dismount, / And forty thousand are on horseback. / But, I do believe, they dare not approach them! / They throw lances and spears at them, / Wigars, darts, mizraks, agers, and javelins.)¹⁹⁶

Hynny yw, yn y testun hwn – sy'n adlewyrchu ystrydebau a rhagfarnau cyfoes, wrth gwrs – cysylltir gwaywffyn tafl nid yn unig ag estroniaid ond hefyd ag ymddygiad llwfr a dianrhydedd, fel y dywed Ross: 'les Sarrasins, n'osant pas les attaquer corps à corps, ont recours aux armes de trait désuètes et déconsidérées'.¹⁹⁷ Yn yr un modd, er na fynegir y cyfryw feirniadaeth benodol, perthyn i elynion Sarasenaidd y mae'r *gaflachau* neu'r *dardeu* yn 'Rhamant Otuel', ac felly hefyd yn 'Ystorya Bown o Hamtwn'.¹⁹⁸

Awgrymir delwedd ddianrhydedd gwaywffyn tafl mewn testunau o Loegr, hefyd, megis mewn darn o ddisgrifiad Orderic Vitalis o frwydr Tinchebray, Normandi (1106):

Fraudulenti quoque desertores spicula gestabant, sed non firmo corde suo principe adherebant, fugaque magis quam conflictui pro maliuolentia inhiabant.
(Some deceitful deserters brandished javelins, but had no heart in the fight for their prince; their disaffection made them more ready for flight than for battle.)¹⁹⁹

Ac er bod adroddiadau am farwolaeth y dyn a ddaliodd bont Stamford yn anghytuno o ran sut y lladdwyd ef, mae'r ddau fersiwn – naill ai gwaywffon dafl haearn, neu ergyd gan arf oddi isod – yn ei ddisgrifio'n cael ei ladd gan rywun nad oedd yn beiddio ymladd lawlaw ag ef.²⁰⁰ Fel yn achos bwâu saethu, felly, roedd effeithlonrwydd gwaywffyn tafl ar gyfer 'lladd o bell' yn eu gwneud yn beth gwrthun i'r marchogion breintiedig gyda'u harfogaeth ddrud.²⁰¹

Nid delwedd arwrol sydd gan waywffyn tafl mewn testunau Cymraeg bob amser, hyd yn oed. Er bod *gaflachau* Peredur yn arfau effeithiol yn ei ddwylo ef, nid ydynt yn cael eu cymryd o ddifrif gan farchogion llys Arthur, ac mae Peredur yn eu rhoi o'r neilltu ac yn mabwysiadu offer marchogaidd ('knightly') arferol cyn gynted â phosibl – a hynny'n cael ei adlewyrchu yn ei enw, hyd yn oed, wrth iddo ddechrau cael ei alw'n Beredur *Baladyr Hir* yn nes ymlaen yn y stori.²⁰² Yn 'Peredur', felly, mae'r *gaflachau* yn pwysleisio anwybodaeth yr arwr ifanc o arferion y byd ehangach – a chysylltiadau anffodus yr elfen

¹⁹⁶ Brault (ed./trans.), *The Song of Roland*, llau. 2071-5.

¹⁹⁷ Gw. Ross, 'L'originalité de «Tuoldus»', 137.

¹⁹⁸ YCM 83.2-3, 84.21-2, 101.26, 102.28 a 104.9, a YBH llau. 1378 a 1397-8. Yn YCM 84.22 mae *gaflach* yn trosi *gavelot* (gw. ib.n) ond yn YBH mae'n trosi *dart* (gw. geirfa y gyfrol).

¹⁹⁹ *Orderic Vitalis*, VI, tt. 86-7.

²⁰⁰ Gw. Pennod 3, n. 248.

²⁰¹ Gw. Hatto, 'Archery and Chivalry'.

²⁰² Gw. Reck, *The Aesthetics of Combat*, adran 4.4.4, yn cyfeirio at *Peredur* 51.11.

gafll (gw. adran 3.2.1.1) efallai'n cyfrannu at ei ddelwedd letchwith yn y rhan hon o'r stori – ond yn 'Perceval' Chrétien de Troyes fe ychwanegir y syniad fod yr arfau hyn (*gavelos*) yn arwydd o Gymreictod:

A la maniere et a la guise
De Gales fu appareilliez;
.I. revelins avoit chauciez,
Et partout la ou il aloit,
Trois gavelos porter soloit.
Ses gavelos en velt porter,
Mais .ii. en fist sa mere oster
Por che que trop samblast Galois;
Si eüst ele fait toz trois
Molt volentiers, s'il peüst estre.²⁰³

(He was equipped in the Welsh manner and fashion: he wore a pair of shoes made of untanned hide on his feet; and wherever he went he was in the habit of carrying three javelins. He wanted to take his javelins with him, but his mother had two of them taken away, because he would have looked too much like a Welshman; and she would gladly have done the same with all three, had it been possible.)²⁰⁴

Mae'r syniad fod *gaflachau* yn nodweddiadol o'r Cymry yn cael ei adleisio yn 'Y Seint Greal',²⁰⁵ ond ni chyfeirir at Gymreictod yr arwr yn 'Peredur' – yn wir, mae'n debyg ei fod yn hanfod o'r Hen Ogledd.²⁰⁶ Gwahaniaeth arall rhwng 'Peredur' a 'Perceval' yw'r ffaith fod cwestiynau cynharach Perceval am waywffyn y marchogion yn absennol o'r fersiwn Cymraeg, gan awgrymu bod awdur y testun hwnnw'n llai awyddus, o bosibl, i wneud hwyl am ben y syniad o daflu gwaywffyn.²⁰⁷

Mae'n anodd gwybod i sicrwydd o ble y cafodd Chrétien yntau'r syniad fod gwaywffyn tafl yn arfau nodweddiadol o'r Cymry. Er bod rhai ysgolheigion wedi awgrymu bod darnau o stori Peredur, gan gynnwys y disgrifiad o'r arwr yn cychwyn am lys Arthur a'r darlun o

²⁰³ Busby (ed.), *Chrétien de Troyes, Le Roman de Perceval*, llau. 602-11. Crybwyllir gwaywffyn tafl Perceval hefyd yn llau. 95-100, 188-207 a 1111-17.

²⁰⁴ D.D.R. Owen (trans.), *Chrétien de Troyes, Arthurian Romances* (London, 1987), t. 382. Megis yn stori 'Peredur', mae Perceval yn cefnu ar ei waywffyn tafl cyn gynted ag iddo gael y cyfle i fabwysiadu'r un offer â'r marchogion eraill yn y stori.

²⁰⁵ *Y Seint Greal*, 188.7-9 *ef a gymerth un o veirch y dat ac adoeth yr fforest a dyrneit o aflacheu ganthaw herwyd mod y kymry yn yr amser hwnnw a 16-20 Ac ar hynny kymryt un oe aflacheu awnaeth paredur. a bwrw y marchawc ar daryan goch yn gynffestet ac yny oed y gaflach drwy y arueu. athrwydaw ynteu. nyny vyd dan draet y varch yn uarw yr llawr*, a gw. hefyd drafodaeth Reck, *The Aesthetics of Combat*, adran 4.3.3.

²⁰⁶ Gw. *Peredur*, 1.1 *Efracw iarll bioed iarllaeth yn y Gogled . . .* a TYP t. 479, a hefyd Kristen Lee Over, 'Transcultural Change: Romance to *Rhamant*', yn Helen Fulton (ed.), *Medieval Celtic Literature and Society* (Dublin, 2005), tt. 183-205, yn enwedig t. 201: 'Rather than a tale of stereotyped ethnic distinction and failed assimilation, Peredur is a story of noble destiny'.

²⁰⁷ Busby (ed.), *Chrétien de Troyes, Le Roman de Perceval*, llau. 188-207. Mwy cryno yw'r darn cyfatebol yn *Peredur*, 8.20-9.3, a'r arwr yn gofyn beth yw cyfrwy Owain, ac wedyn yn gofyn *beth oed pob peth*. Gwahanol eto yw'r fersiwn Almaeneg 'Parzifal', sy'n cadw'n ôl ei feirniadaeth fwyaf hallt ar waywffyn tafl (*gabylores*) fel arfau dianrhydedd nes disgrifio marwolaeth y marchog Ither, a hynny er mwyn pwysleisio diniweidrwydd yr arwr, yn ôl Hatto, 'Archery and Chivalry', 49: 'Parzifal learns quickly, if literally, and would never have thrown a javelin at Ither if he had been told it was not done. In saving this up Wolfram removes every suspicion that Parzival could have slain Ither in baseness'.

waywffon ysgafn yn mynd i lygad gelyn, yn dychanu neu'n efelychu'r darluniau yn 'Culhwch ac Olwen' neu mewn chwedlau Gwyddeleg,²⁰⁸ nid yw hyn yn ymddangos mor debygol yn achos fersiwn Chrétien o'r stori.²⁰⁹ Mae Constance Bullock-Davies wedi dadlau, drwy ddadansoddi ei gyfeiriadau at enwau lleoedd, fod gwybodaeth Chrétien am Gymru yn llawer llai manwl na'i wybodaeth am dde Lloegr, er awgrymu y gallai fod wedi dod ar draws tywysogion Cymreig o'r De ac o'r Gogledd – ynghyd â'u gosgorddion, eu diddanwyr a'u lladmeryddion – yn ystod eu cysylltiadau diplomataidd â'r Brenin Harri II.²¹⁰ Os felly, fe allai fod wedi cael y syniad fod y Cymry'n defnyddio nifer benodol o waywffyn tafl naill ai drwy glywed am eu harferion cyfoes, neu drwy glywed am eu hen arferion (gwir neu dybiedig), a hynny drwy ffynonellau Cymreig neu Seisnig. Ond rhaid hefyd gydnabod y gallai fod wedi priodoli gwaywffyn tafl i Beredur am y rheswm syml fod hwn yn ddull hen-ffasiwn, yn gyffredinol – sef, y dull a arferid gynt gan y Normaniaid hwythau – a'i fod yn wahanol i ddull brwydro'r marchogion Normanaidd.²¹¹

Yn achos *parau* arian Culhwch, ar y llaw arall, mae'n eglur fod y rhain yn cael eu darlunio fel offer uchelwrol, teilwng i arwr hardd ac ifanc. Ac eto, er y gellir bod yn bur sicr mai gwaywffyn tafl a ddisgrifir,²¹² nid yw Culhwch yn eu taflu yn y stori – yn wir, nid yw Culhwch yn gwneud rhyw lawer o ddim, fel y cyfryw, ac fe allai'r disgrifiad o'i offer a'i ymddangosiad gwych fod wedi'i bwysleisio'n fwiadol er mwyn creu gwrthgyferbyniad digrif â'i segurddod drwy weddill y stori (sy'n canolbwyntio ar weithredodd Arthur a'i wŷr).²¹³ Un o'r ychydig bethau a wna Culhwch, fodd bynnag, yw dal y drydedd waywffon a deflir gan y cawr, Ysbaddaden, a'i thaflu'n ôl fel y bydd yn mynd drwy ei lygad, mewn

²⁰⁸ Gw. Reck, *The Aesthetics of Combat*, adran 4.4.3; Proinsias Mac Cana, *The Mabinogi* (Cardiff, 1977), t. 110, a Sian Echard, 'Of Parody and Perceval: Middle Welsh and Middle English Manipulations of the Perceval Story', *Nottingham Medieval Studies*, 40 (1996), 63-79.

²⁰⁹ Mae Rodway, 'The Date and Authorship of *Culhwch ac Olwen*', yn ei ffurf bresennol, yn hŷn nag ail hanner y ddeuddegfed ganrif – hynny yw, fe allasai fod bron yn gyfoes â gwaith Chrétien, neu'n ddiweddarach.

²¹⁰ Constance Bullock-Davies, 'Chrétien de Troyes and England', *Arthurian Literature*, 1 (1981), 1-61. Rwy'n ddiolchgar i Mr Scott Lloyd am dynnu'r erthygl hon i'm sylw ac am drafodaethau am ddelwedd gwaywffyn tafl a'i harwyddocâd mewn chwedlau Arthuriaidd.

²¹¹ Gellid cymharu'r disgrifiad o offer yr Almaenwyr yn ôl y *chanson de geste Aymeri de Narbonne*; gw. Hanley, *War and Combat*, t. 150: 'the strange clothing, long swords and round shields of the Germans (1622-9) are not only intended to be comically old-fashioned, but also embody the cultural gap between these "barbarians" and the modern, civilized French noblemen'.

²¹² Hyn oherwydd y ffaith ei fod yn cludo dau ohonynt, ynghyd â'r enw *pâr* ei hun, a ddefnyddir ar gyfer gwaywffyn tafl ym 'Math fab Mathonwy' (gw. adran 3.2.4.2).

²¹³ Gw. Echard, 'Of Parody and Perceval', 69, sy'n nodi mai'r gwrthwyneb sy'n wir yn stori Peredur/Perceval, ac yntau'n cyflawni llawer mwy er bod ei ymddangosiad ar ddechrau'r stori yn destun gwarth.

episod sy'n dangos nifer o gyffelybiaethau â storïau o Iwerddon.²¹⁴ Ym 'Math fab Mathonwy', hefyd, gelyn yr arwr, sef Gronwy, sy'n taflu gwaywffon gyntaf, ac yn yr achos hwn pwysleisir ei ymddygiad dianrhydedd nid yn unig am ei fod yn ymosod yn ddirybudd, ond hefyd am ei fod wedi paratoi'r waywffon drwy broses arbennig y dysgodd amdani drwy dwyll gwraig Llew.²¹⁵ Ar ôl cyfnod, mae Llew yn hawlio ei ddial drwy daflu gwaywffon yn ôl at Ronw, felly mae'n amlwg ei fod ef – megis Culhwch – yn gyfarwydd â'r dull brwydro hwn, er nad yw'r un o'r arwyr hyn yn cael eu darlunio'n taflu gwaywffon o ddewis.

Gellid cymharu'r episodau hyn, a stori Llew yn arbennig, â'r *Vera Historia de Morte Arthuri*, a hwnnw'n destun y credir iddo gael ei gyfansoddi gan glerigwr Cymreig yng Ngwynedd, tua 1200. Mae un rhan o'r testun byr hwn yn disgrifio sut y cafodd Arthur glwyf marwol, ac yntau eisoes yn flinedig, yn glwyfedig ac wedi diosg ei arfau:

Rege igitur exarmato, ecce quidam adolescens – pulcher aspectu, statura procerus, forma membrorum magnarum uirium preferens uirtutem – carpebat iter, eque tergo insidens, dextram uirga hulmea habens munitam. Que rigida erat, non torta neque nodosa sed plana, et cuspidate acuta ad modum lancee (sed quauis lancea ad nocendum acutior) – siquidem preterito tempore artificis industria ad ignem rigida effecta (rigorque non dispari studio aquarum temperatus humore), et uipereo infecta ueneno ut, quod forte iaculata minus noceret pro iaculantis defectu uirium, uirus suppleret.

(When the king had been disarmed, suddenly a certain youth – handsome in appearance, tall in stature, evoking by the shape of his limbs a strength of immense power – took to the road, sitting on the back of a mare, with his right hand armed by a shaft of elm. This shaft was stiff, not twisted or knotted but straight, and sharpened to a point in the manner of a lance (yet sharper for inflicting injury than any lance) – since indeed in times gone by it had been fired to make it hard (and its hardness had been tempered with equal care by plunging it in water), and it had been daubed with adders' venom so that, what it might perhaps harm less when cast as a result of a deficiency in strength in the person casting it, the poison would make up for.)²¹⁶

Mae'r llanc wedyn yn taflu'r paladr at Arthur yn ddirybudd, gan ei glwyfo, ond mae Arthur yn taflu'r paladr yn ôl ato ac yn ei ladd wrth iddo geisio ffoi. Darlun cymysg a gyflwynir o'r llanc – dywedir ei fod yn hardd, ac yn ddigon cydnerth fel bod rhaid tybied y gallai ddefnyddio arfau arferol, pe mynnai, ac eto mae'n defnyddio arf wedi ei baratoi'n arbennig fel nad oes angen unrhyw gryfder i'w ddefnyddio. Mae paratoadau'r arf tafl yn dwyn i gof stori Llew, ac felly hefyd natur ddianrhydedd yr ymosodiad a'r ffaith fod y dynion sy'n cael

²¹⁴ CO llau. 521-58. Yn *Scéla Muicce Meic Dá Thó* disgrifir dwy waywffon yn cael eu taflu'n ôl (er heb ddweud iddynt gael eu dal yn yr awyr), a'r ail yn taro llygad y dyn arall, ac yn chwedl farwolaeth Fergus Mac Róich mae'r arwr yn taro'n ôl y waywffon sydd wedi rhoi clwyf marwol iddo (CHA §80/10 a 11 a §85). At hynny, gwaywffon o bren celynnen (*bir cuilind*) – cymh. *gaflacheu kelyn* Peredur – a deflir at Midir yn *Tochmarc Étaíne*, gan ddallu un o'i lygaid (CHA §89 (t. 148), a Bergin and Best (eds.), *Tochmarc Étaíne*, I.9). Mae paralel arall wedi'i awgrymu rhwng yr episod hwn a'r stori Wyddeleg am Balor Birugderc ('of the piercing eye') er bod ei lygad ef yn cael ei ddinistrio â charreg o sling yn hytrach nag â gwaywffon (gw. O'Rahilly, *Ireland and Wales*, t. 118, a hefyd n. 182 yn Reck, *The Aesthetics of Combat*).

²¹⁵ PKM tt. 86-92.

²¹⁶ Lapidge (ed.), 'The *Vera Historia de Morte Arthuri*: a New Edition', tt. 132-5. Diolchaf i Mr Scott Lloyd am dynnu'r testun hwn i'm sylw a'i drafod â mi.

eu clwyfo yn cael eu dial gan ddefnyddio'r un arf, neu'r un math o arf.²¹⁷ Mae'r *Vera Historia* yn wahanol, ar y llaw arall, o ran y cyfeiriad eglur at wenwyn, y ffaith fod y llanc yn marchogaeth ceffyl, a'r dirgelwch o ran pwy ydyw a beth oedd ei gymhellion. Yn y ddau achos, mae'n eglur mai'r pwynt yw fod angen arf arbennig i drechu arwyr mor rymus, ond ni ellir dweud bod unrhyw beth cadarnhaol am yr arbenigrwydd hwnnw yn y naill stori na'r llall.

At ei gilydd, felly, ymddengys nad oedd awduron y testunau rhyddiaith hyn yn rhannu agwedd gadarnhaol y beirdd Cymraeg tuag at waywffyn tafl. Iddynt hwy nid oedd yr arfau hyn yn ddewis arfau marchogfilwyr arwrol, ond yn hytrach yn bethau a ddefnyddid gan filwyr ifanc, dibrofiad (er y gallent fod yn uchelwrol) neu gan gynllwynwyr a llofruddwyr, er bod ffigurau arwrol yn gwybod sut i'w defnyddio hefyd os oedd angen.²¹⁸ Nid oeddynt ychwaith, yn eu cysylltu'n arbennig â marchogfilwyr – er bod y llanc yn y *Vera Historia* ar gefn ceffyl, ac er bod Peredur/Perceval yn marchogaeth wrth daflu ei arf, nid oes unrhyw awgrym fod y ceffyl yn rhan bwysig o'r dull hwn. Yn hytrach, darlunnir dull y waywffon lonydd fel y dull mwyaf effeithiol, a mwyaf anrhydeddus, o frwydro â gwaywffon oddi ar gefn ceffyl, a hynny yn achos arwyr brodorol megis Peredur a Geraint yn ogystal â rhai o Loegr a Ffrainc megis Bown a Rolant.²¹⁹

Erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg, mae'r disgrifiadau o frwydro yn 'Fouke le Fitz Waryn' yn dangos bod *literati* y Mers, o leiaf, yn ystyried y byddai tywysogion Cymreig wedi defnyddio'r un math o offer a dulliau brwydro â marchogion o Loegr. Dywed y stori hon fod *Yweyn, le prince de Gales* (sef Owain Gwynedd) wedi mynychu twrnamaint, gan roi disgrifiad o arfbais ei fab *Yervard* (sef Iorwerth Drwyndwn).²²⁰ At hynny, y tebyg yw mai dull y waywffon lonydd a olygir yn y disgrifiad o Owain Cyfeiliog, a elwir yn *chevalier hardy e fer*, yn ymosod ar Fouke le Brun â gwaywffon o bren onnen.²²¹ Adlewyrchiad yw

²¹⁷ Gw. Richard Barber, 'The *Vera Historia de Morte Arthuri* and its Place in Arthurian Tradition', yn Carley (ed.), *Glastonbury Abbey and the Arthurian Tradition*, tt. 101-13 (tt. 109-110), a Lapidge, 'The *Vera Historia de Morte Arthuri*: a New Edition', t. 124 (n. 46), sy'n nodi nifer o gyffelybiaethau â chwedlau Cymraeg.

²¹⁸ Ni ellir dweud, ar y llaw arall, fod y Cymry hwythau'n ystyried yr arfau hyn fel pethau a gysylltid ag estroniaid. Digwydd y syniad hwn mewn storïau a gyfieithwyd, yn unig, ac wrth gwrs arfau Cymreig yw'r gwaywffyn tafl yn 'Perceval' – gellid dweud, yn wir, mai'r Cymry yw'r estroniaid yn y fersiwn hwn o'r stori, megis y Saraseniad yn storïau Siarlymaen ac 'Ystoria Bown o Hamtwn'.

²¹⁹ Gw. Reck, *The Aesthetics of Combat*.

²²⁰ *Fouke* 3.38 a 19.32-4.

²²¹ *Fouke* 20.20-3 *Atant vynt Yweyn Keveylloke, un chevalier hardy e fer, e de une launce de freyne fery Fouke parmy la voyde du corps, e la launce debrusa, e le tronchoun remist en le cors, mes les entrayles ne furent rien entameez*, a gw. Ohlgren (trans.), *Outlaws*, t. 127: 'Then Owain Cyfeiliog, a bold and proud knight, came

hynny o'r sefyllfa gyfoes ar y Gororau, wrth gwrs, yn hytrach nag o arferion y ddeuddegfed ganrif, ond mae'n dal i fod o ddiddordeb fel tystiolaeth am ganfyddiadau o ddulliau brwydro Cymreig ac o gymathiad diwylliannol yn gyffredinol.²²²

Ni fyddai'r marchog gyda'i waywffon lonydd yn cael y sylw i gyd drwy weddill yr Oesoedd Canol, er hynny. Fel y nodwyd yn adran 2.10, o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen byddai'r bwa saethu yn dechrau cael ei gysylltu ag arwyr poblogaidd, a hwythau'n defnyddio arfau'r 'gŵr cyffredin' i herio'r sefydliad. Cydnabyddir bod 'Fouke le fitz Warin' ymhlith 'cyndeidiau' chwedlonol Robin Hood, ac mae'n ddiddorol nodi bod y stori hon, serch ei bortreadau o farchogion yn ymwan â gwaywffyn llonydd, hefyd yn cyfeirio mewn cyd-destunau cadarnhaol at ddilynwyr Seisnig a Chymreig yr arwr yn saethu â bwâu croes ac yn taflu dartiau.²²³

Yn anffodus, ni all y storïau hyn, na cherddi'r beirdd, ddweud wrthym a oedd y tywysogion Cymreig yn brwydro â gwaywffyn llonydd mewn gwirionedd ai peidio. Ond mae'r ffaith na ddewisodd y beirdd eu portreadu fel hyn, er gwaethaf cryfder y ddelweddaeth a fynegid mewn chwedlau, yn dangos mor gryf oedd y ddelweddaeth frodorol, ac mor annibynnol oedd meddylfryd y beirdd hwythau. Diau fod confensiynau barddol wedi cael rhan ym mharhad y ddelwedd o dywysogion yn 'hau' gwaywffyn hyd at amser Llywelyn ap Gruffudd, ond ni all hynny fod yn ddiwedd y stori, o ystyried bod math arall o offer 'traddodiadol', sef tarianau crwn, wedi diflannu o gerddi'r beirdd ar ôl y 1230au (gw. yr adran nesaf).

Un posibilrwydd yw fod y cerddi yn adlewyrchu realiti, o leiaf i raddau. Hynny yw, gallai taflu gwaywffyn fod wedi parhau fel dull brwydro ymarferol hyd y drydedd ganrif ar ddeg, a hynny nid yn unig gan droedfilwyr Cymreig ond hefyd gan rai marchogfilwyr. Neu fel arall, gallai'r beirdd fod wedi dewis trosglwyddo i'w noddwyr bonheddig ddull a oedd yn

and, with a lance of ash, struck Fouke through the pit of his stomach. The lance broke and the stump remained in his body; the bowels, however, were not damaged'. Oherwydd grym yr ergyd a ddisgrifir, y tebyg yw mai dull y waywffon lonydd a olygir, er na ddywedir hyn yn benodol.

²²² Roedd marchogion ('knights') Cymreig yn sicr yn realiti erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg, fel y dengys enwau Cymraeg rhai o ddeiliaid 'knight's fees' yn arglwyddiaethau'r Gororau, ac roedd herodraeth wedi dod yn boblogaidd yn y parthau hynny yn ystod y ganrif flaenorol – mabwysiadodd Morgan ap Lleision, arglwydd Afan, arfbais a oedd yn adlewyrchu arfbais y teulu Clare, arglwyddi Morgannwg, yn ogystal â chael ei urddo'n farchog (gw. Lieberman, *The March of Wales*, tt. 62 a 68).

²²³ *Fouke* 35.28-30 *e des quarels e autres dartz launcerent e gitterent a les gentz le roy*. Mae'r cyd-destun, a'r arwyr wedi creu clawdd i'w hamddiffyn eu hunain, yn addas ar gyfer arfau tafl. Crybwyllir croesfwawyr Fouke mewn darnau eraill o'r stori, hefyd (gw. adran 2.11).

cael ei arfer erbyn yr adeg honno gan droedfilwyr yn unig. Hyd yn oed os parhad hen ystrydebau o'r 'Gododdin' a cherddi cynharach eraill oedd y prif reswm am hirhoedledd y ddelweddaeth hon, byddai parhad y dull ymhlith troedfilwyr wedi dal yn bwysig nid yn unig wrth atgoffa'r gynulleidfa fod y dulliau a ddisgrifid yn y cerddi yn rhai ymarferol,²²⁴ ond hefyd wrth gryfhau'r syniad bod taflu gwaywffyn yn ddull nodweddiadol Gymreig – neu'n hytrach, yn ddull a berthynai yn arbennig i wŷr Gwynedd.²²⁵ Hynny yw, trwy gynnwys gwaywffyn tafl ymysg eu disgrifiadau eraill o'r tywysog, ar gefn ei geffyl a chyda'i holl offer gwych, byddai'r beirdd nid yn unig yn cysylltu'r tywysogion ag arwyr y gorffennol, ond hefyd yn pwysleisio'r gwahaniaeth rhyngddynt a'r Saeson. Os cywir hyn, gellid cymharu defnydd Chrétien de Troyes o waywffyn tafl i bwysleisio Cymreictod Perceval a'r gwahaniaeth rhyngddo a marchogion llys Arthur, er mor wahanol ei ddibenion llenyddol yntau (gw. uchod, yn yr adran hon).

Gallai'r awydd hwn i 'bwysleisio'r gwahaniaeth' hefyd fod wedi peri i'r beirdd beidio â rhoi rhyw lawer o sylw i ddull y rhuthr â gwaywffon lonydd. Neu, wrth gwrs, fe allent fod wedi gwneud hyn am y rheswm syml nad oedd hwn yn ddull a arferid yn aml gan wrthrychau eu cerddi mawl. Yn wir, mae'n bosibl iawn fod y ddau beth hyn yn wir i wahanol raddau, wrth i arferion brwydro ddatblygu yn ystod cyfnod y tywysogion. Ni fyddai'n beth rhyfedd pe bai beirdd yn troi fwyfwy at bwysleisio gwahaniaethau ar yr union adeg pan oedd y gwahaniaethau hynny yn mynd yn llai sylweddol mewn gwirionedd, megis yn y blynyddoedd o wrthdaro â'r Saeson yn ystod teyrnasiad Llywelyn ap Gruffudd. Fe all fod yn arwyddocaol, felly, fod un o'r delweddau mwyaf trawiadol o dywysog yn 'hau' *hëyrn* yn digwydd tua diwedd marwnad enwog Gruffudd ab yr Ynad Coch i'r Llyw Olaf (CBT VII 36.97). Yn wir, gall mai cymhellion tebyg a barodd i Fleddyn Fardd ddefnyddio'r gair *llasar* yn ei farwnad i Ddafydd, brawd Llywelyn, a hwnnw'n air nad oes unrhyw enghraifft arall ohono yng ngherddi Beirdd y Tywysogion ar ôl cyfnod Prydydd y Moch.

²²⁴ Cymh. M.E. Owen, 'Literary Convention and Historical Reality', 84 (wrth drafod ymdriniaethau'r beirdd â bywyd y llys): 'such topos and convention would have had no validity unless they had some contact with historical reality'.

²²⁵ Roedd Cymry'r De, megis y Saeson, yn defnyddio bwâu saethu fel eu prif arfau tafl, ond mae'r diffyg tystiolaeth am ddefnydd bwâu gan wŷr Gwynedd yn awgrymu y gallent fod wedi defnyddio gwaywffyn tafl i lenwi'r bwlech tactegol hwn (gw. adran 2.10). Mae'n wir fod un o'r cyfeiriadau a drafodwyd uchod yn disgrifio milwyr o Loegr yn 'hau' *hëyrn* (CBT V 10.27-8), a bod amheuaeth ynghylch pwy sy'n 'hau' *glas feraw hëyrn* Cynddelw (IV 4.27), ond fe all fod yn arwyddocaol fod y cyfeiriadau hyn yn perthyn i ail hanner y ddeuddegfed ganrif yn hytrach nag i'r drydedd ganrif ar ddeg.

4.6 Ffurf ac addurn tarianau ac agwedd y beirdd at herodraeth

Fel y trafodir yn adran 3.13.2, mae tystiolaeth megis darluniau carreg Eglwysilan a chroes Conbelin yn awgrymu bod tarianau crwn yn bwysig yng Nghymru yn y cyfnod cyn-Normanaid. Yn wir, mae'r darganfyddiadau o Ddinas Powys yn dangos y gallai rhai o'r tarianau hynny fod wedi bod yn debyg iawn i darianau'r Eingl-Sacsoniaid, er y gall mai math gwahanol o darian gron, lai ei maint, a ddefnyddid gan farchogfilwyr. Newidiodd pethau yn Lloegr yn yr unfed ganrif ar ddeg, pan gyflwynwyd tarianau barcud, a'r rheini'n datblygu nes cyrraedd ffurf y darian 'haearn smwddio' erbyn dechrau'r drydedd ganrif ar ddeg (gw. adran 2.13.3). Mae tystiolaeth o ddarluniau megis y llun yn llsgr. Peniarth 28, a chyfeiriadau mewn chwedlau, yn awgrymu bod tarianau pigfain yn gyfarwydd yng Nghymru erbyn y drydedd ganrif ar ddeg, os nad yn gynharach, ac o ganol y ganrif honno ymlaen ceir cyfeiriadau at arfbais herodrol a gysylltid â thywysogion Gwynedd. Rhaid nodi, er hynny, fod y rhan fwyaf o'r cyfeiriadau hynny yn dod o'r tu allan i Gymru – er bod darlun o arfbais Llywelyn ap Gruffudd yn llsgr. Peniarth 21, 'posibilrwydd' yn unig yw dyddio hwn cyn 1282, yn ôl dadansoddiad Daniel Huws.²²⁶ Yn wir, dadleuodd Colin Gresham nad oedd herodraeth yn gweithredu 'in a normal manner' yng ngogledd Cymru yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg, hyd yn oed, gan awgrymu y gallai'r tywysogion Cymreig fod wedi ystyried dyfeisiau herodrol fel pethau estron a pheryglus a berthynai i'r gelyn.²²⁷ Fel yn achos y waywffon 'couched', felly, mae'r cwestiwn i ba raddau y mae tarianau pigfain, a herodraeth, wedi'u crybwyll yng ngherddi'r beirdd yn un perthnasol iawn o ran dylanwadau Eingl-Normanaid neu Ffrengig yng Nghymru, ac o ran agwedd y beirdd tuag at y dylanwadau hynny.

Yn 'Y Gododdin' y ceir y mynegiant cynharaf, o bosibl, o'r ddelwedd o arwr Cymreig a chanddo darian gron, gan ddefnyddio'r geiriau *rhodawg*, neu *rhodawr*, a *cylchwy*. Mae enghreifftiau eraill o *rhodawg* a *cylchwy* ymhlith yr Hengerdd, ac fe ddefnyddid y ddau air hyn gan Feirdd y Tywysogion, ynghyd â'r gair *rhod*, fel termau am darianau crwn. At hynny, mae'n werth nodi bod *cylchwy* yn cael ei gysylltu â *march* yn 'Aduwyneu Taliessin', a bod dwy o gerddi Cynddelw yn crybwyll *rhodawg* mewn perthynas â marchogfilwr.²²⁸ Mae'r ddelwedd hon yn gydnaws â'r darluniau ar groes Conbelin ac ar gerrig Pictaidd

²²⁶ Gw. D. Huws, 'Y Pedair Llawysgrif Ganoloesol', t. 5: 'Gellid dadlau i'r ychwanegiad hwn . . . gael ei wneud cyn 1282; ni ellid ymwrthod â'r posibilrwydd hwn ar sail balaeograffyddol'.

²²⁷ *Medieval Stone Carving in North Wales*, tt. 36-8, a gw. adran 2.13.3 uchod (yn enwedig n. 928).

²²⁸ LPBT 3.17 *Atwyn march ac eurgalch gylchwy*; CBT III 16.141-2 *Coch rhodawg pedrydawg pedror / I ar orwydd pedrongl pedreinddor*, a IV 6.256 *Gnawd rhodawg rhag marchawg midlan*.

megis carreg Aberlemno o farchogfilwyr a chanddynt darianau crwn. Ac mae'n bosibl na fyddai'r cyfryw ddarluniau wedi ymddangos yn anacronistig hyd yn oed yn y ddeuddegfed ganrif, am na wyddom pa bryd yn union y dechreuodd y tywysogion fabwysiadu tarianau pigfain, ac wrth gwrs fe allai tarianau crwn fod wedi parhau i gael eu defnyddio hyd yn oed ar ôl yr adeg honno. Un peth sy'n eglur, fodd bynnag, yw fod y ddelwedd o farchogfilwr a chanddo darian gron yn wahanol i ddelwedd marchogion Lloegr yn y ddeuddegfed ganrif, gan awgrymu y gallai tarian gron, megis gwaywffyn tafl, fod wedi ei dehongli fel arwydd o Gymreictod gan y beirdd a'u cynulleidfaoedd.

Gellid disgwyl, felly, y byddai'r beirdd wedi parhau i gynnwys tarianau crwn yn eu cerddi hyd yn oed wrth ganmol Llywelyn ap Gruffudd – neu efallai yn enwedig wrth ei ganmol ef, fel a awgrymwyd uchod ar gyfer gwaywffyn tafl – ni waeth a oedd yr offer hyn yn parhau i gael eu cario gan y tywysogion ai peidio. Ond nid yw'n ymddangos bod hynny wedi digwydd. Perthyn i'r ddeuddegfed ganrif y mae'r holl enghreifftiau o'r gair *cylchwy* 'tarian gron' yng nghorpws cydnabyddedig canu Beirdd y Tywysogion,²²⁹ ac mae'r enghreifftiau diweddarach o *rhod* a *rhodawg* gan y beirdd hyn mewn cerddi a ddyddiwyd i 1215-20 ac i 1236 (gw. uchod, adran 4.2.2).

Ymddengys, felly, fod tarian gron yn cael ei hystyried gan y beirdd fel ategolyn priodol i dywysog hyd at draean cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg, ond nid ar ôl hynny. Ni ellir dweud bod tarianau pigfain wedi 'cymryd drosodd' yn eu cerddi, fodd bynnag, am nad oes unrhyw air y gellir dweud ei fod yn dynodi'r ffurf hon yn bendant.²³⁰ Nid oes rhyw lawer o ddisgrifiadau manylach sy'n rhoi awgrym am ffurf tarianau, ychwaith, er tynnu sylw at ddwy enghraifft bosibl yn adran 3.13.2. Dadleuwyd yno fod tarian farcud yn ymddangos yn fwyaf tebygol ar gyfer *llasar* Cynddelw yn CBT III 23.5-6 *Cleddyf clod wasgar a wisgaf ar glun / Rhwng fy llun a'm llasar*, a bod cyfeiriad Einion ap Gwalchmai at darian ar *erddyrn* ('arddyrrnau') Llywelyn ab Iorwerth (I 25.5-6) yn fwy cydnaws ag *enarmes* tarian bigfain nag â gafael soled tarianau crwn fel eiddo'r Eingl-Sacsoniaid, a ddelid yn y llaw (er bod

²²⁹ Gall fod enghraifft ychydig yn ddiweddarach o waith Prydydd y Moch, os ef a ganodd 'Aduwyneu Taliessin' (gw. LPBT 3.17 *Atwyn march ac eurgalch gylchwy*), ond nid cerdd fawl yw hon. (Am awduraeth y gerdd hon a cherddi eraill o Lyfr Taliesin gw. Haycock, LPBT, tt. 27-36).

²³⁰ Gw. adran 3.13.1, yn enwedig y drafodaeth am ystyr *tarian*. Ymddengys fod *tarian*, fel *ysgwyd*, wedi'i ddefnyddio fel gair generig am darian o unrhyw ffurf, a bod ei amlygrwydd mewn testunau rhyddiaith yn gysylltiedig â'r ffaith ei fod wedi disodli'r hen air *ysgwyd* yn y rhan fwyaf o gyd-destunau, yn hytrach na bod ganddo gysylltiad arbennig â tharianau o ffurfiau newydd. Yn yr un modd, gallai'r ffaith fod *ysgwyd* yn fwy cyffredin na *tarian* yng ngherddi'r beirdd ddangos natur geidwadol eu geirfa – a'u hoffter o hen drawiadau megis *ysgwyd ar ysgwydd* – yn hytrach nag awgrymu mai tarian gron a olygir bob amser.

enarmes yn medru cael eu defnyddio i ddal tarian gron hefyd, fel yn achos *targes* neu *targets* diweddarach).

Gellid chwilio'n anuniongyrchol am dystiolaeth am darianau pigfain, ac am ddylanwadau Eingl-Normanaid neu Ffrengig yn gyffredinol, drwy ystyried a oedd y beirdd yn sôn am herodraeth o gwbl. Os yw'r cyfeiriadau at arfbais tywysogion Gwynedd yn ystod ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg yn adlewyrchiadau cywir o'r sefyllfa yng Nghymru (gw. adran 2.13.3), gellid tybied y byddai'r arfbais yn rhan bwysig o ddelwedd tywysog ymhlith ei bobl. Ond er bod y beirdd yn ddigon hoff o gymharu tywysogion, yn gyffredinol, â llewod ac ag anifeiliaid ffyrnig eraill, ni ellir cysylltu'r cyfeiriadau hyn â'r pedwar llew coch ac aur ar arfbais tywysogion Gwynedd.²³¹ Yn wir, awgrymodd Michael Powell Siddons fod cysylltiad rhwng Owain Gwynedd ac eryrod Eryri ym meddyliau'r beirdd yn ymddangos yn fwy tebygol, a'r arfbais a briodolwyd iddo'n ddiweddarach o bosibl yn tarddu o draddodiad a adlewyrchir yn llinellau Prydydd y Moch, CBT 25.43-4 *Dywawd derwyddon dadeni haelon / O hil eryron o Eyri*.²³² Ni fyddai hynny'n golygu bod yr arfbais ei hun wedi bodoli adeg Prydydd y Moch, er hynny – yn wir, gall mai'r peth agosaf at symbol a gysylltir ag unigolyn yn y cerddi dan sylw yma yw'r *lluman* yn AP 129-30 ('Armes Prydein') *A lluman glan Dewi a drychafant. / y tywyssaw Gwydyl trwy lieingant*, er na chrybwyllir unrhyw ddyfais benodol ar y faner hon.

Y disgrifiad eglur cynharaf o arfbais herodrol gan fardd Cymraeg a nodwyd gan Siddons yw darn o gerdd Gruffudd Gryg i Einion ap Gruffudd ap Hywel o Chwilog yn Eifionydd, a ddyddiwyd i tua 1351-9, a'r un arfbais – yn perthyn y tro hwn i frawd Eifion, sef Syr Hywel 'y Fwyall' – wedi'i disgrifio hefyd gan Iolo Goch.²³³ Cyfeiriodd Iolo Goch at arfbais Syr Rosier Mortimer mewn cerdd arall, gan ddefnyddio ei phedwar lliw at ddibenion trosiadol

²³¹ Er defnyddio'r gair *llew* yn aml wrth ganmol tywysogion mae'r ffurf luosog *llewod* yn anghyffredin yn y cerddi, gan ddisgrifio naill ai poenau uffern (CBT VI 24.34 a VII 40.38) neu gadernid ergydion rhyfelwyr (II 14.67), ac nid oes unrhyw sôn am bedwar llew gan y beirdd. Nododd Siddons, *The Development of Welsh Heraldry*, I, tt. 71-2, fod tywysogion o ranbarthau eraill, yn ogystal â Gwynedd, yn cael eu cyffelybu i lewod, a bod tywysogion Gwynedd yn cael eu cyffelybu yn aml i anifeiliaid eraill. Rhestrodd Lloyd-Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes', 172, nifer o anifeiliaid a ddefnyddid yn ffigurol am arwyr 'Y Gododdin', sef *arth, blaidd, llew, tarw, twrch, baedd, draig, eryr, sarff ac ych*, ynghyd ag *aergi a chatgi*. Roedd llew yn drosiad cyffredin o ddyn dewr wrth gwrs, e.e. II Samuel 17:10 *Yna fe fydd ysbryd y cryfaf, yr un â chalon fel llew, yn darfod yn llwyr*, a Diarhebion 28:1 *Y mae'r drygionus yn ffoi heb i neb ei erlid, ond fe saif y cyfiawn yn gadarn fel llew*.

²³² Siddons, *The Development of Welsh Heraldry*, I, tt. 71-2, a gw. hefyd t. 288, sy'n nodi bod yr arfbais ('Vert, three eagles displayed in fess Or') wedi'i disgrifio gan y bardd Gutun Owain tua diwedd y bymthegfed ganrif ac wedi'i dangos ar blac pres mewn eglwys yn Nolwyddelan er cof am Faredudd ab Ieuan ap Robert (m. 1525).

²³³ Siddons, *The Development of Welsh Heraldry*, I, t. 73-180.

wrth eu cysylltu â phedair gwlad wahanol,²³⁴ ond y bardd cyntaf a wnaeth ddefnydd helaeth o herodraeth oedd Lewys Glyn Cothi, ac yntau hyd yn oed wedi cynnwys darluniau lliw o arfbeisiau uwchben llawer o'i gerddi.²³⁵

Mae'n ymddangos, felly, fod y beirdd Cymraeg yn gyffredinol yn bur araf i fabwysiadu syniadau herodrol, hyd yn oed ar ôl cwmp y tywysogion. Efallai na ddylid rhyfeddu, felly, at y ffaith nad oes gan Feirdd y Tywysogion hwythau gyfeiriadau pendant at herodraeth, ac yn sicr ni ellir defnyddio eu tawedogrwydd fel rhan o'r ddadl ynghylch defnydd herodraeth gan y tywysogion. Serch hynny, o ystyried y ffaith nad ydynt yn crybwyll tarianau pigfain yn bendant, ychwaith, mae'n werth gofyn a oes cyfeiriadau cudd neu amhendant at herodraeth yn eu cerddi. Un enghraifft bosibl a drafodir yn adran 3.13.6 yw CBT V 19.7-8 (Prydydd y Moch) *I'th ysgwyd tebygwyd, torf wŷn, / Ysgwyd ball guall Guhelyn*, a Patrick Sims-Williams wedi awgrymu bod y bardd yn cymharu tarian Llywelyn ag arfbais liwgar a briodolwyd yn ddiweddarach i Guhelyn Fardd.²³⁶ Ac eto, hyd yn oed os ei arfbais ef oedd ym meddwl Prydydd y Moch, ni fyddai hyn yn profi bod gan Lywelyn ei arfbais ei hunan, am y gallai'r bardd fod yn canmol math arall o addurn a oedd gystal ag arfbais, yn ei dyb ef. Nid oedd pob math o addurn, neu hyd yn oed bob math o batrwm paentiedig, yn ymwneud â herodraeth hyd yn oed ymhlith y Normaniaid. Mae tapestri Bayeux yn dangos amrywiol batrymau, a hynny bron ganrif cyn datblygiad herodraeth fel system ffurfiol, ac roedd defnyddio tarianau addurnedig i adnabod unigolion neu garfanau o filwyr yn arfer cyffredin gan yr Eingl-Sacsoniaid a chan y Rhufeiniaid Diweddar (gw. adrannau 2.13.2 a 2.13.3).

Mae cyfeiriadau'r beirdd at *calch*, *eurgalch* a (*calch*) *llasar* yn sicr yn ategu'r syniad fod addurn ar darianau yn bwysig, boed hwnnw ar ffurf paent, lledr lliwiedig neu ryw fath o addurn euraid (gw. adran 3.13.3). Mae'n drawiadol fod *eurgalch* a *llasar* yn fwy cyffredin yng ngherddi Beirdd y Tywysogion nag yn yr Hengerdd – yn wir, nid yw'r gair *llasar* yn digwydd o gwbl yn yr Hengerdd, ac nid oes ond un enghraifft o *eurgalch*, a honno yn 'Aduwyneu Taliessin' (LPBT 3.17), sef cerdd a allai fod wedi'i chanu gan Brydydd y Moch, fel y mae Marged Haycock wedi awgrymu.²³⁷ Nid oes ond un enghraifft o *eurgrwydr*, hefyd, o blith yr Hengerdd, a honno yn 'Y Gododdin', er dadlau yn adran 3.13.3 y gall mai cyfeiriad at ddifrod, yn hytrach nag addurn, yw'r enghraifft hon. Nid yw'r naw

²³⁴ Siddons, *The Development of Welsh Heraldry*, I, t. 74-5, a GIG cerdd 20.

²³⁵ Siddons, *The Development of Welsh Heraldry*, I, t. 71.

²³⁶ Sims-Williams, 'Irish Elements in Late Medieval Welsh Literature'.

²³⁷ LPBT tt. 27-36.

enghraifft o *eurgrwydr* gan Feirdd y Tywysogion yn rhyw lawer o gymorth o ran dehongli union ystyr y gair – yn wir, mae'n bosibl nad oedd y beirdd hwythau'n siŵr iawn, ac mae'r ffaith ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun Rhufeinig yn 'Breuddwyd Maxen', ond fel elfen ar y cyd â rhywbeth sy'n ymddangos fel dyfais herodrol yn 'Peredur', yn awgrymu dryswch ymhlith awduron y chwedlau hwythau.²³⁸

Mae hynny i gyd yn awgrymu bod Beirdd y Tywysogion yn fwy ymwybodol o wahanol fathau o addurn nag yr oedd y beirdd cynharach, gan adlewyrchu o bosibl y cyfeiriadau at *eurgalch* a *calch llasar* yn y cyfreithiau Cymreig, a'r rhan bwysig y mae *calch llasar* – sef math o baent glas neu ddisglair, fwy na thebyg – yn ei chwarae yn stori Manawydan fel lliw ar gyfrwyau ac ar darianau (gw. adran 3.13.3). Ni ellir dweud mai dylanwad herodraeth fu'n gyfrifol am hyn, fodd bynnag, am y gallai'r lliwiau fod wedi'u defnyddio ar eu pennau eu hunain ar darian unlliw, neu wrth greu'r math o batrymau a ddangosir ar y darian yn llsgr. Peniarth 28 ac ar sêl Lleision ap Morgan.²³⁹ Byddai diddordeb cynyddol mewn addurn – ni waeth a oedd iddo arwyddocâd arbennig (fel yn achos herodraeth) ai peidio – yn gyson, fodd bynnag, ag un o gasgliadau Alaw Mai Jones mewn perthynas â gwisgoedd:

yn yr Hengerdd y mynegwyd gwerthfawrogiad gyntaf o'r berthynas oesol honno rhwng gwisg a statws. Caiff hyn ei ymestyn trwy'r llenyddiaeth sy'n dilyn, ac uchafbwynt y bywyd materol yn y bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg.²⁴⁰

Yn achos addurn yn gyffredinol, fel yn achos ffurf tarianau, mae'n ymddangos bod y beirdd yn gadael llawer i ddychymyg y gynulleidfa, gan adael rhwydd hynt iddynt ddychmygu gwrthrychau'r cerddi naill ai yn rhith arwyr 'Y Gododdin', neu fel marchogion Cymreig fel a ddarlunnir mewn chwedlau megis 'Peredur'. Ac yn wir, fe all diflaniad ymddangosiadol *cylchwy*, *rhod* a *rhodawg* o eirfa Beirdd y Tywysogion ar ôl traean cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg fod yn gysylltiedig â'u hawydd cynyddol i gynnal yr amwysedd hwn. Os felly, mae eu hagwedd at darianau crwn yn drawiadol o wahanol i'w hagwedd at waywffyn tafl, a grybwyllid hyd ddiwedd cyfnod canu'r beirdd hyn serch eu delwedd hen-ffasiwn mewn llenyddiaethau eraill (gw. yr adran flaenorol).

²³⁸ *Peredur*, 58.19-21 *Ac ar ysgwyd y marchawc yd oed taryan eurgrwydyr a thrawst o lassar glas yndi, ac vn lliw a hynny yd oed y arueu oll, a chymh. cyd-destun Rhufeinig* BM ll. 17-18 *Tarean eurgrwyder a dodassant a dan e benn ac e velly e kyscus er amperauder.*

²³⁹ D. Huws, *Peniarth 28*, llun 13, a D.H. Williams, *Welsh History through Seals*, t. 22. Mae'n bosibl (ond nid yn sicr) mai tarianau unlliw a ddynodir gan gyfeiriadau'r beirdd at darianau gwyn neu wyrdd, a chan rai o'u cyfeiriadau niferus at rai *coch* neu *rhudd*, er y gallai'r rhain fod wedi disgrifio gwaed yn aml, fel y trafodir yn adran 3.13.3. Gellid cyferbynnu'r enwau *tryliw* a *trilliw* a ddefnyddid weithiau wrth ddisgrifio tarianau, er y gallai'r rhain, hefyd, fod wedi disgrifio gwaed yn aml, fel yn achos eu defnydd i ddisgrifio gwaywffyn a chleddyfau (gw. adrannau 3.2.3, 3.4.2 a 3.13.3).

²⁴⁰ 'Gwisgoedd ac Ategolion', t. 294.

Ffactor arall y mae angen ei grybwyll yw'r ffaith fod tarianau crwn yn aml yn cael eu portreadu fel offer hen-ffasiwn neu estron mewn ffynonellau o Loegr a Ffrainc. Dangosodd Catherine Hanley fod tarianau crwn a chleddyfau hir yr Almaenwyr yn *Aymeri de Narbonne* (sef *chanson de geste* a gyfansoddwyd tua 1200-25) yn symbol o'r 'cultural gap' rhyngddynt hwythau a'r uchelwyr Ffrengig,²⁴¹ ac roedd tarianau crwn yn cael eu cysylltu'n aml â milwyr Sarasenaidd.²⁴² Cyd-destun arall lle darlunnid yr offer hyn oedd mewn perthynas â ffigurau o'r Beibl neu ffigurau alegoriaidd, ac yn wir fe'u cludid hefyd gan ornestwyr cyfoes,²⁴³ ond fel y cyfryw mae'n ymddangos nad oeddynt yn cael eu hystyried fel arfau rhyfel 'arferol' yn y ddeuddegfed ganrif neu'r drydedd ganrif ar ddeg. Mae'n amheus a fyddai'r pethau hyn wedi rhwystro'r beirdd rhag cynnwys tarianau crwn yn eu cerddi, serch hynny, o ystyried fod gwaywffyn tafl hefyd yn cael eu hystyried yn Lloegr a Ffrainc fel arfau hen-ffasiwn neu estron.

Yn hytrach, ymddengys yn fwy tebygol fod beirdd y drydedd ganrif ar ddeg wedi cefnu ar darianau crwn am fod yr offer hyn wedi dod yn anghydnaws â delwedd y tywysogion cyfoes, a derbyn eu bod wedi mabwysiadu'r ffurfiau newydd o darian. Ac fe fyddai'r broblem wedi bod hyd yn oed yn fwy, os oedd y tywysogion hefyd wedi mabwysiadu arfbais, am fod herodraeth mor gysylltiedig â'r tarianau pigfain. Gallai cyfeirio at darian gron yn y cyfryw amgylchiadau fod wedi ymddangos yn anghywir, yn hytrach nag yn gonfensiynol. Yn wir, fe allai fod wedi ymddangos fel peth sarhaus, hyd yn oed, neu'n wrthwynebus i bolisiau'r tywysogion. Mae diflaniad (ymddangosiadol) tarianau crwn o gerddi'r beirdd, felly, yn ymddangos fel pe bai'n adlewyrchu realiti, er na ellir dibynnu'n ormodol ar amseru'r 'diflaniad' hwnnw. Hynny yw, fe allai fod wedi cymryd peth amser i'r beirdd gefnu ar eu cyfeiriadau confensiynol a 'dal i fyny' â'r realiti cyfoes – ac yn wir, nid amhosibl mai pwysigrwydd cynyddol herodraeth a roddodd yr ergyd farwol i'r darian gron fel elfen yn nelweddaeth Beirdd y Tywysogion.

Mae'n bosibl iawn, fodd bynnag, fod tarianau crwn wedi parhau i gael eu defnyddio gan filwyr 'cyffredin' drwy'r drydedd ganrif ar ddeg, ac mae cyfeiriadau beirdd diweddarach yn tystio i bwysigrwydd offer tebyg yn y canrifoedd dilynol hefyd. Gallai'r enghreifftiau o *rhod* a *rhodog* yng ngherddi beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg adlewyrchu hoffter y

²⁴¹ Hanley, *War and Combat*, tt. viii a 150.

²⁴² DeVries, *Medieval Military Equipment*, t. 70, a gw. hefyd, e.e., YCM ('Cronicle Turpin') 155.20, a Suzanne Lewis, *The Art of Matthew Paris*, ffigurau 174 a 182.

²⁴³ Gw. adran 2.13.3, yn enwedig n. 930.

Gogynfeirdd Diweddar o efelychu geirfa ac ymadroddion eu rhagflaenwyr,²⁴⁴ ac, o bosibl, ofynion tynnach y gynghanedd yn eu cyfnod hwy, fel yr awgrymodd Dr Barry Lewis wrthyf,²⁴⁵ ond nid yw hyn yn golygu mai confensiynol yw'r cyfeiriadau hyn i gyd. Mae disgrifiad Dafydd y Coed o'i *rhod ridyll* ei hun, er enghraifft, mewn cerdd ddychan i leidr, yn sicr yn ymddangos fel cyfeiriad at offer cyfoes,²⁴⁶ ac felly hefyd ddefnydd y beirdd o'r geiriau benthg *bwyled* a *targed/darged*.²⁴⁷ Nid oes amheuaeth nad rhywbeth cyfoes oedd y bwcleri y canai beirdd megis Lewys Glyn Cothi gerddi gofyn a diolch amdanynt, ac yn wir fe ellir cysylltu nifer o'r cerddi hyn ag ardal Wrecsam a Rhiwabon – sef ardal y gwyddys ei bod yn enwog fel canolfan cynhyrchu bwcleri rhwng tua 1440 a 1580.²⁴⁸ Nid amhosibl fod rhai o gyfeiriadau Beirdd yr Uchelwyr at *rhod* neu *rhodog* yn dynodi offer tebyg, a'r rheini'n wirioneddol Gymreig hyd yn oed os nad oeddynt yn perthyn i'r un traddodiad â tharianau crwn y beirdd cynharach.²⁴⁹

²⁴⁴ GC 2.57 (Casnodyn) *Rhodog Fadog, fodur lleng*, a 118 *Rhod arfod arfau, cenau cynnar*; GDC 15.15 (Y Mab Cryg) *Ac arganfod rhod ridyll y dringod*; GLIBH 9.11 (bardd anhysbys) *O'th ysgwyd rod, glod gloywgain*; GGMDi 4.86 (Gruffudd ap Maredudd) *Bodd rodd rod fflamdan, darian daeraf*, a GGMDiii 2.3 *Gŵr duriol rod, clod Clydno*. Cyfrifir Casnodyn a Gruffudd ap Maredudd ymhlith y Gogynfeirdd Diweddar, ac mae defnydd awdur anhysbys GLIBH cerdd 9 o nifer o eiriau neu ymadroddion eraill sy'n 'adleisio' cerddi Beirdd y Tywysogion, megis *ysgwyd esgudfrys* (ll. 1), *rhuddlafn* (3) a *gwaedlafn* (10), yn dangos ei fod yntau'n rhannu'r un tueddiadau (gw. y rhagymadroddion i GLIBH cerdd 9 a GGMDi cerdd 4, a GC t. 10). Awdlau neu gyfresi o englynion yw'r cerddi hyn i gyd (diolchaf i Dr Morfydd E. Owen am dynnu fy sylw at y pwynt hwn), ac awdl (ddiodl) yw cerdd y Mab Cryg, fel y ddwy gerdd arall o'i waith sydd wedi goroesi (gw. GDC t. 160, sy'n nodi bod awdlau diodl wedi'u canu hefyd gan Brydydd y Moch (CBT V cerdd 3) a chan yr Ustus Llwyd).

²⁴⁵ Gwnaeth Dr Lewis yr awgrym hwn ar ôl darlith a draddodais yng Nghynhadledd Ryngwladol Edward Lhuyd, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 30 Mehefin - 3 Gorffennaf 2009.

²⁴⁶ GDC 15.15 *Ac arganfod rhod ridyll y dringod*.

²⁴⁷ Defnyddiwyd *bwyled* gan Ruffudd Gryg a Dafydd ap Gwilym, fel trosiad o'r lleuad (DGG LXXIV.50 *Bwyled plwm gwanwyn llwm llwyd*) ac o seren (DG.net 50.38 *Gwir fwyled y goleuni*), a chyfeiriodd Madog Dwygraig a Iolo Goch at *targed* neu *darged* fel offer uchelwyr Cymreig (GMD 2.12 a GIG 5.57). Nodir yn GPC d.gg. fod *targed* yn fenthyciad o'r S. Canol *target* neu'r Hen Ffrangeg *targete*, a bod *bwyled* yn fenthyciad neu'n gyfaddasiad o'r S. *buckler*, dan ddylanwad *targed*.

²⁴⁸ Gw. I. Edwards and C. Blair, 'Welsh Bucklers', a B.O. Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch*, tt. 69-70 a 174-7, sy'n trafod y disgrifiadau manwl o fwcleri mewn cerddi gofyn a diolch mewn perthynas â thystiolaeth am offer cyfoes megis y rhai o Gaer-hun ac Aberhonddu a grybwyllwyd yn adran 2.13.3 uchod (*Casglu'r Tlysau*, GTJ15304, ac Arfdai Brenhinol, cyf. V.108 ac AL.5.1; diolchaf i Mr Richard Hughes, Amgueddfa Llandudno, am anfon ataf wybodaeth fanwl am fwcler Caer-hun). Cyfeiriodd Lewys Glyn Cothi, er enghraifft, at *bos er cloi bysedd*, a hefyd *hoelion* y darian, ynghyd â'r cylchoedd metel sydd arni, ac fe fyddai'r llinellau *Afal byr fal y beren / a gawn a bys gwyn o'i ben* yn disgrifiad addas iawn o'r darn sy'n ymestyn o fogail (*bos*) y darian hon (gw. GLGC 28.45-52, a chymh. **Plât 8**).

²⁴⁹ Mae'n debyg fod bwcleri'n cael eu hallforio o Gymru i Loegr, a bod rhai gwneuthurwyr bwcleri Cymreig yn gweithio yn Lloegr, hyd yn oed (I. Edwards and C. Blair, 'Welsh Bucklers').

4.7 Trafodaeth

Byr, amwys a/neu ystrydebol yw cyfeiriadau Beirdd y Tywysogion at arfau fel y cyfryw, a'r pwyslais yn tueddu i beidio â bod ar yr arf ei hun, ond ar y gwrthrych dynol a ganmolir. Yng ngherddi'r beirdd, megis yn y byd ehangach, roedd arfau'n dangos cyfoeth a statws rhyfelwr, ond gallai'r beirdd hwythau 'wella ar y gwir' weithiau, naill ai drwy ddisgrifio pethau drud a moethus y 'dylai' tywysogion eu cael, neu drwy ddisgrifio offer neu ddulliau brwydro hynafol a fyddai'n caniatáu uniaethu eu noddwyr cyfoes ag arwyr Cymreig traddodiadol neu â rhai o'r 'Hen Ogledd'. Fel yn achos swyddogaeth fwy cyffredinol arfau'r beirdd fel adlewyrchiadau o filwriaeth neu 'ysblander' noddwr, byddai'r ddau ddull hyn o ganmol wedi ategu hawl tywysogion i reoli, yn ôl safonau'r oes. Hynny yw, roedd cyfeirio at foethusbethau megis arfau wedi'u haddurno ag aur yn awgrymu cyfoeth tywysog, ac fe ellid awgrymu ei gysylltiadau soffistigedig â gwledydd eraill, hefyd, drwy gyfeirio at sylweddau estron megis ifori neu (efallai) *llasar*.²⁵⁰ Byddai'r cyfryw gyfeiriadau wedi pwysleisio nerth a gallu'r tywysog fel arweinydd cyfoes (y byddai angen iddo gynnal cysylltiadau diplomyddol â gwledydd eraill), tra byddai'r defnydd o hen ddelweddaeth megis tarianau crwn neu daflu gwaywffyn wedi awgrymu ei dras hynafol a'i hawliau etifeddol.

Wrth drafod testunau canoloesol o Loegr, tynnodd John Hines sylw at arwyddocâd gwrthrychau 'esoteric' a 'culturally marginal' megis gemau gwerthfawr, blodau a sbeisys fel adlewyrchiad o ddyheadau cyfoes,²⁵¹ ac yn wir mae'r un tueddiadau i'w gweld mewn perthynas ag amryw wrthrychau mewn barddoniaeth Gymraeg. Gellid cymharu cyfeiriadau Cynddelw at byrth *marmor* (S. 'marble') o eiddo tywysogion, neu'r *main marmor* yn eglwys Cadfan, Tywyn, yn ôl Llywelyn Fardd I;²⁵² a hefyd gyfeiriadau'r beirdd at ddillad ac ategolion cain megis *sidan*, *pali*, *serig* a *syndal*, neu fodrwy *rhuddem*.²⁵³ Fel y nodwyd yn

²⁵⁰ Gw. adran 3.13.3 am *llasar* ac am *esgryn eliffant* tarian Llywelyn ab Iorwerth, yn ôl Einion ap Gwalchmai (CBT I 25.5).

²⁵¹ Hines, *Voices in the Past*, tt. 103-4.

²⁵² CBT II ('Canu Cadfan') 1.82 *Ei cherdd, ei chynrain, ei main marmor*; III 16.135 ('Canu Owain Cyfeiliog') *Cochwisg ei osgordd am byrth marmor—mawr*, a IV 2.36 ('Arwyrain Owain Gwynedd') *Porthloedd ysgwydawl pyrth mawr marmor*, a gw. III 16.135n, sy'n awgrymu mai gormodiaith yw'r cyfeiriad at y garreg ddud hon. Roedd marmor yn arwydd o foeth mewn rhyddiaith hefyd, fel yn achos yr *ystauell o uein marmor* yn Llundain lle mae Bown yn cwrdd â brenin Lloegr yn YBH llau. 2800-1. Gw. hefyd *Gereint*, ll. 186-7 *a font o uayn marmor yn dyuot o'r loft y waeret*, ac *Owein*, llau. 167-8 *a'r ffynhyawn a welwn dan y pren, a'r llech varmor yn y emhyl, a'r kawc aryant wrth y gadwyn*.

²⁵³ A.M. Jones, 'Gwisgoedd ac Ategolion', t. 34, a CBT III 5.105 ('Rhieingerdd Efa') *Ac a dan ruddem, ruddaur fodrwy*.

barod, dangosodd Alaw Mai Jones fod y cyfryw gyfeiriadau'n mynd yn fwyfwy cyffredin yn ystod cyfnod canu Beirdd y Tywysogion, a bod diddordeb y beirdd yn gyffredinol mewn moethusbethau yn cyrraedd uchafbwynt yn y bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg.²⁵⁴ Ond fe nododd Jones hefyd fod *seric ddillad* yn cael eu crybwyll yn 'Y Gododdin', hyd yn oed, gan awgrymu deunydd a fewnforid o'r Dwyrain,²⁵⁵ ac mae'r cynn yfed *bual* neu *buelin* a'r llestri gwydr a grybwyllir yn y gerdd honno hefyd yn dangos diddordeb y beirdd mewn offer a fewnforid (o Ewrop, y tro hwn).²⁵⁶ Byddai Beirdd y Tywysogion hwythau'n cyfeirio at *bual*, *buelin/buelyn* a *bueilgorn*,²⁵⁷ er na chrybwyllir llestri gwydr ond yn 'Hirlas Owain'.²⁵⁸ Ac yn wir mae'n ymddangos bod y cynn *bual/buelin* hwythau wedi'u hystyried yn hen-ffasiwn ar ôl degawdau cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg.²⁵⁹ (Er iddynt gael eu crybwyll yn y cyfreithiau Cymreig, fe all mai bwriadol-hynafol yw'r cyfeiriadau hyn).²⁶⁰ Nid yw torchau aur, hyd yn oed, mor gyffredin yng ngherddi beirdd y drydedd ganrif ar ddeg ag yr oeddynt yn y ganrif flaenorol.²⁶¹

²⁵⁴ A.M. Jones, 'Gwisgoedd ac Ategolion', tt. 119-153 a 294 (gw. y dyfyniad yn yr adran flaenorol).

²⁵⁵ 'Gwisgoedd ac Ategolion', t. 41.

²⁵⁶ Gallai cynn yfed mawr o gorn 'aurochs' (megis yr un o Sutton Hoo) fod wedi'u mewnforio o'r ardaloedd i'r gogledd o'r Rhein neu'r Donwy ('Danube') lle'r oedd yr ychen gwyllt mawr hyn yn byw o hyd yn y cyfnod ôl-ganoloesol (gw. Bruce-Mitford, *Sutton Hoo*, III, t. 325; Hinton, *Gold and Gilt*, t. 63; Proinsias Mac Cana, 'Ir. Buaball, W Bual, "Drinking Horn", *Ériu*, 44 (1993), 81-93, a Gruffydd Aled Williams, 'The Feasting Aspects of Hirlas Owain', yn Carey *et al.* (eds.), *Ildánach Ildirech*, tt. 289-302). Roedd llestri gwydr o'r traddodiad Rhufeinig Diweddar neu Ganoldirol yn cael eu mewnforio i Brydain yn hanner cyntaf y chweched ganrif, a rhai o Ffrainc neu'r Almaen yn cael eu mewnforio o'r chweched ganrif hyd yr wythfed ganrif, neu efallai'r nawfed ganrif (Ewan Campbell, *Continental and Mediterranean Imports to Atlantic Britain and Ireland, AD 400-800* (York, 2007), t. 73). Crybwyllir llestri gwydr yn CA (LXV) 796-7 *ae ysgwyt ar y ysgwyd. hut arolli / wayw mal gwin gloew o wydyr lestri*; (LXXXIII) 1008-9 *tavloyw ac ysgeth tavlet wydrin. / a med rac teyrned tavlei vedin*; (XCII B) 1144 *ervessit gwin gwydyr lestri llavn*; EdDinb 32 *ef am rodes med a gwin o wydrin ban*; GerErb 12c *ac yuet gwin o wydyr gloew*, a GwasMB 1b *Eryueis i owin owydyr g6ynn*; a chyrn *bual* neu *buelin* yn CA (XVI) 142-3 *blaen ar e bludue dygollouit / vual ene vwynvawr vordei*; (XVII) 156-7 *bual oed arwynn / eg kynted eidyn*; ?CA (XLV B) 513 *bro uual pelloid mirein* (gw. ib.n.); (XLVIII) 546 *o ved o vuelin*; ?(GwT) 1319 *eu med en bur eu haualeu* (gw. ib.n, sy'n awgrymu darllen o *uualeu*); CC 26.11b *chuerv vuelin met melis*; CLIH III.28b *Am gyryn buelyn, am drull*, a 29b *Am gyryn buelyn, am [u]wys*; LPBT 3.52 *[atwyn ll]at bual wrth tal medu[aeth]*; PaŴr 70-1 *Pan yuei o wual / yuei urth peduar*, a PT IX.13-14 *med o uualeu / a da dieisseu*.

²⁵⁷ CBT I (ES) 17.1 a 2, II 14.75 a 131, 15.42, III 1.20, 5.73, 7.35, 11.28, 16.119, 17.4, 24.81, IV 4.179, 5.132, 6.141, 8.4, 9.42 a 43, a V 25.11.

²⁵⁸ CBT II 14.30 *Gwin a gwydr golau yn ei gylchyn*. Y tebyg yw fod y llinell hon yn dangos dylanwad 'Y Gododdin'.

²⁵⁹ Mae'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau mewn cerddi o waith Cynddelw, ac mae dwy yn 'Hirlas Owain', gan gynrychioli enghraifft arall o ddylanwad 'Y Gododdin', o bosibl. Gan Brydydd y Moch ac Elidir Sais y ceir yr enghreifftiau diweddarach, mewn cerddi i Lywelyn ab Iorwerth (CBT I cerdd 17 a V cerdd 25). Yn ôl rhagymadroddion y cerddi hyn yn CBT, mae cerdd Prydydd y Moch yn dathlu buddugoliaethau Llywelyn yn 1217, ond ni ellir sicrywdd am ddyddiad cerdd ddadolwch Elidir, er awgrymu ei bod o bosibl yn dangos y bardd yn dychwelyd at Lywelyn ar ôl canu i'w ewythr Dafydd ab Owain (m. 1203). Byddai beirdd yn parhau i ddefnyddio'r gair *corn* 'corn yfed' hyd at gyfnod Llywelyn ap Gruffudd, fodd bynnag (e.e. CBT VII 36.5 *Eurgyrn eurdëyrn, ni'm daw—llewenydd*) er bod y gair hwn, hefyd, yn fwy cyffredin yn y ddeuddegfed ganrif.

²⁶⁰ *Llyfr Iorwerth*, §43 *Try peth ny dele brenhyn e rannu ac arall: eursullt ac aryant, a kyrn bual, a guysc e bo urles eur urthy*, ond gw. hefyd J.B. Smith, *Llywelyn ap Gruffudd*, t. 199 (sy'n trafod y darn hwn, ymysg tystiolaeth arall): 'The phraseology in which the prince's regality is expressed is often antiquated, perhaps deliberately so'. Gall yr un peth fod yn wir am y cyfeiriadau at gyryn *bual* fel rhan o'r ysbail a ddylai ddod i'r

Yn achos offer rhyfel ac offer y wledd fel ei gilydd – ac yn wahanol i foethusbethau eraill megis dillad – mae'n ymddangos bod Beirdd y Tywysogion yn tueddu i ymateb i ddatblygiadau newydd drwy beidio â defnyddio hen eiriau neu ymadroddion, yn hytrach na thrwy gyfeirio'n benodol at bethau newydd. Mae eu defnydd o'r gair benthyc *glaiif* yn un eithriad a all fod yn arwyddocaol, yn enwedig o ystyried ei ddefnydd mewn rhyddiaith ar gyfer gwaywffyn marchogion (er na ellir ei gysylltu'n benodol â'r dull hwnnw yng ngherddi'r beirdd). Ond gair cymharol brin yw *glaiif*, yr ymddengys iddo gymryd peth amser i ymsefydlu yng ngherddi'r beirdd, a'i ddefnydd cynnar gan Walchmai yn adlewyrchu, o bosibl, gysylltiadau dysgedig y bardd hwnnw (gw. adran 4.2.2.).

Gallai ceidwadaeth farddol arwain at 'fwlch' neu amwysedd yn y derminoleg, felly, mewn ymateb i ddatblygiadau newydd; ac eto, fel y trafodwyd uchod, roedd gorbwysleisio (rhai) pethau newydd hefyd yn rhan o gonfensiynau barddol. Diau y byddai'r gynulleidfa hwythau'n ddigon hyddysg yn y confensiynau hyn i ddeall mai canmoliaeth, nid celwydd, oedd rhai 'gwelliannau' ar y gwir mewn perthynas ag offer y tywysogion, er y byddent o bosibl wedi disgwyl mwy o gywirdeb pan oedd beirdd yn disgrifio digwyddiadau brwydrau penodol.²⁶² Ni ddylid diystyru, ychwaith, ddylanwad gofynion y gynghanedd, a'r ystyriaeth honno'n mynd yn fwyfwy pwysig yn ystod cyfnod canu Beirdd y Tywysogion (ac yn bwysicach fyth wedi hynny). Rhaid bod yn ofalus iawn, felly, wrth ddamcaniaethu ynghylch arfogaeth y Cymry yng nghyfnod y tywysogion ar sail cyfeiriadau mewn barddoniaeth, er y gellir cynnig rhai casgliadau.

brenin (*Latin Texts*, t. 120 *Si rex predam fecerit in aliena terra, aurum et cornua bual et capree et accipitres et vestes lymbose et omne argentum, si plus sit quam libra, regis sunt*), ac am y cyfeiriadau mewn gwahanol fersiynau o'r cyfreithiau at gorn *bual* neu *bubalinum* fel un o'r gwobrau a roddid i'r bardd buddugol mewn ymryson (Mac Cana, 'Ir. *Buaball*, W *Bual*', 91).

²⁶¹ Crybwyllir torchau gan Walchmai (CBT 11.43), Hywel ab Owain Gwynedd (II 6.54), Cynddelw (III 8.23, 10.23, 24.101, IV 5.8-9, 6.90 a 140), Prydydd y Moch (?V 1.101 (gw. *ib.n*) a 5.52) a Dafydd Benfras (VI 31.62), a'r cyfeiriad olaf, mewn marwnad i Lywelyn ab Iorwerth a'i feibion, wedi'i ddyddio i 1248 (CBT VI t. 480).

²⁶² Mae nifer o ysgolheigion wedi tynnu sylw at ddefnyddioldeb cerddi Beirdd y Tywysogion fel ffynhonnell hanesyddol mewn perthynas â digwyddiadau megis brwydrau a marwolaethau tywysogion, fel y trafodwyd yn adran 1.6. Mae defnydd cerddi Beirdd yr Uchelwyr hwythau fel ffynhonnell hanesyddol wedi ei drafod gan Howell T. Evans, *Wales and the Wars of the Roses* (Cambridge, 1915), tt. 1-15, ac yn llawer mwy diweddar gan Eurig Salisbury a Barry Lewis, 'Introducing the Guto'r Glyn Project', darlith a draddodwyd ym Mhedwerydd Colociwm Bangor ar Gymru'r Oesoedd Canol, Prifysgol Bangor, 8-9 Tachwedd 2008, a Barry Lewis, 'Opening up the Archives of Welsh Poetry: Welshness and Englishness during the Hundred Years' War', darlith a draddodwyd yn Fforwm Undydd Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 'Golwg ar yr Oesoedd Canol: Cymru a Llydaw', 24 Ionawr 2009.

Mae'r cerddi'n sicr yn ategu'r syniad mai'r waywffon, y darian a'r cleddyf oedd offer pwysicaf rhyfelwyr breintiedig. O ran y milwyr 'cyffredin', er mor brin yw'r cyfeiriadau, ymddengys eu bod hwythau wedi cludo gwaywffyn a tharianau, ac mae awgrym diddorol y gallai gwŷr Llywelyn ab Iorwerth fod wedi defnyddio rhyw fath o filwg rhyfel cynnar, os cywir dehongli *bachau bychain* Einion ap Gwgon (CBT VI 18.48) fel hyn. Mae cyfeiriad posibl yr un bardd, yn yr un gerdd (ll. 41), at llyn bwa hefyd o ddiddordeb mawr, yn enwedig o ystyried prinder y dystiolaeth arall fod milwyr Gwynedd wedi defnyddio'r arfau hyn, er ei bod yn bosibl mai arfau cynghreiriaid o'r De a ddisgrifir.²⁶³ Gellid dadlau bod cyfeiriadau at offer milwyr 'cyffredin' yn gymharol ddibynadwy, o bosibl, am eu bod fel arfer yn rhan o ddisgrifiadau o frwydrau penodol. Mae'n werth nodi yn y cyd-destun hwn fod rhai o'r cyfeiriadau at daflu gwaywffyn yn rhan o'r cyfryw 'olygfeydd brwydro', gan ategu'r syniad fod y dull hwn yn un cyfoes (gw. adran 3.2.4.2). Ni ellir sicrwydd, er hynny, fod y cyfeiriadau at dywysogion megis Llywelyn ap Gruffudd yn brwydro fel hyn mor ddibynadwy fel tystiolaeth am ddulliau brwydro. Ni ellir dweud, ychwaith, fod y diffyg cyfeiriadau eglur at dywysogion yn ymladd â gwaywffyn llonydd, neu at darianau pigfain, neu at herodraeth, yn profi nad oedd y pethau hyn yn adnabyddus yng Nghymru'r tywysogion – ac yn wir, mae'r ffaith fod tarianau crwn yn 'diflannu' ar ôl traean cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg yn awgrymu *bod* tarianau pigfain wedi'u cyflwyno (ac, o bosibl, herodraeth hefyd, fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol).

Dadleuwyd yn yr adran flaenorol y gallai beirdd y drydedd ganrif ar ddeg fod wedi peidio â defnyddio geiriau penodol am darianau crwn am eu bod yn gwrthdaro'n rhy gryf â delwedd newydd y tywysogion, a hwythau wedi mabwysiadu tarianau pigfain (herodrol, o bosibl) erbyn y cyfnod hwn. Mae hynny, wrth gwrs, yn codi'r cwestiwn pam na ddigwyddodd yr un peth yn achos eu disgrifiadau o dywysogion yn taflu gwaywffyn, os oedd dull brwydro y waywffon lonydd hefyd yn rhan o ddelwedd (neu ddyheadau) newydd y tywysogion. Un posibilrwydd fyddai awgrymu nad oedd taflu gwaywffyn yn gwrthdaro gymaint â'r ddelwedd honno ag y gwnâi'r darian gron, am nad oedd yn gysylltiedig, o reidrwydd, â math penodol o waywffon.²⁶⁴ Hynny yw, roedd y weithred o daflu yr un mor bwysig â'r offeryn ei hun, ac fe ellid tybio y byddai dychmygu tywysog yn taflu gwaywffyn – yn enwedig wrth i fardd ei 'wisgo' ym mhersona rhyw arwr o'r gorffennol – wedi bod yn

²⁶³ Ni orosodd unrhyw gerddi eraill o waith Einion ap Gwgon, fel ei bod yn anodd dirnad a oedd ganddo gydymdeimlad arbennig â'r milwyr cyffredin ai peidio (neu, o leiaf, ddiddordeb arbennig yn eu harfau).

²⁶⁴ Mae'n wir y byddai wedi bod yn anodd taflu'r gwaywffyn hir a ddefnyddid gan farchogion o Loegr yn y cyfnod hwn, ond mae'n bosibl fod y Cymry hwythau'n parhau i ddefnyddio gwaywffyn mwy amlbwrpas.

llawer haws i'r gynulleidfa gyfoes na'i ddychmygu'n cludo math 'anghywir' o darian. Roedd y darian, felly, yn rhan weledol iawn o ddelwedd bob dydd y tywysog, yn enwedig os oedd yn darian herodrol, ond nid felly ei ddull o frwydo â gwaywffon. Gellid cymharu diflaniad cynn yfed *bual* neu *buelin* o gerddi'r beirdd, a'r pethau hyn, wrth gwrs, yn amlwg iawn – naill ai o ran eu presenoldeb neu eu habsenoldeb – yn yr union wleddoedd lle byddai cerddi'r beirdd yn cael eu perfformio. Perthnasol hefyd yn y cyd-destun hwn yw sylwadau Katherine Simms am ymateb beirdd Iwerddon i ddyfodiad y Normaniaid, a hwythau fel pe baent yn gwahaniaethu rhwng datblygiadau mewn offer a datblygiadau mewn dulliau neu arferion:

Curiously, while the bards were prepared to admit a great deal of modern terminology dealing with armour into their rigidly standardised poetic vocabulary, they were usually very reluctant to deal with modern techniques of warfare, such as fire-ships, siege catapults and guns, although we know from entries in the Annals that these devices were widely known and used during the bardic period.²⁶⁵

Braidd yn gymhleth oedd ymateb y beirdd Cymraeg hwythau i arfwisgoedd. Un o'u hoff eiriau am yr offer hyn oedd *llurig* (< Lladin *lorica*),²⁶⁶ a'r gair hwn hefyd i'w weld yn 'Y Gododdin' ac mewn darnau Hengerdd eraill megis 'Moliant Cadwallon' a 'Trawsganu Kynan Garwyn'.²⁶⁷ Nid oes modd gwybod beth yw ystyr benodol *llurig* neu *llurug* yn 'Y Gododdin' (os oes ystyr benodol),²⁶⁸ ond fe gysylltid y gair yn fuan â maelwisgoedd y Normaniaid, fel y gellir gweld o ddefnydd y ffurf *llurugauc* wrth ddisgrifio'r *Freinc* yn *Historia Gruffudd vab Kenan*.²⁶⁹ Yn yr un modd, tynnir sylw penodol weithiau at natur estron *arfau* – a hwnnw'n air arall a ddefnyddid am arfwisgoedd – mewn chwedlau Cymraeg. Dadleuodd Kristen Lee Over fod arfwisgoedd, a dillad eraill, yn cael eu defnyddio fel 'ethnic markers' yn 'Gereint', ac yn 'Perceval' Chrétien,²⁷⁰ ond yn ôl dadansoddiad Regine Reck, prif ddiben y cyfeiriadau mewn chwedlau at *arfau estronawl*

²⁶⁵ 'Images of Warfare', 612.

²⁶⁶ Gw. CBT I 8.47, III 24.168, IV 4.94 a 6.101, VI 11.13 a 18.110, a VII 36.48, a gw. hefyd V 24.62 (*llurigog*), III 19.25 a VI 18.18 (*lluriglas*) a VII 7.18 (*llurigwalch*). Roedd *brond(d)or* (sef gair arall a allai fod wedi dynodi arfwisg, er bod 'tarian' yn ystyr bosibl arall), yr un mor gyffredin gan Feirdd y Tywysogion (gw. n. 916 ym Mhennod 3), er nad oes enghreifftiau yn yr Hengerdd. Geiriau eraill yng ngherddi Beirdd y Tywysogion a all ymwneud ag arfwisgoedd yw *cadwynog*, *caddug*, *caen* (hefyd *eurgaen*, *glasgaen* a *haearngaen*), *calch* (hefyd *calchdöed* ac *eurgalch*), *clöyn*, *gwisg* (hefyd *cadarnwisg*, *cochwisg*, *eurwisg*, *gwisgog* a *?rhuddwisg*), *haearn*, *llasar*, *lliw glas*, *lloflen* 'maneg', *penguchog* 'gŵr helmog', *rhisg*, *seirch* (hefyd *grwmseirch*) a *?tudded*.

²⁶⁷ CA (XVIII) 184 (*llurugawg*), (XXXIII) 375, (LX) 690 (*llurugogyon*), (LXXII) 897 a (XCVIII) 1201; MolCad 52 a PT I.43.

²⁶⁸ Gw. adran 2.14. Byddai naill ai arfwisgoedd lledr neu rai metel yn bosibl yn yr Oesoedd Tywyll, megis yn yr Oesoedd Canol, ac fe fyddai arfwisgoedd mael a rhai cennog fel ei gilydd wedi bod yn gyfarwydd i Frythoniaid y cyfnod is-Rufeinig, fel y dadleuodd Alcock, 'Gwŷr y Gogledd', 12 (gw. n. 152 uchod, a hefyd PT I.22n, a Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, t. .145).

²⁶⁹ HGK 9.28, 20.5 a 26.7. Mae *llurugawg* yr *Historia* yn cyfateb i'r gair *loricati* yn VGC §13/3, §23/7 a §28/4.

²⁷⁰ 'Transcultural Change', tt. 193-7.

neu *ystronawl* yw pwysleisio arbenigrwydd arfwisg fel ‘luxury item’, yn hytrach na’i darlunio fel peth na weddai i filwyr Cymreig.²⁷¹

Yn yr un modd, ymddengys fod arfwisgoedd yn arwydd o statws yng ngherddi’r beirdd, yn ogystal â bod yn rhan ganolog o ddelwedd milwr medrus, a hwythau’n medru osgoi unrhyw awgrym bod y pethau hyn yn ‘estron’ drwy ddefnyddio geiriau hen a/neu amwys megis *llurig*, *seirch*, *arfau* a *brond(d)or*. Weithiau, er hynny, byddent yn cyfeirio’n benodol at arfwisgoedd haearn gan ddefnyddio ymadroddion megis *caen hëyrn*, *cadarnwisg hëyrn*, *haearngaen* neu *glasgaen*, a chyd-destun cadarnhaol y cyfeiriadau hyn yn dangos nad oedd y beirdd yn ystyried maelwisg fel peth anghymreig.²⁷² Yn wir, mae CBT III 7.27 *Hil tÿyrn yn hëyrn henwaith* yn awgrymu eu bod yn ymwybodol nad peth newydd, ychwaith, oedd arfwisg haearn bob amser.²⁷³ Mae’n bosibl fod prinder cyfeiriadau’r beirdd at helmau, ar y llaw arall, yn adlewyrchu eu hanfodlonrwydd i gyflwyno i’w cerddi eiriau (benthyg) a fyddai’n tynnu gormod o sylw at newidiadau mewn offer.²⁷⁴

Mae’n anodd credu, er hynny, nad oedd y beirdd yn ymwybodol o gysylltiadau estron maelwisgoedd, ac felly hefyd yn achos eu cyfeiriadau at arfwisgoedd i geffylau (gw. adran 3.14). Yn wir, mae llinellau Llygad Gŵr, CBT VII 28.5-6 *Ys bydd it, arglwydd rhwydd rhuddfoawg, / Llywelyn, lluyddfëirch arfawg*, yn ymddangos fel pe baent yn cydnabod bod arfwisg i geffylau yn un datblygiad newydd yr oedd yn weddus i dywysog ei fabwysiadu. Gall fod yn berthnasol fod ‘Owein’ a ‘Gereint’ yn cynnwys cyfeiriadau mwy penodol at

²⁷¹ *The Aesthetics of Combat*, adran 2.2 ac yn enwedig n. 70, sy’n cyfeirio at *Gereint*, llau. 283-4 *yn gyweir o uarch ac arueu trwm rydlyt dielw ystronawl ymdanaw ac ymdan y uarch a 742-3 ac yd oed y uarch yn gyweir o arueu trwm ystronawl gloyw*; BR 15.15-17 *Y marchawc yn gyweir a’ e varch o arueu trymyon estronawl*, a Patricia Williams (gol.), *Kedymdeithyas Amlyn ac Amic* (Caerdydd, 1982), ll. 392 y *gwisgassant ymdanunt arueu trwm estronawl*, gan nodi ‘the Latin source text of *Kedymdeithyas Amlyn ac Amic* has only *armati* here, the French version of the tale *armé*’.

²⁷² CBT I 25.13 *Nid emyth, nid llyth yn llwyth hëyrn*; II 16.1-2 *Gofynnwys nebun (ni bu raen—gan rai / Cyn rhuddaw haearngaen) / Pa was a wisg y lasgaen?*; IV 6.77 *Câr cedyrn caen hëyrn heidiaw*; VI 3.15 *A braw gwas gwisg haearngaen*; CBT VII 2.2 *Yng nghadarnwisg hëyrn*; 3.16 *Tÿyrn yn hëyrn yn hardd*; 15.22 *Prif walch cadarn haearngaen*, a 46.9 *Tÿyrn yn hëyrn, yn hardd wisgad—balch*. Rhaid nodi y gallai rhai o’r enghreifftiau hyn fod wedi disgrifio arfau, neu arfogaeth yn gyffredinol, yn hytrach nag arfwisg yn benodol (gw. adran 3.14).

²⁷³ Mae *henwaith* yn amlwg yn ganmoliaethus yma, gan awgrymu naill ai bod hen ddulliau o gynhyrchu offer yn cael eu hystyried yn well na rhai modern (o leiaf gan y beirdd), neu fod y bardd yn cyfeirio at arfwisg arbennig a etifeddodd y gwrthrych gan ei gyndeidiau; yn y ddau achos, gallai *henwaith* awgrymu Cymreictod hefyd.

²⁷⁴ Nododd Alcock, ‘Gwŷr y Gogledd’, 12, fod prinder y cyfeiriadau at helmau yn ‘Y Gododdin’ yn gydnaws â phrinder y dystiolaeth archeolegol am yr offer hyn yn y chweched a’r seithfed ganrif. Nid oes rhyw lawer o sôn am yr offer hyn mewn cerddi eraill, ychwaith, er bod y gair *helm* (< S.C. *helm* (GPC d.g.)) i’w gael mewn cerdd ddarogan, PeirFab 15 *llawer lluric. llawer helym am benn. vuch ar y amkan*, ac mae’n bosibl fod CBT VI 31.66 *Tri chlöyn pennyn penguchogion* yn cyfeirio nid yn unig at wŷr helmog (*penguchogion*) ond hefyd at rannau o helm (*tri chlöyn pennyn*) (gw. adran 3.4.2).

arfwisg ceffylau nag a welir yn y fersiynau Ffrangeg, hyd yn oed.²⁷⁵ Ac y mae agwedd gadarnhaol y beirdd ac awduron/addaswyr y chwedlau fel ei gilydd tuag at bethau estron, yng nghyd-destun ceffylau, yn cael ei dangos hefyd gan eu cyfeiriadau at geffylau o ‘Wasgwyn’ (S. ‘Gascony’).²⁷⁶ Mae’n bosibl fod gwrthrychau estron yn fwy deniadol i feirdd nag arferion estron am y rheswm fod gwrthrych yn haws ei gysylltu â chyfoeth a statws, a heb ddwyn gormod o oblygiadau ehangach. Yn yr un modd, gallai cysyniad herodraeth fod wedi bod yn anneniadol i’r beirdd am ei fod, fel dull y waywffon lonydd, yn gysylltiedig â chyfundrefn gymdeithasol estron, sef ffiwdaliaeth.

Mae’n werth gofyn a oedd y beirdd yn ymateb yn wahanol i wrthrychau a gysylltid ag Iwerddon neu Sgandinafia, sef ‘gaflachau’ a bwyell rhyfel, ond mae’r cwestiwn hwn yn anodd ei ateb. Trafodwyd yn adrannau 3.2.1.1 a 4.4 y rhesymau posibl am ddiffyg cyfeiriadau Beirdd y Tywysogion at yr offer hyn, er bod y ddau fath o arf wedi’u crybwyll yn *Historia Gruffudd vab Kenan* mewn perthynas â milwyr estron y tywysog hwnnw, ac er bod ‘gaflachau’ yn ymddangos yn ‘Peredur’ (ac yn cael eu disgrifio fel arfau sy’n nodweddiadol o’r Cymry yn ‘Perceval’ ac yn ‘Y Seint Greal’). Ni ellir dadlau ar sail hynny, fodd bynnag, fod y beirdd yn llai agored i ddylanwadau Gwyddelig neu Lychlynnaid, mewn perthynas ag arfau, nag yr oeddynt i ddylanwadau o Loegr neu Ffrainc. Gall absenoldeb bwyell o gerddi Beirdd y Tywysogion adlewyrchu’r ffaith nad oeddynt yn cael eu defnyddio gan y tywysogion, fel y cyfryw – er bod y cyfeiriad yn ‘Gwarchan Maeldderw’ yn awgrym diddorol fod rhai beirdd yn ymwybodol o’u pwysigrwydd, o leiaf ar un adeg – neu adlewyrchu amryw agweddau negyddol ar ddelwedd y fwyell, yn hytrach na’i fod yn ymwneud â chysylltiadau Gwyddelig-Sgandinafaidd yr arfau hyn.²⁷⁷

O ran y gair *gaflach*, gallai fod wedi methu ag ennill ei le yn yr eirfa farddol oherwydd defnydd yr elfen *gafl* ar gyfer rhan o’r corff, fel y nodwyd yn adran 3.2.1.1, yn hytrach nag oherwydd ei gysylltiadau ag Iwerddon. Yn wir mae’n bosibl fod yr arfau hyn, neu rai tebyg, wedi’u crybwyll yng ngherddi’r beirdd dan enw neu enwau eraill – dadleuwyd yn adran 3.2.4.2 y gall mai ‘gaflachau’ oedd *hëyrn* y beirdd, er bod y gwaywffyn hirgoes cynharach

²⁷⁵ Gw. Sioned Davies, ‘Horses in the *Mabinogion*’, t. 129 (sy’n cyfeirio hefyd at ddisgrifiad o *arueu* ceffyl yn *Owein*, llau. 637-8), a Reck, *The Aesthetics of Combat*, adran 4.3.2.

²⁷⁶ CBT III 7.16 a V 23.58, ac *Owein*, ll. 636-7, a gw. N.A. Jones, ‘Horses in Medieval Welsh Court Poetry’, t. 91, a Sioned Davies, ‘Horses in the *Mabinogion*’, t. 124 (gw. hefyd adran 2.15 uchod).

²⁷⁷ Gw. adrannau 4.3 a 4.4, ac am ddelwedd bwyell gw. adran 2.8. Yn ogystal â’u ‘natur dreisgar’ a’u cysylltiad â phobl ‘gyffredin’, mae’n debyg fod bwyell hefyd yn gysylltiedig â ‘phobl’ ryfedd fel y *Cynocephali* (gw. n. 642 yn adran 2.8).

yn bosibilrwydd arall (o leiaf o ran tarddiad y gair). Y mae hefyd yn werth nodi bod rhai geiriau benthg eraill o Iwerddon yn ymddangos yng ngherddi Beirdd y Tywysogion, megis *macwy* a *lläin/llain*,²⁷⁸ a bod Alaw Mai Jones wedi tynnu sylw at y bri a roddid ar fentyll neu *ffalingod* Gwyddelig gan feirdd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen.²⁷⁹ Mae'n anodd dadlau, felly, fod y beirdd yn anwybyddu pethau Gwyddelig neu Wyddelig-Sgandinafaidd yn fwriadol, er ei bod yn bosibl fod y cymhelliad gwleidyddol i hybu'r cyfryw gysylltiadau wedi lleihau yn sgil marwolaeth Hywel ab Owain Gwynedd.²⁸⁰

Byddai golygon arweinwyr Cymreig yn tueddu i droi fwyfwy tua'r dwyrain fel yr âi'r ddeuddegfed ganrif yn ei blaen,²⁸¹ ac mae lle i gredu eu bod hwythau'n gweld offer nodweddiadol y marchog nid fel offer 'estron' ond yn hytrach fel offer statws-uchel a fyddai'n dangos eu grym a'u hawdurdod.²⁸² Diau fod y darlun o 'farchogion Cymreig' mewn chwedlau yn adlewyrchu'r agwedd hon o du'r tywysogion, i ryw raddau – ac efallai i raddau sylweddol, o ystyried y dystiolaeth fod 'Peredur' yn hysbys yng Ngwynedd erbyn tua diwedd y drydedd ganrif ar ddeg (ac efallai cyn 1282), a'i bod o bosibl wedi'i chyfansoddi yno.²⁸³ Eto i gyd, nid oedd awduron neu addaswyr chwedlau – na'r cyfieithwyr, hyd yn oed – yn trosglwyddo delweddau a bydolwg chwedlau estron yn eu cyfanrwydd. Yn hytrach, byddent yn addasu eu deunydd i adlewyrchu chwaeth a thraddodiadau brodorol,²⁸⁴ ac mae Kristen Lee Over wedi dadlau y byddent, drwy wneud

²⁷⁸ CBT III 5.95 ('Rhieingerdd Efa') *Neu'm rhydraeth hiraeth, feddfaeth facwy*; 29.19 ('Marwnad Bleddyn Fardd') *Mabolaeth feddfaeth facwy*, a IV 16.185 ('Canu i Dduw') *Can diffyrth Trindawd tri macwy—o dân*, a gw. Mac Cana, 'Ireland and Wales in the Middle Ages: an Overview', tt. 42-3, am *macwy* (< H.W. *maccoím/maccóem* 'dear/fair son/boy') a geiriau benthg eraill o'r Wyddeleg, ac am *llain/lläin* gw. I. Williams, CA t. 85, ac eDIL d.g. *láigen* 'broadheaded spear'. Gw. adran 1.4.3 am ddefnydd y beirdd o eiriau benthg o'r Ffrangeg.

²⁷⁹ 'Gwisgoedd ac Ategolion', tt. 22 a 64 ac Atodiad I.

²⁸⁰ Awgrymodd M.E. Owen, 'Byd Hywel ab Owain Gwynedd', t. 33, y gallai'r pwyslais ar gysylltiadau Gwyddelig yn *Historia Gruffud vab Kenan* o bosibl adlewyrchu awydd Owain Gwynedd i sicrhau y byddai ei fab Hywel, ac yntau'n fab i Wyddeles, yn ei olynu. Ond byddai'r cymhelliad hwn wedi dod i ben ar ôl i Hywel gael ei ladd, am na ddaeth yr un o'i ddisgynyddion i rym yng Ngwynedd ar ei ôl, hyd y gwyddys, naill ai fel tywysog neu fel swyddog yn y llys, hyd yn oed (gw. J.B. Smith, 'Hywel ab Owain Gwynedd a Gwleidyddiaeth Gwynedd', tt. 80-1).

²⁸¹ R.R. Davies, *The Age of Conquest*, tt. 10-11.

²⁸² Dadleuodd Pryce, 'Welsh Rulers and European Change', t. 50, fod datblygiadau mewn offer milwrol, ynghyd â dylanwadau eraill, yn rhan o strategaeth y tywysogion 'to increase their power and status *vis-à-vis* not only other native rulers and Marcher lords but also especially, perhaps, the nobility within their own lands'.

²⁸³ D. Huws, 'Y Pedair Llawysgrif Ganoloesol', tt. 2-5; Peter Wynn Thomas, 'Cydberthynas y Pedair Fersiwn Canoloesol', yn Sioned Davies a P.W. Thomas (goln.), *Canhwyll Marchogyon*, tt. 10-49 (t. 41), a M.E. Owen, "'Arbennic Milwyr a Blodeu Marchogyon'", tt. 111-12.

²⁸⁴ Gw. Reck, *The Aesthetics of Combat*, passim, ac Echard, 'Of Parody and Perceval', yn cyfeirio at Ceridwen Lloyd-Morgan, 'Perceval in Wales: Late Medieval Welsh Grail Traditions,' yn Alison Adams, Armel H. Diverres, Karen Stern and Kenneth Varty (eds.), *The Changing Face of Arthurian Romance: Essays on Arthurian Prose Romance in Memory of Cedric E. Pickford* (Cambridge, 1986), tt. 78-91 (t. 86).

hyn, yn cyflwyno ymateb creadigol i ddylanwadau Eingl-Normanaid a Ffrengig ac yn atgyfnerthu delweddau o Gymreictod.²⁸⁵

Serch y gwahaniaethau yn nelweddaeth chwedlau o’u cymharu â’r canu mawl, felly, fe all nad oedd cymhellion eu hawduron mor wahanol i’w gilydd. Awgrymodd Kristen Lee Over fod y disgrifiad o rannu tir Ynywl yn ‘Gereint’ yn adlewyrchu’r rhybuddion yn erbyn ymgyrchu dros ffiniau mewn cerddi o waith Cynddelw ac Elidir Sais,²⁸⁶ ac fe ddadleuodd Brynley F. Roberts mai bwriad ‘Breudwyt Maxen Wledig’, megis cerddi Prydydd y Moch, oedd hybu uchafiaeth Gwynedd a’i thywysog,²⁸⁷ gan ddod i’r casgliad:

If the interpretation of *Breudwyt Maxen Wledig* offered here is correct, it confirms that at least some Middle Welsh narratives were designed to be significant and relevant for their audiences at court in the same way as were the works of the court poets for what would frequently have been the same audience.²⁸⁸

Rhaid cofio bod cynghreirio a chydbrïodi, yn ogystal ag ymladd ac ymgiprys, yn nodweddion ar gysylltiadau rhwng Cymru a Lloegr yng nghyfnod y tywysogion. Ac yn wir, ni ddylid meddwl mai Saeson neu Eingl-Normanïaid oedd yr unig farchogion yr oedd y Cymry’n gyfarwydd â hwy. Gwyddys bod Owain Gwynedd a Llywelyn ab Iorwerth wedi meithrin cysylltiadau â brenhinoedd Ffrainc,²⁸⁹ ac fe fyddai’r *literati* Cymreig wedi clywed am arwyr Ffrengig megis Rolant ac Olifer – yn enwedig wrth i storïau Siarlymaen gael eu cyfieithu yn ystod y drydedd ganrif ar ddeg – yn ogystal ag arwyr clasurol megis Alecsandr Fawr ac Ercwlff.²⁹⁰ Gallai ymlediad chwedlau Arthuraidd hefyd fod wedi chwarae rhan wrth adeiladu ‘dwyieithrwydd diwylliannol’, fel y dadleuodd David Crouch.²⁹¹

²⁸⁵ ‘Transcultural Change’, 187: ‘Not only does *rhamant* exert pressure on the form, the language and the content of romance; it reconstructs cultural standards of knightly heroism and rewrites contemporary assumptions of Welsh inferiority’. Cymh. trafodaeth Stephen Knight, ‘Resemblance and Menace: A Post-Colonial Reading of Peredur’, yn Sioned Davies a P.W. Thomas (goln.), *Canhwyll Marchogyon*, tt. 128-47.

²⁸⁶ ‘Transcultural Change’, 195, a gw. R.R Davies, *The Age of Conquest*, t. 14, a CBT I 17.24-5 (Elidir Sais, ‘Dadolwech Llywelyn ab Iorwerth’) *Ystyrych pan dreisych dros ffin*, / *Ystwnng pawb hyd ben ei ddeulin*, a III 8.69-72 (Cynddelw, ‘Marwnad Madog, Llywelyn a Theulu Powys’) *Ym mywyd Madawg ni feiddiai undyn* / *Dwyn terfyn tra hyfryd*, / *Nid meddwl meddu hefyd*, / *Namyn o Dduw, ddim o’r byd*.

²⁸⁷ ‘Breuddwyd Maxen Wedig: Why? When?’, yn Nagy and Jones (eds.), *Heroic Poets and Poetic Heroes*, tt. 303-14 (tt. 310-14), a BM t. lxxxv. Diddorol yw cymharu dadl Fulton, ‘Cyd-destun Gwleidyddol *Breudwyt Ronabwy*’, 52-4, fod ‘Breudwyt Ronabwy’ yn rhoi ‘golwg chwerw, sinigaidd bron, ar arweinyddiaeth genedlaethol o safbwynt Powys’, a’i bod, o bosibl, yn cyfeirio’n eironig at gerddi Prydydd y Moch i Lywelyn ab Iorwerth.

²⁸⁸ ‘Breuddwyd Maxen Wedig: Why? When?’, t. 314.

²⁸⁹ Huw Pryce, ‘Owain Gwynedd and Louis VII: the Franco-Welsh Diplomacy of the First Prince of Wales’, *Welsh History Review*, 19 (1998-9), 1-28, a R.F. Treharne, ‘The Franco-Welsh Treaty of Alliance in 1212’, *B 18* (1958-60), 60-75.

²⁹⁰ Gw. rhagymadroddion Haycock i LPBT cerddi 16, 17 a 19.

²⁹¹ *The Image of Aristocracy*, t. 161.

Adlewyrchir rhai o'r datblygiadau hyn yng ngherddi'r beirdd. Mae'n bosibl fod y Prydydd Bychan yn cyfeirio at y cymeriad Olifer o'r *Chanson de Roland* yn ei farwnad i Faredudd ab Owain, mab Owain ap Gruffudd ap Rhys,²⁹² ac mae'n debyg fod Prydydd y Moch yn ei gymharu ei hun â chorn Rolant yn CBT V 23.202 *Wyf tebyg Eliffant*.²⁹³ Roedd y 'gwerthoedd llysaidd' a gysylltir â diwylliant 'sifalrig' hefyd yn cael eu hadlewyrchu yng ngherddi'r beirdd, fel y dangosodd Manon Phillips, er nodi bod y gair *llysaidd*, yn benodol, yn ymddangos mor gynnar – ym 'Mawl Cuhelyn Fardd' – fel bod rhaid tybied bod y rhinweddau hyn eisoes yn cael eu gwerthfawrogi yng Nghymru, cyn y byddai dylanwad y Normaniaid wedi cael cyfle i dreiddio'n bell.²⁹⁴ Yn yr un modd, ni ellir cysylltu geiriau megis *marchawg* neu *cadfarchawg* â 'knights' yn benodol, bob tro, er y byddai'r gair yn cael ei ddefnyddio fwyfwy yn y cyd-destun hwn gyda threigl amser, megis yn yr ymadrodd *machawg urddawl* 'ordained knight'.²⁹⁵

Nid oes yr un *marchawg urddawl* yng ngherddi'r beirdd dan sylw, er hynny, ac ni ellir dweud bod cysyniadau 'sifalrig' wedi'u mynegi'n bendant, ychwaith, yn eu hymdriniaeth ag arfau. Trafodwyd yn barod amwysedd eu cyfeiriadau at frwydro â gwaywffyn, a'u diffyg diddordeb mewn herodraeth, ond mae rhai absenoldebau trawiadol eraill o'u cerddi. Nid oes unrhyw sôn yng ngherddi Beirdd y Tywysogion am rai offer a gysylltid yn arbennig â seremonïau urddo marchogion, megis gwregys ac ysbardunau,²⁹⁶ ac er bod cyfeiriadau

²⁹² CBT VII 13.21 *Oedd teg rwyf, rwyg Oliffer*, a gw. ib.n, sy'n nodi y gall gynrychioli drysu rhwng yr enwau Eliffer ac Oliffer, gan gyfeirio o bosibl at yr arwr brodorol Eliffer Gosgorddfawr, er bod cyfeiriad at yr arwr o chwedlau Siarlymaen yn bosibilrwydd arall.

²⁹³ CBT V 23.202n, yn cyfeirio at awgrym G t. 469. Yr ystyr fyddai fod y bardd mor uchel ei sŵn â'r corn, wrth ganu clodydd Llywelyn.

²⁹⁴ Manon Phillips, 'Defod a Moes y Llys', yn Charles-Edwards *et al.* (eds.), *The Welsh King and His Court*, tt. 347-61, ac am y gair *llysaidd* gan y beirdd gw. hefyd Pennar, 'Beirdd Cyfoes', 68. Dadleuodd Lieberman, *The March of Wales*, tt. 65-9, fod dulliau 'sifalrig' o ymddwyn mewn brwydr, megis bargeinio ynghylch termau mewn rhyfel gwarchae neu arbed bywydau milwyr a gipiwyd (o leiaf y marchogion a'r barwniaid), yn mynd yn fwy cyffredin yng Nghymru (ymhlith y Cymry a'r Eingl-Normaniaid fel ei gilydd) ar ôl tua dechrau'r unfed ganrif ar ddeg, er dweud ei bod yn bosibl fod hyn yn adlewyrchu gwellhad yn y cysylltiadau, y ddealltwriaeth a'r ymddiriedolaeth rhwng y ddwy ochr, yn hytrach nag ymlediad cysyniadau 'sifalrig' haniaethol.

²⁹⁵ Gw. M.E. Owen, "'Arbennic Milwyr a Blodeu Marchogyon"', tt. 101-2; Sean Davies, *Welsh Military Institutions*, tt. 170-1, N.A. Jones, 'Horses in Medieval Welsh Court Poetry', t. 84, a M.E. Owen, 'Byd Hywel ab Owain Gwynedd', t. 39.

²⁹⁶ Perthyn i wragedd y mae'r *gwregysau* yn CBT II 26.234 (Gwynfardd Brycheiniog, 'Canu i Ddewi'), a pherthyn i elyn y mae'r *gwregys* yn IV 6.58-9 (Cynddelw, 'Canu Hywel ab Owain Gwynedd') *Pan arfrwydr arfrys arlwy blys—bleiddiawr / A gwaywawr uch gwregys*. Er crybwyll *otoyw* 'ysbardunau' yn GerErb 12a-c *Yn llongborth gweleis .i. ottoew. / gwyr ny gilynt rac gwaew. / ac yuet gwin o wydyr gloew*, a CLIH I.12a-c *Tra vum i yn oet y gwas draw / A wisc o eur y ottew. / Bydei re ruthrwn y waew* (gw. hefyd Ryan, 'Horses', t. 126), yr unig awgrym o'r cyfryw offer yng ngherddi Beirdd y Tywysogion yw *cywan* '?ysbarduno' yn CBT VII 25.17-18 (Llygad Gŵr, 'Mawl Gruffudd ap Madog') *Ti gorau rhiau rhuddwisc ar lled / O gywan amws ar ei ganfed* (gw. ib.n. am y dehongliad, sy'n dilyn GPC d.g. *cywan* yn hytrach na G t. 270). Er bod y cyfeiriad cynharaf at ysbardunau euraid fel rhan o seremoni urddo marchog yn dyddio o 1128, roedd ysbardunau'n rhan

niferus at gleddyfau nid oes awgrym bod y beirdd yn priodoli i'r arfau hynny y math o symbolaeth grefyddol a fynegwyd yn y cyfryw seremonïau.²⁹⁷ Mae'n ddiddorol cymharu'r agwedd a fynegir at bethau 'sifalrig' mewn chwedlau megis 'Gereint', yn ôl dehongliad Regine Reck: 'Even if the Welsh tale apparently adopted foreign courtly items and name tags, it did not adopt the courtly, chivalric ideals along with them'.²⁹⁸

Gellid dadlau, felly, y byddai Cymry'r Oesoedd Canol yn disgwyl i'w tywysogion ymddangos yn wahanol iddynt hwythau, o ran eu hoffer a'u gwisgoedd cain, ond peth gwahanol fyddai eu gweld yn dechrau ymddwyn yn wahanol, os oedd hynny'n golygu aildrefnu strwythurau gwleidyddol a chymdeithasol y wlad (gw. adran 1.5). Gwyddys bod rhai beirdd yn barod i ymladd dros eu noddwyr, a bod un, o leiaf, wedi marw wrth wneud hynny, ond nid yr un oedd diddordebau a dyheadau beirdd a thywysogion. Roedd gan y beirdd berthynas wahanol â diwylliant a iaith eu gwlad, a honno o bosibl yn eu gwneud yn gyndyn i adlewyrchu'r holl newidiadau a fu yn nelwedd gyhoeddus tywysogion, ac yn nulliau brwydro eu byddinoedd, yn ystod y drydedd ganrif ar ddeg. Ni ellir dianc rhag y teimlad fod arwyddocâd arbennig weithiau i 'amwysedd' cyfeiriadau'r beirdd at arfau, fel adlewyrchiadau o rai o'r problemau yr oeddynt yn eu hwynebu wrth geisio cysoni eu swyddogaeth fel cynhalwyr llywodraeth y tywysogion â'u gwerthoedd personol fel beirdd.

o offer marchogion ymhell cyn hynny - fe'u gwisgid gan farchogion Carolingiaidd erbyn y nawfed ganrif, ac mae'r marchogion yn nhapestri Bayeux yn eu gwisgo hefyd (Hinton, *Gold and Gilt*, tt. 153 a 172, a D.M. Wilson, *The Bayeux Tapestry*). Roedd ysbardunau pricio ('prick spurs') canoloesol yn debyg i'r rhai Carolingiaidd, neu, yn wir, i rai Rhufeinig neu Oes Haearn, er nad ymddengys fod ysbardunau wedi'u defnyddio ryw lawer ym Mhrydain nes cael eu cyflwyno (neu eu hailgyflwyno) gan y Llychlynwyr (gw. Laing, *Archaeology*, t. 100, a Hinton, *Gold and Gilt*, tt. 153-4, am ddwy enghraifft bosibl, ond dadleuol, o gladdfeydd Eingl-Sacsonaidd). Mae'r cyfreithiau Cymreig yn cyfeirio at ysbardunau wedi eu goreuro neu eu hariannu, ynghyd â rhai o efydd, neu wedi'u tunio, neu wedi'u staenio'n ddu (*dulys*) (*Llyfr Iorwerth*, §142, a gw. hefyd Ryan, 'Horses', t. 38). Darganfuwyd darnau o ysbardunau pricio yng Nghastell Llychwr, Gŵyr, a ddyddiwyd i ddiwedd y ddeuddegfed ganrif neu i'r drydedd ganrif ar ddeg, ac ysbardunau pricio a rhywel (S. 'rowel') o gastell Hen Domen, yn ogystal ag ysbardun anghyflawn o Gastell Dryslwyn, o'r drydedd ganrif ar ddeg (A.D. Carr, 'Dulliau Rhyfel yr Arglwydd Rhys', llun 6 (t. 85); Goodall and Goodall, 'Metalwork from the Motte Excavations at Hen Domen', rhif 14 (t. 95); Higham and Barker, 'Metalwork and Other Material from the Bailey Excavations at Hen Domen', rhifau 65 (t. 99) a 110 (t. 104), ac Alison Goodall, 'Copper-alloy and Lead Artefacts', yn Caple, *Excavations at Dryslwyn Castle*, tt. 257-63, rhif A33 (tt. 259-62)). Am gyfeiriadau beirdd diweddarach at farchogion Cymreig yn cael eu hurddo, ac at yr offer cysylltiedig, gw. A.M. Jones, 'Gwisgoedd ac Ategolion', t. 131, yn cyfeirio, e.e., at gerdd o waith Hywel Cilan (*fl.* 1435-70), yn canmol Syr Gruffudd Fychan: *Aur cun yw d'ysbardunau, / Aur teg ydyw'r coler tau; / Aur crwn yw'r wisg ar y crys, / Aur goreugoeth yw'r gwregys* (Islwyn Jones (gol.), *Gwaith Hywel Cilan* (Caerdydd, 1963), 27.57-61).

²⁹⁷ Gw. adran 2.4.7, a hefyd Hanley, *War and Combat*, t. 148, sy'n nodi bod y *chansons de geste* (yn wahanol i gronclau cyfoes) yn cysylltu cleddyfau'n benodol â statws marchog.

²⁹⁸ *The Aesthetics of Combat*, adran 4.3.2.

Casgliadau

Er trafod yn y drydedd bennod ddefnydd symbolaidd a throsiadol arfau, nid oedd cyfle i ymdrin yn fwy helaeth â'r cyfryw agweddau llenyddol, heb sôn am geisio cyflwyno astudiaeth gymharol lawn i osod cyfeiriadau'r beirdd yn eu cyd-destun Ewropeaidd ehangach. Mae'n eglur, fodd bynnag, fod llawer o ddelweddaeth y beirdd – megis cleddyfau sy'n fflachio, arfau toredig neu waedlyd, ac ergydion erchyll – yn gyffredin i lawer o lenyddiaethau, gan adlewyrchu profiad cyffredin pobl ganoloesol o ryfel. Nid mynegi'r profiad hwnnw oedd diben y beirdd Cymraeg, er hynny, ond yn hytrach canmol noddwr, a'r arfau'n adlewyrchu ei gyfoeth, ei gysylltiadau soffistigedig, ei harddwch personol, a'i filwriaeth yn anad dim. Weithiau ceir 'golygfeydd brwydro' ehangach, neu gipolygon sy'n ymddangos yn fwy personol, megis ymhyfrydu Gwalchmai yn ei arfau gwych yn ei Orhoffedd neu ganmoliaeth ofalus Cynddelw i'r cleddyf a gafodd yn rhodd, ond crynoder, confensiwn ac amwysedd (weithiau'n fwriadol, fe ddichon) yw prif nodweddion cyfeiriadau'r beirdd at arfau fel y cyfryw, a hynny'n enwedig yn achos Beirdd y Tywysogion.

Mae'r Hengerdd yn fwy amrywiol na cherddi Beirdd y Tywysogion yn eu hymdriniaeth ag arfau, nid yn unig o ran y geiriau a ddefnyddir ond hefyd o ran y gwahanol fathau o offer a grybwyllir, er ei bod yn ymddangos mai *genres* mwy amrywiol yr Hengerdd sy'n gyfrifol am lawer o'r gwahaniaethau hyn. Mae'r 'Gododdin' yn dal yn nodedig, serch hynny, oherwydd ei chyfran uchel o wrthrychau anacronistig neu dywyll (rhai'n gysylltiedig o bosibl â'r Oes Haearn gyn-Rufeinig neu â'r cyfnodau Rhufeinig neu is-Rufeinig), gan ategu'r syniad y gallai fod yn sylweddol hŷn na cherddi Beirdd y Tywysogion, neu o leiaf yn sylweddol wahanol. Serch hynny, nid adnabuwyd yma unrhyw dystiolaeth mewn perthynas ag arfau y gellid ei defnyddio i ddyddio 'Y Gododdin' (nac unrhyw gerddi eraill) yn bendant.

Mae'r ansicrwydd ynghylch dyddiad a diben 'Y Gododdin' yn ei gwneud yn anodd ei defnyddio fel tystiolaeth am arfau'r Cymry mewn unrhyw gyfnod penodol, er bod amrywiaeth yr offer a grybwyllir yn drawiadol, yn enwedig o ystyried y pethau mwy anghyffredin megis ?arfau plwm, ?bwâu croes, ?tarianau sgwâr, cyllyll, a cherbydau. Mae'n werth tynnu sylw hefyd at yr offer hela (*cigwain*, *llath a llory*) a grybwyllir yn 'Pais

Dinogad’ (yn enwedig o ystyried y diffyg cyfeirio at hela gan Feirdd y Tywysogion), ac at y cyfeiriadau posibl at fwyeill rhyfel yn ‘Y Gododdin’ a ‘Gwarchan Maeldderw’ (gw. adran 4.3).

Mae cyfeiriadau Beirdd y Tywysogion hwythau’n cynnig awgrymiadau diddorol y gallai arfau polyn ac, o bosibl, fwâu saethu, fod wedi’u defnyddio gan fyddinoedd Llywelyn ab Iorwerth; bod milwyr uchelwrol, o leiaf, wedi peidio â defnyddio tarianau crwn erbyn diwedd traean cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg, a bod y Cymry wedi parhau i daflu gwaywffyn mewn brwydr yn hwy nag y gwnaeth milwyr Lloegr neu Ffrainc. Anodd iawn yw datrys y ‘gwir’ o’r ‘confensiynol’, er hynny, yn enwedig yn achos offer uchelwrol, er bod ymdriniaeth y beirdd â tharianau crwn a chyrn yfed *bual* neu *buelin* yn awgrymu eu bod wedi rhoi o’r neilltu rai gwrthrychau ‘hen-ffasiwn’. Ymddengys fod y beirdd yn fwy parod i adlewyrchu newidiadau mewn offer na newidiadau mewn dulliau brwydro neu arferion eraill ac iddynt oblygiadau ehangach, megis herodraeth. Ac weithiau, fe all eu ‘hamwysedd’ fod wedi bod yn ganlyniad i’w hymdrechion i lunio canu mawl a oedd yn deilwng ac yn gonfensiynol – yn yr ystyr orau – ac eto’n gadael lle i rai o’r newidiadau hyn.